

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus Adroddiad Technegol



Rhagfyr 2023

Cyflwynir elfennau wedi'u mapio a gynhyrchwyd o'r asesiad hwn ar [Fap Cynigion a Mapiau Mewnosod yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig](#)

Datganiad Diweddaru – Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon wedi'i diweddaru ers ei chyhoeddi'n wreiddiol. Yr unig newidiadau a wnaed yw cywiriadau i'r Cyfeirnodau Safle yn Nhabl 21, sydd wedi'u diwygio i gywiro gwall. Gwnaed y diweddariadau hyn ym Mawrth 2025.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
1.1. Diben yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus hwn.....	6
1.2. Diffinio 'Man Agored'	8
1.3. Topoleg Mannau Agored	9
2. Methodoleg	12
2.1. Cwmpas Gofodol y Dadansoddiad	13
2.2. Coladu Cronfa Ddata	13
2.3. Data Demograffig.....	14
2.4. Pennu Hygyrchedd	15
2.5. Ansawdd.....	16
2.6. Trothwyon.....	17
2.7. Ystyriaethau Ychwanegol	17
3. Adnabod Anghenion Lleol.....	19
3.1. Fframwaith Strategol.....	19
3.2. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT).....	24
3.3. Arolwg Cenedlaethol Cymru (Hamdden Awyr Agored).....	27
3.4. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	28
3.5. Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.....	29
3.6. Tyfu Bwyd.....	32
3.7. Asesiad Mannau Gwyrdd.....	33
3.8. Canllawiau Cynllunio Atodol: Hamdden a mannau agored	34
3.9. Demograffeg	34
4. Archwilio'r Ddarpariaeth Bresennol	37
4.1. Y Ddarpariaeth Gyffredinol yn Sir Gaerfyrddin	37
4.2. Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch.....	37
4.3. Man Chwarae	39
4.4. Chwaraeon Awyr Agored.....	40
4.5. Amwynder Ffurfiol.....	42

4.6. Ansawdd	45
5. Safonau Meincnodi	46
5.1. Siarter ar gyfer Mannau Agored yng Nghymru	46
5.2. Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch	46
5.3. Man Chwarae	47
5.4. Man Amwynder Ffurfiol	49
5.5. Rhandiroedd	49
5.6. Profi Safonau Mannau Agored	50
Maint y ddarpariaeth	51
Hygyrchedd Darpariaeth	52
6. Canlyniadau	53
6.1. Safon 1	53
6.2. Safon 2	61
6.3. Safon 3	62
6.4. Safon 4	62
7. Yr Argymhellion	64
7.1. Polisi Mannau Agored	64
7.2. Asesu Safle (Dyraniadau'r CDLI)	66
7.3. Llunio Safonau Mannau Agored Lleol	75
8. Casgliad	77
Atodiadau	78
Atodiad A: Ffynonellau a Datganiadau Priodoli	78
Atodiad B: Ffynonellau a Datganiadau Priodoli	87

Talfyriadau

(P)OSA	Asesiad Mannau Agored (Cyhoeddus)
ACI	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
ACLI	Awdurdod(au) Cynllunio Lleol
AFf	Amwynder Ffurfiol
ANGS	Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch
All	Awdurdod(au) lleol
AO	Arolwg Ordnans
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
CDLI(d)	Cynllun Datblygu Lleol (diwygiedig) (cyfeirir ato hefyd fel y 'Cynllun')
CGHT	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CRoW	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin (ardal unedol y cyfeirir ati fel 'Sir')
ChAO	Chwaraeon Awyr Agored
FIT	Meysydd Chwarae Cymru
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
GNL	Gwarchodfa Natur Leol
HTC	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
MAS	Methodoleg Asesu Safle
MCh	Man Chwarae (cyfystyr â Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)
PCBB	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
SDC	Systemau Draenio Cynaliadwy
SGG	Seilwaith Gwyrdd a Glas
SYG	Swyddfa Ystadegau Gwladol
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
WE	Wardiau Etholiadol (cyfeirir atynt hefyd fel 'Ward')

1. Cyflwyniad

Mae mannau agored yn hanfodol ar gyfer iechyd, llesiant ac amwynder, gan gyfrannu at ran hanfodol o dirwedd Sir Gaerfyrddin a'r berthynas sydd gan breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd â hi. Gallant ddarparu lle gwerthfawr ar gyfer chwarae a gweithgaredd corfforol, yn aml ym mhresenoldeb natur¹. Gall rhwydweithiau integredig o fannau agored hefyd hyrwyddo cadwraeth natur ac, fel rhannau cynhenid o Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG), gall chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo gwytnwch hinsawdd a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth². Yn ogystal, trwy ddarparu lle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ymgysylltiad dynol â byd natur, gall y meysydd hyn ddatblygu ymhellach ymdeimlad unigolyn o *gynefin*³ wrth sefydlu egwyddorion creu lleoedd.

Fel yr amlinellwyd yn *Neddf Cynllunio (Cymru) 2015*⁴, rhaid i gynlluniau datblygu lleol (CDLI) ac awdurdodau cynllunio lleol (ACLI) hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*⁵, er mwyn sicrhau bod datblygu a defnyddio tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Trwy eu hintegreiddio'n briodol i wead trefol a'n cymunedau gwledig, gall mannau agored helpu i sicrhau bod nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cael eu cyflawni wrth gyflawni amcanion rhyng-gysylltiedig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol⁶, Iechyd Cyhoeddus Cymru⁷, Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)⁸, a Chyngor Sir Gaerfyrddin (CSC)⁹.

Mae Polisi Cynllunio Cymru¹⁰ yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau adloniant a hamdden mewn lleoliad da, a datblygu polisïau clir ar gyfer darparu, diogelu a gwella cyfleusterau chwaraeon, adloniant a hamdden. Dylai'r polisïau hyn osod safonau darpariaeth, fel y gellir nodi diffygion lleol a'u diwallu drwy'r broses gynllunio, ac i osgoi/datrys gwrthdaro rhwng buddiannau. Dylid gwarchod mannau agored a gwyrdd ffurfiol ac anffurfiol rhag datblygiad, yn enwedig pan fônt yn fannau amlswyddogaethol, a darparu buddion i'r gymuned gyfagos.

¹ Mae effeithiau mannau gwyrdd ar iechyd, llesiant a diogelwch cymdeithasol wedi'u hastudio'n dda (e.e. [Groenewegen ac eraill, 2006](#); [Pretty ac eraill, 2007](#); [Irvine ac eraill, 2013](#); [Jimenez, ac eraill, 2021](#)).

² Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi datgan argyfwng hinsawdd a natur ac mae wedi ymrwymo i ddatrys y materion sylfaenol sy'n llywio'r rhain.

³ Ystyr "cynefin" yw 'y man lle teimlwn ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau yn galonogol i'w hadnabod.'

⁴ [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2015](#)

⁵ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

⁶ Mae [Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin \(2018\)](#) yn gosod pedair thema, sef Arferion Iach, Ymyrraeth Gynnar, Cysylltiadau Cryf, a Phobl a Lleoedd Ffyniannus – y mae mannau agored yn gysylltiedig â nhw'.

⁷ Mae [Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol](#) yn nodi cerdded, beicio, mannau agored, a seilwaith gwyrdd a glas fel meysydd a all gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant.

⁸ [CNC - Datganiad Ardal De-orllewin Cymru](#)

⁹ Amcanion llesiant a nodir yn y [Strategaeth Gorfforaethol 2018-2023 \(Diweddarwyd Ebrill 2021\)](#), prosiectau blaenoriaeth yn [Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin](#), ac uchelgeisiau a nodir yn [Datganiad Gweledigaeth y Cabinet \(2022-2027\)](#).

¹⁰ [Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11](#)

1.1. Diben yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus hwn

Cynigir y gellir cyflawni'r gofynion a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru drwy gynnal archwiliad o'r darpariaethau presennol ochr yn ochr ag asesiad o'r angen am fannau agored presennol a'r angen tebygol yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae'r tasgau hyn yn ffurfio'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus a ddefnyddir i lywio'r gwaith o baratoi a gweithredu ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Cyngor Sir Caerfyrddin (2018-2033), a bydd yn elfen allweddol o'i sylfaen dystiolaeth. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i lywio polisïau priodol y cynllun datblygu lleol diwygiedig a fydd yn helpu i ddiogelu a sicrhau adnoddau mannau agored ar gyfer cymunedau lleol, yn amodol ar gael eu mabwysiadu. Gallai'r wybodaeth a geir o'r asesiad presennol hwn fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer paratoi a datblygu strategaethau defnydd tir eraill lle mae materion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol ac iechyd a llesiant ehangach yn cael sylw yn y sir.

Nid yw Polisi Cynllunio Cymru yn rhagnodi safonau ar gyfer darparu mannau agored. Felly, fel y penderfynwyd yn ddiweddarach ym Mhennod 5, mae'r asesiad presennol wedi defnyddio safonau a gydnabyddir yn eang i ystyried yr angen am fannau agored yn gyfannol mewn perthynas â'r cyd-destun lleol a nodweddion tirwedd presennol. Mae'r rhain wedi'u penderfynu gan gyfeirio at gyd-destun lleol y Sir a'r heriau cymdeithasol a wynebir ar hyn o bryd¹¹, ochr yn ochr â'r rhai a argymhellir gan y rhanddeiliaid sydd wedi buddsoddi ynddynt (e.e. Cyngor Chwaraeon Cymru, CNC, Meysydd Chwarae Cymru) a'r dull a gymerir gan Awdurdodau Lleol eraill.

Yng Nghymru, mae'r polisi cynllunio mannau agored wedi'i nodi yn *Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored*¹². Cyfeiriwyd at y ddogfen hon drwy gydol datblygiad yr adroddiad presennol, gan gynnwys llunio safonau y mae TAN16 yn eu hargymhell. Mae'r adroddiad hwn yn disodli asesiad mannau agored blaenorol a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020. Mae'r newidiadau cyd-destunol hynny sydd wedi digwydd ers y cyhoeddiad cychwynnol hwn, ac sy'n cael sylw yn yr asesiad presennol hwn, yn cynnwys y canlynol:

- Oedi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig – Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, cafodd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo cyntaf ei hepgor rhag cael ei archwilio, yn bennaf mewn ymateb i ganfyddiadau Asesiad Cydymffurfedd CNC o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn Erbyn Targedau Ffosfforws¹³. Ar 9 Mawrth 2022, cytunodd y Cyngor i'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig i ganiatáu paratoi ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo. Rhoddodd hyn amser i fynd i'r afael â'r mater ffosffadau, a chaniataodd hyn ymhellach ar gyfer myfyrio ac ymateb i adferiad yn dilyn pandemig COVID-19, yr agenda datgarboneiddio, argyfwng natur, TAN15, a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

¹¹ Cyfeirir at Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir Gaerfyrddin, Strategaeth Cymorth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin 2018-23, Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, ac asesiadau mannau agored blaenorol.

¹² [Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored \(llyw.cymru\)](#)

¹³ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiad Cydymffurfedd ACA Afonydd Cymru yn Erbyn Targedau Ffosfforws](#)

- Wardiau – Yn hanesyddol, mae'r sir wedi cynnwys 58 o wardiau etholiadol. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad sylweddol o ffiniau etholiadol a gynhaliwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru, o fis Mai 2022 mae'r sir bellach yn cynnwys 51 o wardiau. Yn ogystal â rhai newidiadau i enwau, ni fu unrhyw newidiadau i 34 o wardiau.
- Cyfrifiad 2021 – mae data ar y boblogaeth ac aelwydydd yng Nghymru o Gyfrifiad 2021 wedi'i gyhoeddi ers hynny. Yn Sir Gaerfyrddin, mae maint y boblogaeth wedi cynyddu 2.2%, o ryw 183,800 yn 2011 i 187,900 yn 2021. Er gwybodaeth, defnyddiodd yr Asesiad Mannau Cyhoeddus blaenorol set ddata amcangyfrifedig 'canol blwyddyn 2017' o'r boblogaeth o'r arolwg monitro blynyddol.
- Ffigurau tai – fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo cyntaf, *“i sicrhau y bodlonir y gofyniad tai cyffredinol o 8,835 o gartrefi ar gyfer cyfnod y cynllun, gwneir darpariaeth ar gyfer 10,160 o gartrefi newydd yn unol â'r fframwaith aneddiadau”* (SP3). O fewn yr ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, mae'r ffigur hwn wedi'i ddiweddarau i *“gofyniad tai cyffredinol o 8,822 o gartrefi...”* gyda *“darpariaeth... wedi'i gwneud ar gyfer 9,704 o gartrefi newydd”* (SP4). Er bod yr opsiwn gofodol strategol cyffredinol (h.y. dull hybrid) yn aros yr un fath, mae newidiadau pellach i'r sefyllfa ddyrannu hefyd wedi digwydd oherwydd amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys hyfywedd.

1.2. Diffinio ‘Man Agored’

Nid oes diffiniad cyffredinol o fannau agored o ran dosbarthiad, maint neu ddisgrifiad. Fel y nodir yn TAN16¹⁴, “*Diffinnir man agored yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel tir a gynlluniwyd fel gardd gyhoeddus neu a ddefnyddir gan y cyhoedd at ddibenion hamdden neu dir sy’n fynwent anarferedig. At ddibenion y canllawiau hyn, dylid dehongli man agored i olygu unrhyw ofod agored o werth i’r cyhoedd, gan gynnwys nid yn unig tir, ond hefyd arwynebeddau o ddŵr megis afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr sy’n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth, ac a allant hefyd weithredu fel amwynder gweledol, ac sydd hwyrach yn bwysig o ran cadwraeth a bioamrywiaeth.*”. Mae Deddf Mannau Agored 1906 yn cyfeirio at fannau agored yn ehangach fel “*unrhyw dir, boed yn amgaeedig ai peidio, lle nad oes unrhyw adeiladau, neu lle nad oes mwy nag un rhan o ugeinfed ohono wedi’i orchuddio ag adeiladau, a’r cyfan neu’r gweddill ohono wedi’i osod fel gardd neu’n cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden, neu yn gorwedd yn wastraff ac yn wag*”.

At ddibenion yr asesiad presennol, ystyrir mannau agored yn unol â TAN16. Serch hynny, rhaid iddo hefyd fod yn hygyrch heb gyfyngiadau ariannol i aelodau’r cyhoedd gael mynediad (ar droed) a mwynhau prif ddiben y safle y darperir y budd adloniant/amwynder ohono. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y rhai sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol¹⁵ yn cael yr un cyfle â’r rhai nad ydynt yn ei wynebu.

Gan ystyried yr uchod, gwneir yr amlinelliad canlynol:

- 1. Mannau Agored Cyhoeddus (cyfystyr â: Mannau Agored)** – Yn unol â’r diffiniad a ddarperir uchod, dyma brif ffocws yr asesiad presennol a dyma’r hyn y mae safonau Mannau Agored yn cael eu profi yn eu herbyn. Maent yn cynnwys parciau cyhoeddus, mannau gwyrdd hygyrch, a darpariaethau amwynder, a gallant gael naill ai mynediad statudol (e.e. tir comin) neu fynediad anstatudol (e.e. corff cyhoeddus sy’n eiddo a/neu fynediad a ganiateir drwy gytundeb ffurfiol¹⁶). Ni fydd y safleoedd hynny lle nad yw mynediad wedi’i sicrhau’n ffurfiol (neu lle nad yw’n hysbys) yn cael eu hystyried yn fan agored cyhoeddus.

¹⁴ Dyfyniad o Atodiad A, Tudalen 30 – [TAN 16: Chwaraeon, Hamdden, Mannau Agored \(llyw.cymru\)](#) – fel y dyfynnwyd ym mharagraff 2.5 sy’n nodi y diffinnir ‘man agored’ fel pob man agored o werth cyhoeddus, gan gynnwys tir, a mannau dŵr fel afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr a basnau dociau segur sy’n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth. Mae’r diffiniad o “mannau agored” at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ymgorffori’r diffiniad yn TAN16, yn seiliedig ar adran 336(1) o Ddeddf Gwlad a Thref 1990.

¹⁵ Mae hyn yn cyd-fynd â’r cyfrifoldebau sydd wedi’u hymgorffori yng Nghymru gan y [Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol](#). Yn ogystal, o fewn [Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin](#), ystyrir bod y dull hwn yn gyson â chanlyniad “*Mae teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth iechyd a llesiant yn eu hardaloedd lleol*”. Mae’r mater hwn i’w weld yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018-19) a ddaeth i’r canfyddiad na allai 5% o’r ymatebwyr na ymwelodd â’r awyr agored o gwbl yn ystod y 12 mis diwethaf wneud hynny oherwydd nad oeddent yn gallu ei fforddio (Tabl 6).

¹⁶ Er enghraifft, Datganiad Sefyllfa Mynediad i Goetiroedd Coed Cadw. Yn ddelfrydol, dylid darparu mynediad am byth.

- 2. Mannau Adloniant Eraill (Mynediad Cyfyngedig)** – Wrth gyd-fynd â'r diffiniad yn TAN16, gwneir gwahaniaeth o fewn yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus presennol. Maent yn cynnwys safleoedd sy'n codi tâl aelodaeth (e.e. clybiau gôl), tâl mynediad (e.e. gerddi), a'r rhai lle mae mynediad cyhoeddus yn cael ei gyfyngu (neu lle gellid ei gyfyngu) (e.e. cyfleusterau ysgol). I gydnabod y rôl barhaus y mae'r mannau hyn yn ei chwarae o fewn ein cymunedau, byddant yn cael eu cynnwys o fewn cronfa ddata goladedig yr asesiad at ddibenion archwilio a dehongliad ychwanegol, fodd bynnag, ni fydd y rhain yn mynd tuag at gyfrifo digonolrwydd cyffredinol yn erbyn y safonau a ddyfeisiwyd.

1.3. Topoleg Mannau Agored

Fel yr amlinellwyd yn TAN16¹⁷, mae nifer o dopolegau mannau agored y gallai'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus eu hystyried. Mae Tabl 1 yn cyflwyno'r categorïau hynny y bydd mannau agored yn cael eu cyfuno a'u dadansoddi ar eu cyfer, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r teipolegau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn TAN16. Rhoddir nodiadau ar eu dosbarthiad o fewn yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus presennol hefyd.

Mae'r topolegau hyn wedi'u cyfuno i gydnabod y natur amlswyddogaethol y mae llawer o'r mannau agored hyn yn ei darparu.

¹⁷ Gweler Atodiad B, Tudalen 31 – TAN 16

Tabl 1. Categoriâu ac enghreifftiau o fannau agored, sut maent yn berthnasol i TAN16, a nodiadau ar eu dosbarthiad o fewn yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus presennol.

Categori	Teipoleg Mannau Agored (TAN16)	Enghreifftiau	Nodiadau
Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch	Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol	Coetir, coedwigaeth drefol, prysgwydd, glaswelltiroedd, tir mynediad agored, gwlyptiroedd, tir agored diffaith, a thir arfordirol.	Rhaid i Fannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch fod ar gael yn rhwydd ac yn agored, boed hynny trwy'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, cytundeb ffurfiol (mae cyfyngiad safle trwy gau gatiâu yn y nos, er enghraifft, yn cael eu diystyru). Mae ardaloedd gwarchodedig/dynodedig megis SoDdGA ac ACA heb fynediad cyhoeddus wedi'u heithrio. Nid yw asedau seilwaith gwyrdd a glas fel gwlyptiroedd/afonydd yn cael eu cynnwys ychwaith oni bai eu bod yn ategu llwybrau tramwy cyhoeddus neu fan agored hygyrch arall, a'u bod yn rhan annatod o'r budd adloniant/amwynder canfyddedig. Nid oes hawl mynediad cyhoeddus cyffredinol wedi'i sefydlu'n glir i'r blaendraeth at ddibenion adloniant. Yn y rhan fwyaf o achosion, felly, mae traethau wedi'u heithrio (ac eithrio parc arfordirol y mileniwm).
	Coridorau Gwyrdd	Nodweddion llinol hygyrch (e.e. glannau afonydd, llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau, tir rheilffordd segur a llwybrau tramwy) gyda nifer cymesur o nodweddion naturiol di-dor fel gwrychoedd, dolydd, prysgwydd, a/neu goetiroedd.	
	Ardaloedd o Gefn Gwlad ar y Cyrion Trefol	Ardaloedd sy'n union gyfagos i derfynau datblygu.	
	Dŵr	Nodweddion seilwaith glas hygyrch sy'n darparu gwerth amwynder (e.e. pyllau, llynnoedd, harbyrau).	
Chwaraeon Awyr Agored	Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored	Cyrtiau tenis, lawntiau bowlïo, caeau chwaraeon, cyrsiau golff, traciau athletau, meysydd chwarae ysgolion a sefydliadau eraill, a meysydd chwaraeon awyr agored eraill.	Dylai cyfleusterau chwaraeon awyr agored gynnwys yr ardal a'r adeiladau cysylltiedig sy'n cynnal y swyddogaeth yn bennaf yn unig (e.e. mae bariau chwaraeon yn cael eu heithrio). Dim ond y safleoedd hynny a'r cyfleusterau cysylltiedig sydd ar gael yn rheolaidd i'r cyhoedd a fydd yn cael eu hystyried.
Man Chwarae	Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	Mannau chwarae fel meysydd chwarae, ardaloedd ar gyfer chwarae ar olwynion (h.y. sglefrfyrrddio), a meysydd eraill llai ffurfiol gyda darpariaeth (e.e. llochesi cymdeithasu).	Yn nodweddiadol, ardal ag offer neu ardal anffurfiol wedi'i dynodi ar gyfer chwarae.
Man Amwynder Ffurfiol	Parciau a Gerddi Cyhoeddus	Parciau trefol/gwledig/poced, a gerddi agored.	Rhaid i'r ardal a ystyrir fod yn yr awyr agored (h.y. ac eithrio adeiladau cysylltiedig megis eglwysi). Nid yw Mannau Gwyrdd Amwynder yn ystyried ymylon ffyrdd, er y gall gynnwys mannau amlswyddogaethol (e.e. systemau draenio cynaliadwy) sydd wedi'u gwreiddio mewn creu lleoedd a
	Rhandiroedd, Gerddi Cymunedol a Ffermydd Dinesig	Rhandiroedd statudol, rhandiroedd dros dro, a mannau tyfu cymunedol gan gynnwys perllannau.	

Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo

	Man Gwyrdd Amwynder	Nodweddion gwyrdd a reolir fel mannau adloniant anffurfiol, meysydd pentref, a mannau gwyrdd hygrych mawr o amgylch datblygiadau.	dylunio o safon. Peidiwch â chynnwys rhandiroedd sy'n eiddo preifat.
	Mynwentydd a Mynwentydd eglwys	Gan gynnwys claddfeydd nas defnyddir mwyach.	
	Mannau Dinesig	Sgwariau marchnad, promenadau, ac ardaloedd wyneb caled eraill a ddyluniwyd ar gyfer cerddwyr.	

2. Methodoleg

Mae'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus hwn yn glynu at nifer o gamau allweddol sy'n cyd-fynd yn fras â'r cyngor a roddir yn TAN16 (Tabl 2).

Tabl 2. Camau Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus wedi'u haddasu o'r rhai a amlinellwyd ym mharagraff 2.23 yn TAN16 (tudalen 11).

Cam Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus	Camau gweithredu
Datblygu Methodoleg	- Adolygu nodiadau canllaw presennol. - Nodi diffygion asesiadau blaenorol.
Adnabod Anghenion Lleol	Adolygu polisiau presennol, strategaethau, asesiadau cysylltiedig, ac unrhyw ymgynghoriadau perthnasol â chymunedau a rhanddeiliaid mewn cyd-destun lleol ac mewn cyd-destun Cymreig.
Archwilio'r Ddarpariaeth Bresennol	- Diffinio cwmipas yr archwiliad. - Ymgymryd â choladu data a thrafod canlyniadau.
Adolygiad o Safonau Mannau Agored	- Adolygu safonau presennol a argymhellir o ran maint, hygyrchedd ac ansawdd. - Gosod safonau yn ôl cyd-destun lleol ac adolygu.
Canlyniadau	- Nodi gwargedion/diffygion o ran maint a hygyrchedd. - Cynhyrchu mapiau aneddiadau i gynorthwyo'r gwaith o ddehongli canlyniadau.
Argymhellion y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig	- Canlyniadau i lywio'r asesiad o ddyraniadau. - Adolygu Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a pholisiau mannau agored y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo cyntaf. - Nodi a gwerthuso opsiynau strategol.
Monitro a Gweithredu Ymlaen	- Cadw at y fframwaith adrodd sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. - Os caiff ei fabwysiadu, sicrhau y cedwir at safonau yn y broses gynllunio. - Adolygu pan fo'n briodol.

2.1. Cwmpas Gofodol y Dadansoddiad

Mae'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus presennol yn cwmpasu ardal awdurdod unedol Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Sir'), ac nid yw'n ystyried y boblogaeth/aelwydydd mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos eraill gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Sir Gaerfyrddin. Edrychir ar faint o fannau agored a ddarperir fesul ward (Ffigur 1), tra bydd hygyrchedd yn cael ei adolygu ar sail ward, aelwydydd presennol, a dyraniad.



Ffigur 1. Map o'r Sir yn darlunio wardiau etholiadol. Er ei bod yn Sir Gaerfyrddin, yr ardal sydd wedi'i lliwio'n llwyd yw'r ardal gyfagos sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac nid yw wedi'i chynnwys yng nghwmpas yr asesiad hwn.

Cydnabyddir y gall trigolion ymweld â mannau agored y tu allan i'r ardal hon yn aml, yn enwedig os ydynt yn byw mewn aneddiadau sy'n agos at ffiniau gweinyddol. Fodd bynnag, dim ond mannau agored o fewn y Sir sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn, sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau a dyletswyddau gweinyddol yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei hun.

2.2. Coladu Cronfa Ddata

Cafodd yr holl safleoedd eu harchwilio, eu dilysu, a'u mapio wedi hynny gyda mewnbwn o amrywiaeth o adrannau Cyngor Sir Caerfyrddin gan gynnwys Blaengynllunio, Hamdden, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Tîm Gofal Plant a Chwarae, Ystadau, Cadwraeth Wledig, a Datblygu Economaidd. Ni wnaed gwaith gwirio tir helaeth, er y gwnaeth

mesuriadau diweddar a wnaed yn ystod asesiadau eraill (h.y. archwiliad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae) helpu i lywio sylwadau a ddarparwyd fesul safle ac anheddiad, ochr yn ochr â chymhariaeth â delweddau diweddar o'r awyr.

Ochr yn ochr â chydweithio'n rhydd, cafwyd mewnbwn staff sylweddol yn ystod cyfres o weithdai rhyngadrannol a arweiniodd at y set ddata Mannau Agored derfynol a'r safonau a feincnodir. Er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd ar gael yn llawn, defnyddiwyd ystod gynhwysfawr o setiau data i bennu pob categori mannau agored (Tabl 3). Gyda'i gilydd, cafodd y rhain eu croes gymharu â'r setiau data hynny a luniwyd ar gyfer asesiadau mannau agored blaenorol ac asesiadau seilwaith gwyrdd a glas i nodi unrhyw allanollynnau yr oedd angen eu harchwilio'n fanylach.

Tabl 3. Setiau data a ddefnyddiwyd i lywio pob categori mannau agored. Noder: Cyflwynwyd datganiadau priodoli cyfatebol ochr yn ochr â'r holl fapiau a gynhyrchwyd ac fe'u cyflwynir gyda'i gilydd yn Atodiad B, ynghyd â chyfeiriadau at yr holl ddata arall a ddefnyddiwyd.

Categori Man Agored	Set ddata
Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch	Gwarchodfeydd Natur Lleol Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Safleoedd Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Mynediad Agored CNC – Coedwig Ddynodedig Mynediad Agored CNC – Tir Agored Mynediad Agored CNC – Tir Comin Cofrestredig Mynediad Agored CNC – Tir Mynediad Statudol Arall
Man Chwarae (MCh)	Mapio o'r Awyr 2017/18 Cofrestr Meysydd Chwarae (gan Swyddog Digonolrwydd Chwarae Cyngor Sir Caerfyrddin) Mapio OS Open Greenspace
Man Amwynder Ffurfiol	Ordnance Survey Open Greenspace (Ebrill 2023) Mapio o'r Awyr 2017/18 Parciau a Gerddi Hanesyddol CADW

Cafodd yr holl ddata ei ddadansoddi a'i gyflwyno yn QGIS 3.16.6. Cyfunwyd setiau data yn unol â'r teipolegau mannau agored a bennwyd (fel y nodir yn Nhabl 1) a phroseswyd nhw i nodi mynediad a chael gwared ar anghysondebau megis nodweddion sy'n gorgyffwrdd, gan sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygiadau na chyfrif dwbl. Cymharwyd ffiniau safleoedd yn erbyn delweddau diweddar o'r awyr a, lle y'u hystyriwyd yn briodol, fe'u golygwyd i sicrhau bod ardal gyffredinol y ddarpariaeth yn cynrychioli darlun mwy cywir o'r hyn sydd ar y ddaear (h.y. newidiwyd ffiniau i gael gwared ar adeiladau neu seilwaith caled arall nad oedd yn gysylltiedig â'r prif fudd adloniant/amwynder a gafwyd). Gwnaethpwyd hyn hefyd o gymharu â data perchnogaeth tir Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.3. Data Demograffig

Cafwyd ystadegau poblogaeth ar gyfer pob ward etholiadol yn y Sir o ddata Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), gyda chymorth y Tîm Mewnwelediad Data. Defnyddiwyd y ffigurau poblogaeth breswyl arferol i gyfrifo'r ddarpariaeth o hectarau fel mannau agored fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer pob ward, yn unol â'r safonau meincnod a amlinellir yn Adran 5.6, ac eithrio rhandiroedd a oedd fel arall yn defnyddio nifer yr aelwydydd (yn unol ag argymhellion y Gymdeithas Randiroedd). Cyfrifwyd y ddarpariaeth sirol hefyd.

2.4. Pennu Hygyrchedd

Defnyddiwyd dull seiliedig ar dystiolaeth i bennu hygyrchedd cyhoeddus adnoddau mannau agored (yn unol â'r diffiniad o fannau agored a ddefnyddir). Defnyddiwyd setiau data sydd ar gael yn eang ac yn ymwneud â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy¹⁸ (e.e. Tir Comin Mynediad Agored) ochr yn ochr â'r rhai a ddelir yn fewnol. Defnyddiwyd gwybodaeth a ddarparwyd gan y tîm Ystadau hefyd i hysbysu lesddeiliad/lesddeiliaid safle os oedd wedi cael asedau wedi eu trosglwyddo yn ddiweddar. Yn ogystal, cysylltwyd â nifer o randdeiliaid i benderfynu a oedd asedau ar gael yn ffurfiol i'r cyhoedd (os nad oeddent yn cael eu cadw ar gronfeydd data Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy/Cyngor Sir Caerfyrddin).


Aseswyd hygyrchedd ar lefel Sir gyfan drwy gymharu gorgyffwrdd clustogfeydd â chyfeiriadau preswyl a nodir gan y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol. Ar sail dyraniad preswyl unigol y CDLI diwygiedig, aseswyd hygyrchedd gan ddefnyddio'r safonau pellter lleiaf a amlinellir yn Adran 5.6¹⁹. Cynhaliwyd dadansoddiad rhwydwaith o bwynt craidd y safle datblygu arfaethedig, ac yna crëwyd polygonau pellter is yn seiliedig ar y rhwydwaith gwasanaeth i gynnal ymholiadau gofodol (h.y. pennu unrhyw groesffyrdd â mannau agored). Mae hyn yn sicrhau bod mynediad yn cael ei gynrychioli'n fwy cywir ar gyfer pob annedd o fewn dyraniad penodol, ac nid yn unig y rhai sy'n agos at y terfyn allanol. Yn ogystal, mae CNC yn datgan bod dull sy'n ymgorffori technegau rhwydwaith *"yn cynnig y dadansoddiad gorau o ddarpariaeth mannau gwyrdd"*²⁰ (Ffigur 2). Er mwyn bod yn gyflawn, cyflwynir y wybodaeth hon ochr yn ochr ag unrhyw ddiffygion maint ac, yn y pen draw, caiff ei defnyddio fel gwybodaeth ategol a gaiff ei chynnwys yn y Fethodoleg Asesu Safle²¹.

¹⁸ [Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 \(legislation.gov.uk\)](#)

¹⁹ Mae Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd CNC yn nodi 400 m os mai dadansoddiad rhwydwaith a ddefnyddir. Mae tudalen 28 yn nodi *"mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr angen i'r cerddwr ddilyn y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau troed i gael mynediad i fannau gwyrdd, croesi strydoedd a mynd rownd corneli ac ati."*

²⁰ Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd CNC (Tudalen 28).

²¹ Mae mannau agored yn gyfyngiad dyraniad ac fe'i hystyrir o fewn [methodoleg asesu safle](#) y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Yn ymwneud â Chwestiwn 7 (paragraff 4.20 – rhaid ystyried mannau agored cyhoeddus) a Chwestiwn 14 (paragraff 4.28 – hyrwyddo Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (h.y. ISA12: Iechyd a Llesiant, ISA15: Gwead Cymdeithasol)).



Ffigur 2. Crëwyd rhwydweithiau gwasanaeth o 400 m (melyn) a 1,200 m (oren) o bwynt craidd pob dyraniad (du) i bennu hygyrchedd yn unol â'r ail a'r trydydd safon a amlinellir yn adran 5.6. Yn ymarferol, mae'r ardaloedd hynny y tu allan i'r parth perthnasol yn nodi diffygion o ran mynediad i ddarpariaethau mannau agored presennol (fel y dynodir mewn porffor). Enghraifft yn defnyddio SuV16/h1, Heol Llwynddewi.

At hynny, cynhyrchwyd asedau mapiau rhyngweithiol i nodi meysydd gwasanaeth pob safle man agored (h.y. ardaloedd sy'n bodloni safonau hygyrchedd) ac, er nad ydynt yn bresennol yn yr adroddiad, cynigir eu gweithredu yn ystod mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig i gynorthwyo asesiadau swyddogion.

2.5. Ansawdd

Nid oes unrhyw safonau ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth wedi'u hymgorffori oherwydd bod pennu rhai agweddau sy'n ymwneud ag ansawdd yn mynd y tu hwnt i gwmpas traddodiadol Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus mewn llawer o achosion (h.y. efallai y bydd angen i ddarparwyr mannau agored gynnal archwiliadau penodol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch). Serch hynny, bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu yn ystod yr archwiliad ar statws cyfreithiol gwarchodol penodol i safleoedd²² (sy'n awgrymu darpariaeth a ddiogelir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol) a sicrhau dyfarniadau trwy gynlluniau fel y Faner Werdd/Las²³ i ddynodi ansawdd mannau agored. Roedd hyn yn ychwanegol at y sylwadau ategol a gynhwyswyd yn yr asesiad digonolrwydd chwarae diweddar.

²² P'un a ydyw wedi'i nodi ai peidio yn y CDLI blaenorol a/neu amddiffyniad cyfreithiol arall am byth fel y nodir mewn dogfennau sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau neu a gedwir ar gofnod mannau gwarchodedig Meysydd Chwarae Cymru.

²³ Mae Cynllun Dyfarnu'r Faner Werdd yn safon ryngwladol ar gyfer parciau a mannau gwyrdd a weithredir gan [Cadwch Gymru'n Daclus](#).

NODER: Mae'r casgliad yn argymhell mai asesu ansawdd a gwirionedd yw'r cam nesaf wrth weithredu'r corff hwn o waith.

2.6. Trothwyon

Nid oes lleiafswm trothwy arwynebedd wedi'i ddefnyddio yn yr asesiad hwn o ystyried y gwahaniaeth rhwng natur wledig y Sir a'i hardaloedd trefol gwasgaredig. Er bod rhai trothwyon yn cyd-fynd â'r safonau hynny a adolygwyd ym Mhennod 5, mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr holl fannau agored o werth lleol (beth bynnag fo'u maint) yn cael eu cynnwys er mwyn sicrhau y gellir ystyried y mannau hyn yn briodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai mewn aneddiadau llai²⁴ na fyddai o reidrwydd yn cael eu nodi pe bai trothwyon yn cael eu cynnwys. Serch hynny, cafodd y safleoedd hynny y barnwyd nad oeddent yn weithredol oherwydd maint a/neu sefyllfa eu heithrio yn ôl disgrisiwn yr aseswr.

2.7. Ystyriaethau Ychwanegol

Cymerwyd agwedd bragmatig o ran penderfynu a ydyw safle'n cael ei ystyried yn fan agored ac a ddarperir mynediad i breswylwyr yn unol â'r diffiniad a ddefnyddiwyd. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau ansawdd, mae'n bosibl y bydd rhai gwallau'n parhau o ystyried maint, cymhlethdod a natur newidiol y darpariaethau mannau agored.

Ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol â chanfyddiadau blaenorol Asesiadau Mannau Agored Cyhoeddus gan nad yw asedau megis cyrsiau golff a chaeau chwarae ysgolion (nad ydynt yn hygyrch yn rhwydd ac yn arferol) yn cael eu hystyried mwyach. Mae hyn yn ychwanegol at y newidiadau hynny i ffiniau wardiau.

Dylid nodi hefyd bod yr asesiad hwn yn categoreiddio mannau agored ar sail eu prif swyddogaeth neu fudd deilliadol, heb ystyried yr aml-swyddogaeth sydd gan lawer o'r mannau hyn (neu'r ffaith nad yw'r swyddogaeth/defnydd bob amser yn sefydlog a'u bod yn gallu newid dros amser). Er enghraifft, gall mannau amwynder gynnig darpariaeth ar gyfer chwarae plant ac, yn eu tro, gellid ystyried parciau, mannau chwarae a chyfleusterau chwaraeon awyr agored i gyd yn fannau amwynder. Er eglurder, mae lleoedd wedi'u categoreiddio yn unol â'r safonau perthnasol, y setiau data sydd ar gael, a gwybodaeth leol; fodd bynnag, dylid edrych ar y canlyniadau yn gyfannol, ac mae angen holi ymhellach ar lefel prosiect (yn enwedig wrth bennu'r angen am rwymedigaethau cynllunio'r dyraniadau a aseswyd). Serch hynny, mae'r fethodoleg a ddyfeisiwyd yn sicrhau nad yw safleoedd yn cael eu cyfrif mewn sawl categori o fannau agored ac, felly, mae maint y ddarpariaeth derfynol a gyfrifir yn adlewyrchiad dilys o'r hyn sydd ar lawr gwlad (yn amodol ar y setiau data a ddefnyddir).

Mae'r mannau hynny lle telir am eu defnyddio (e.e. cyrsiau golff) yn cael eu cadw o fewn y gronfa ddata mannau agored a gynhyrchwyd, er eu bod wedi'u heithrio o'r asesiad yn erbyn y safonau a'r cyfrifiad cyffredinol o gyfanswm y ddarpariaeth mannau agored. Argymhellir y

²⁴ Yn enwedig Haenau 3 a 4 gan ddefnyddio Fframwaith Aneddiadau'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

dylid cynnwys y digonolrwydd a'r angen lleol am safleoedd o'r fath yn lle hynny o fewn astudiaeth gynhwysfawr o chwaraeon, hamdden ac adloniant. Mae ansicrwydd a chyfyngiadau'r asesiad presennol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r safonau mannau agored sy'n cael eu hargymell (fel y gwelir yn ddiweddarach yn Nhabl 22) yn cael eu datblygu fel procsi i sicrhau bod amrywiaeth o ddefnyddwyr ag amrywiaeth o anghenion, galluoedd a diddordebau yn gallu cael eu bodloni'n briodol. Fodd bynnag, fel asesiad strategol lefel uchel, nid yw'n nodi'n benodol anghenion penodol o fewn anheddiad penodol sy'n amrywio ar sawl ffactor gan gynnwys y rhwydwaith trafnidiaeth a demograffeg trigolion;
- Mewn llawer o ardaloedd trefol presennol, er ei bod yn bosibl canfod diffygion yn y ddarpariaeth mannau agored a nodi anghenion hygyrchedd penodol (yn unol â'r safonau a ddewiswyd), nid yw'n ystyried a ellir bodloni diffygion yn briodol o fewn yr ardal honno (h.y. argaeledd tir);
- Mae'r asesiad o ddyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn ystyried y pellter gwirioneddol o hygyrchedd drws-i-gât a darparu llwybrau mynediad presennol drwy ddefnyddio dadansoddiad rhwydwaith. Credir bod pennu'r craidd ar gyfer pob dyraniad yn cynrychioli mynediad mwy cymesur i bob annedd, nid dim ond y rhai ar y terfyn allanol. Mae dadansoddiadau eraill megis clustogfeydd yn debygol o ddarparu canlyniadau gwahanol (a byddent yn llai dibynadwy). Er hynny, nid yw'n ystyried p'un a yw'r llwybrau hyn yn addas i gerddwyr mewn gwirionedd (ac, felly, dylid ymgymryd ag integreiddio pellach ar lefel prosiect);
- Nid yw darparu pwyntiau mynediad, rheseli beiciau a pharcio digonol a seilwaith trafnidiaeth arall yn cael ei ystyried yn unol â nifer y defnyddwyr presennol neu yn y dyfodol;
- Newidiadau demograffig ers y Cyfrifiad diwethaf a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2021;
- Newidiadau i fannau agored a/neu eu hansawdd ers creu'r setiau data/asesiadau a ddefnyddiwyd;
- Effaith ymwelwyr a thwristiaeth ar ddarpariaeth mannau agored. Er enghraifft, gall ymwelwyr effeithio'n rheolaidd ar nifer y mannau agored a ddarperir, yn enwedig mewn ardaloedd twristaidd poblogaidd;
- Nid yw'n ystyried effeithiau cyflogaeth na dyraniadau cyflogaeth;
- Mae'n dosbarthu gweithgareddau chwarae plant ar y cyd (h.y. nid yw'n nodi'n unigol y lleoedd chwarae lleol, y lleoedd lleol â chyfarpar ar gyfer chwarae, a'r lleoedd mewn cymdogaeth â chyfarpar ar gyfer chwarae hynny a nodir o fewn safonau Meysydd Chwarae Cymru);
- Dim ond mannau agored o fewn y Sir sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar y wardiau hynny²⁵ sy'n croesi ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Unrhyw ansicrwydd pellach a amlinellwyd gan awduron unrhyw set ddata briodol.

²⁵ Wardiau Etholiadol Llanboidy, Glanamau, Garnant, Llandeilo, Cwarter Bach, Llanymddyfri, Llangadog, a Llandybïe.

3. Adnabod Anghenion Lleol

Mae casgliad cynhwysfawr o bolisi cefndir cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a fframwaith strategol sy'n ymwneud â mannau agored i'w gweld yn Atodiad A. Mae trosolwg nad yw'n hollgynhwysfawr o'r cyd-destun strategol lleol, polisïau presennol, ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â mannau agored wedi'u crynhoi isod.

3.1. Fframwaith Strategol

Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022–2027 (Gorffennaf 2022)

Yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi a newid yn yr hinsawdd, mae datganiad gweledigaeth y Cabinet yn cynnwys cryfhau'r economi a chynyddu ffyniant, a buddsoddi mewn tai, addysg, diwylliant, seilwaith, a'r amgylchedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Mae natur gwmpasog mannau agored yn golygu y gall effeithio ar yr agweddau hyn, ond mae un flaenoriaeth o berthnasedd penodol yn cynnwys:

“Cydnabod anghenion ein cymunedau amrywiol, gan sicrhau bod y cartrefi cywir yn cael eu hadeiladu yn y lleoedd cywir...”

Cyflwynwyd y datganiad o weledigaeth hwn i'r Cabinet gan yr Arweinydd, a llywiodd y Strategaeth Gorfforaethol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Cyngor Sir Caerfyrddin: Strategaeth Gorfforaethol 2022–2027

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi blaenoriaethau a dyheadau strategol Cyngor Sir Caerfyrddin, ac yn amlinellu'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn gwireddu ei weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf. Wrth wraidd y dull hwn mae integreiddio a chydweithio ar draws y Cyngor a chyda'n rhanddeiliaid, a byddwn yn canolbwyntio wrth symud ymlaen ar *Datblygu Sir Gâr Gyda'n gilydd: Un Cyngor; Un Weledigaeth; Un Llais*.

Mae hefyd yn nodi amcanion llesiant y Cyngor. Mae'r rhai y bernir eu bod yn arwyddocaol i fannau agored yn cael eu trafod yn unigol isod, yn gyntaf yn sôn am pam mae'r amcan hwn yn bwysig yn lleol, a'r canlyniadau y gobeithir eu cael y mae gan ddarpariaeth mannau agored y gallu i effeithio arnynt:

1. *Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)*

Mae rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd yn ystod cwrs bywyd. Gosodir y sylfeini ar gyfer bron pob agwedd ar ddatblygiad dynol – corfforol, deallusol ac emosiynol – yn ystod plentyndod cynnar. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, gan ddechrau yn y

groth, yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant – o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd (1)²⁶.

Sir Gaerfyrddin yw'r 5ed sir waethaf yng Nghymru o ran lefelau gordewdra ymhlith plant. Yn 2018/19, roedd bron i draean o blant rhwng 4 i 5 oed dros bwysau neu'n ordew (6).

Mae plant yn dysgu trwy chwarae ac yn datblygu sgiliau hanfodol – mae digonolrwydd chwarae yn hanfodol (8).

Mae pryder ynghylch iechyd meddwl yn fater allweddol a godwyd gan bobl ifanc (14).

Canlyniad: Mae teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth iechyd a llesiant yn eu hardaloedd lleol.

2. Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)

Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae dros draean (35.6%) o'n haelwydydd yn parhau i fyw mewn tlodi, sef lefel sydd wedi cynyddu 0.9% dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyfateb i tua 29,500 o aelwydydd, sy'n awgrymu bod bron i 600 o aelwydydd ychwanegol wedi llithro o dan y trothwy incwm dros y deng mlynedd diwethaf. Roedd cyfran fawr o ymatebwyr i ymgynghoriad diweddar yn cytuno bod tlodi yn broblem yn eu hardaloedd priodol (1).

Yr her yw atal afiechyd, mae byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin, ac mae llawer o'r gwasanaethau a'r ymyriadau ataliol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol (4).

Mae salwch meddwl yn rhywbeth y bydd un o bob pedwar oedolyn yn ei brofi yn ystod eu hoes. Ar y cyfan, roedd trigolion yn cytuno'n gryf ei bod yn bwysig ystyried cefnogi iechyd meddwl a lles pobl (6).

Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu iechyd a llesiant, gan ddiwallu anghenion unigol y trigolion a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt. Mae'n dda i'r economi hefyd – er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad hwylus i'w gweithlu a bydd tai o safon yn helpu i ddenu'r garfan hon. Ar y cyfan, roedd y trigolion lleol yn cytuno'n gryf ei bod yn bwysig bod pobl leol yn cael eu cefnogi i brynu cartrefi yn lleol (8)²⁷.

Canlyniad: Gwasanaethau hygyrch, cynhwysol a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden. Argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da ac ynni-efeithlon yn y Sir. Cydnabod a cheisio cyfyngu ar y rhwystrau

²⁶ [Mae astudiaethau wedi dangos](#) bod mannau agored yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl, a manteision i'r system imiwnedd ac i fetaboledd, canlyniadau beichiogrwydd gwell, gostyngiad mewn clefyd cardiofasgwlaidd, a llai o farwolaethau cynamserol.

²⁷ Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn un o lofnodwyr y [Siarter Creu Lleoedd Cymru](#) sy'n hyrwyddo egwyddorion sy'n canolbwyntio ar Bobl a Chymuned, Symudiad, Parth Cyhoeddus, Lleoliad, Cymysgedd o ran defnydd, a Hunaniaeth fel agweddau sy'n cefnogi datblygiad cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel. Mae gan fannau agored rôl gynhenid o fewn y ffactorau hyn.

anghymesur y mae grwpiau ymylol yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau a chymorth sy'n caniatáu iddynt fyw a heneiddio'n dda.

3. Gwneud ein cymunedau a'n hamgylchedd yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)

Mae mynediad at wasanaethau yn her mewn rhai achosion oherwydd dwysedd poblogaeth is a gwledigrwydd. Mae pellteroedd teithio mawr yn cynyddu'r amser a'r gost ar gyfer cyrchu gwasanaethau, a all llesteirio gallu unigolyn i deimlo'n gysylltiedig â'i gymunedau, gwaethygu unigedd a lleihau teimladau o falchder a pherthyn lleol. Mae hyn yn berthnasol iawn i grwpiau sydd ar y cyrion. Mae canfyddiadau arolwg diweddar o drigolion Sir Gaerfyrddin yn amlygu, er bod cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y gallant gael mynediad hawdd at wasanaethau, roedd cyfran fawr yn anghytuno (6).

Mae ardaloedd yn y sir yn agored i effeithiau negyddol yr argyfwng hinsawdd, yn enwedig llifogydd. Mae ychydig dros 15,000 o eiddo (preswyl yn bennaf) yn y sir ar hyn o bryd mewn rhyw lefel o berygl llifogydd. Mae 3,151 o'r tai hyn mewn perygl mawr. Bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu nifer y tai, seilwaith a gwasanaethau allweddol sydd mewn perygl o lifogydd. Bydd lleoedd nad ydynt yn gorlifo ar hyn o bryd yn troi'n rhai lle mae perygl o lifogydd a bydd y rhai sydd eisoes mewn perygl o lifogydd o dan fwy o risg. Amlygwyd bygythiadau'r argyfyngau hinsawdd a natur gan drigolion fel pryder. Cyfeiriwyd yn arbennig gan rai at y bygythiadau a achosir gan lifogydd (8)²⁸.

Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol yn dda ar gyfer llesiant, gydag ecosystemau iach a gweithredol, sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Mae cynllunio yn rhan annatod o wireddu gweledigaeth y Cyngor (9)²⁹.

Dyfynnu eto. Mae'r ffigur hwn yn ostyngiad o 5,210 ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, sy'n cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 4.0. Dyma'r gostyngiad mwyaf fel pwynt canran o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Yn 2001 a 2011, Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, gydag 84,196 o siaradwyr Cymraeg yn 2001 a 78,048 o siaradwyr Cymraeg yn 2011. Mae'r ffigurau newydd hyn yn golygu bod gan y sir bellach yr ail nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o holl awdurdodau lleol Cymru a'r pedwerydd uchaf o ran y ganran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r sir yn parhau i fod yn gadarnle strategol allweddol ar gyfer dyfodol y Gymraeg ac mae manteision cymdeithasol ac economaidd dwyieithrwydd yn cael eu cydnabod yn eang. Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy'r arolwg trigolion yn dangos bod ymatebwyr yn gyffredinol yn cytuno ei bod yn bwysig bod y Gymraeg yn cael ei chynnal a'i diogelu. Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy'r

²⁸ Mae mannau agored o safon yn amlswyddogaethol, ac yn ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd fel systemau draenio cynaliadwy.

²⁹ Bydd gan fannau agored gwyrdd rôl arwyddocaol yn hyn o beth. Yn ogystal, mae'r gofyniad i ddatblygwyr ddarparu buddion net ar gyfer bioamrywiaeth ([yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru](#)) a chael eu hintegreiddio i'r gofyniad am ddarpariaeth mannau agored.

arolwg trigolion yn dangos bod ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan ei bod yn bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hamddiffyn (11)³⁰.

Mae cyfraddau troseddu yn cynyddu mewn rhai ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin, fodd bynnag mae'r sir yn parhau i fod ymhlith yr ardaloedd mwyaf diogel yn y DU, ac mae Sir Gaerfyrddin yn y 13eg safle mwyaf diogel o'r 22 sir yng Nghymru gyda chyfradd o 83.6 o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Ar y cyfan, roedd cytundeb bod trigolion yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau (12)³¹.

Canlyniadau: Pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i fyw bywydau egnïol ac iach trwy fynediad at wasanaethau a darpariaeth sy'n addas i'r diben. Gwellu datblygiadau presennol ac archwilio datblygiadau newydd i gyfyngu ar effeithiau llifogydd a bygythiadau amgylcheddol eraill sy'n effeithio ar ein trigolion a defnyddwyr gwasanaeth. Cynnal cyfraddau troseddu isel a pharhau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r cyfraddau cynyddol sy'n amlwg mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mwy o hyder a defnydd o'r Gymraeg fel iaith lewyrchus.

Yn ogystal, er nad yw wedi'i gynnwys uchod, mae mannau agored yn ymwneud yn llwyr â'r holl flaenoriaethau thematig a osodwyd o dan bob un o'r amcanion llesiant a drafodwyd.

Datganiad Ardal CNC (2020)

Cynhyrchwyd fel ymateb cydweithredol i'r Polisi Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal honno, cyfleoedd i gwrdd â'r heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Y themâu ar gyfer y datganiad ardal forol yw meithrin cydnherthedd ecosystemau morol; atebion sy'n seiliedig ar natur ac addasu ar yr arfordir; a gwneud y gorau o gynllunio morol. Mae'r themâu ar gyfer De-orllewin Cymru yn cael eu hadolygu'n unigol isod:

- [Lleihau anghydraddoldebau iechyd](#).

Mae CNC wedi nodi tri phwnc allweddol sy'n ymwneud â'r thema hon:

1. Mannau gwyrdd agored a seilwaith gwyrdd trefol

“Rydym yn gwybod bod cysylltiad uniongyrchol rhwng iechyd da pobl a chael ein hamgylchynu gan yr amgylchedd naturiol. Cyfeirir yn aml at ein mannau gwyrdd a glas, gan gynnwys parciau, mannau agored, meysydd chwarae, coetiroedd, gwlyptiroedd, ymylon ffyrdd, afonydd, camlesi, rhandiroedd a gerddi preifat, fel seilwaith gwyrdd. Mae'r

³⁰ Mae treftadaeth, hunaniaeth a diwylliant wedi'u cysylltu'n gynhenid â mannau agored. Bydd darpariaethau sy'n arwain at annog cymdeithasu, adloniant a hamdden yn cefnogi creu diwylliant bywiog a chyfleoedd i drosglwyddo iaith.

³¹ Dangoswyd bod mannau agored yn arwain at [gyfraddau troseddu is](#).

rhwydwaith byw hwn nid yn unig yn diffinio a ffurfio cymeriad lle, ond mae hefyd yn cyflenwi buddion lluosog ar gyfer bioamrywiaeth, iechyd a llesiant.”

“Trwy gael rhwydwaith byw gwych mewn ardal drefol, gall helpu i gysylltu poblogaethau bywyd gwyllt a chynefinoedd tameidiog, gan gysylltu ardaloedd trefol â'u hamgylcheddau cyfagos. Mewn geiriau eraill, mae seilwaith gwyrdd yn dda ar gyfer pobl ac ar gyfer natur.”

“Mae ardaloedd incwm isel yn gysylltiedig â thai ac addysg o ansawdd is, deiet gwael, a llai o fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da. Gall byw ger ardaloedd sydd â mannau gwyrdd (fel parciau neu goetiroedd) wella iechyd, waeth beth fo'r dosbarth cymdeithasol.”

“Mae coed trefol yn elfen bwysig o seilwaith gwyrdd. Mae gan rai trefi yn Ne-orllewin Cymru lefelau isel nodedig o orchudd coed (gan gynnwys Port Talbot, sydd â gorchudd coed o 7.5%, a Gorseinon, Hwlfordd, Caerfyrddin a Llanelli, sydd â gorchudd coed o tua 11%). Yn ogystal, nid yw'r gorchudd coed wedi'i ddosbarthu'n gyfartal yn yr ardaloedd hyn, gydag ardaloedd difreintiedig yn dueddol o gael llai o orchudd coed.”

2. Gweithgareddau hamdden a'r defnydd o deithio llesol gwyrdd a glas

“Mae'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) yn annog mwy o bobl i deithio'n rheolaidd ar droed neu ar feic. Gall buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol arwain at fuddion economaidd sylweddol. Gall adeiladu llwybrau teithio llesol gwyrdd arwain at fuddion lluosog ar gyfer pobl a bioamrywiaeth.”

“Mae'r gwaith ar y Datganiad Ardal hyd yn hyn wedi nodi bod rhoi mynediad at llwybrau hamdden i bobl, yn ogystal â llwybrau teithio gwyrdd/glas, yn flaenoriaeth bwysig. Mae hyn yn rhywbeth y nodwyd yn ogystal trwy ein gwaith ymgysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau lleol (e.e. Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro a'r cynllun rheoli drafft ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) ar gyfer De-orllewin Cymru mewn lleoliadau gwledig a threfol.”

“Mae gweithgareddau hamdden awyr agored yn darparu buddion lluosog ar gyfer pobl, yr amgylchedd a'r economi drwy annog ymddygiadau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, drwy gyfrannu at ganlyniadau iechyd, a thrwy dwristiaeth. Mae gan Dde-orllewin Cymru lawer i gynnig o ran cefn gwlad sy'n hygyrch yn lleol a physgodfeydd, llwybrau beicio mynydd a thraethau ymdrochi sy'n enwog yn rhyngwladol.”

“O ystyried y ddarpariaeth hon, hoffem weithio ar y cyd i gefnogi gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur a gwneud yr awyr agored yn hygyrch i bawb.”

3. Diogelu'r amgylchedd at gyfer ein llesiant

“Mae sicrhau bod ein hadnoddau naturiol o ansawdd uchel yn allweddol i'n llesiant. O'r aer rydym yn ei anadlu a'r dyfroedd rydym yn nofio ynddynt, i reoli perygl yr afonydd a'r arfordir rydym yn byw wrth eu hymyl, gall atebion sy'n seiliedig ar natur gyflawni buddion lluosog ar gyfer pobl a'r amgylchedd. Ceir cysylltiad cryf rhwng y pwnc hwn a'n thema rheoli tir. Mae'r

parth arfordirol o amgylch De-orllewin Cymru yn bwysig iawn ar gyfer cefnogi twristiaeth a diwydiant yn ogystal â darparu buddion iechyd dynol. O fewn yr ardal hon, mae gennym 40 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig (33 â statws ‘Ardderchog’, chwech â statws ‘Da’ ac un â statws ‘Digonol’) y mae’r diwydiant twristiaeth yn dibynnu arnynt ar gyfer ymwelwyr.”

- Sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy

Dyma “heriau a chyfleoedd... y Polisi Adnoddau Naturiol y mae’r thema hon yn mynd i’r afael â nhw:

- *Sut rydym yn cynnal gallu cynhyrchiol ein tir gyda gwella ansawdd y pridd a bioddiogelwch yn flaenoriaeth*
- *Gwella ansawdd ein dŵr a’r cyflenwad ohono*
- *Cynyddu storffeydd carbon mewn priddoedd a biomas (deunydd planhigion neu anifeiliaid) a sicrhau bod ardaloedd yn cael eu diogelu er mwyn gwneud hynny*
- *Gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth*
- *Lleihau’r perygl o lifogydd*
- *Cefnogi cyflogaeth sicr a sefydlog*

Mae gan fannau agored, yn enwedig Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch, y gallu i fynd i’r afael â’r heriau hyn.

- Gwrthdroi’r dirywiad i fioamrywiaeth a’i hadfer

Mae’r “heriau a chyfleoedd... y Polisi Adnoddau Naturiol y mae’r thema hon yn mynd i’r afael â nhw yn cynnwys:

- *Gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac adfer ecosystemau gwydn*
- *Ymateb i fygythiad y newid yn yr hinsawdd a mabwysiadu dulliau rheoli ar lefel ecosystem i helpu*
- *Lleihau llygredd sŵn a lefel y llygredd yn ein haer a gwella ansawdd yr aer*
- *Gwella ansawdd ein dŵr a sicrhau cyflenwad digonol ohono.*

Unwaith eto, mae gan fannau agored (yn enwedig Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch) y gallu i fynd i’r afael â’r heriau hyn.

- Lliniaru ac Addasu i Hinsawdd sy’n Newid (Thema Drawsbynciol).

“Wrth ymateb i’r thema hon, rhaid i ni gydnabod y cysylltiadau hyn ac anelu at ddarparu buddion lluosog sy’n helpu i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, mae cynyddu gorchudd coetir yn agos at gymuned nid yn unig yn cynyddu bioamrywiaeth, iechyd cymdeithasol a llesiant, ond mae hefyd yn galluogi coed i weithredu fel ‘dalfeydd carbon’, gan amsugno dŵr gormodol a lleihau’r hyn a elwir yn ‘effaith ynys wres drefol’, sef yr hyn sy’n digwydd pan fydd ardal drefol yn troi’n gynhesach o lawer nag ardaloedd amgylchynol oherwydd gweithgareddau dynol.

3.2. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)

Yn dilyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, roedd yn ofynnol i bob awdurdod priffyrdd lleol gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer eu holl ardal. Roedd y Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i adolygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy bob deng mlynedd.

Bwriedir i gynlluniau gwella fod yn brif fodd i awdurdodau priffyrdd lleol nodi'r newidiadau sydd i'w gwneud o ran rheoli a gwella eu rhwydwaith hawliau tramwy lleol er mwyn gwneud gwell darpariaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, marchogion a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i gael mynediad i gefn gwlad.

Gall hawliau tramwy cyhoeddus ddarparu cysylltiadau gwerthfawr o fewn y seilwaith trafnidiaeth lleol, gan ddarparu cyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy rhwng cymunedau, mannau gwaith ac amwynderau lleol. Maent hefyd yn rhan hanfodol o dwristiaeth wledig ac mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella a chynnal iechyd a llesiant ac wrth gyflawni'r amcanion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae'r holl hawliau tramwy cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin (h.y. llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd) yn cael eu cofnodi ar y map diffiniol a'r datganiad diffiniol a gedwir yn y swyddfa Mynediad i Gefn Gwlad. Mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) yn darparu adnodd adloniadol gwerthfawr i'w ddefnyddio gan drigolion ac ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin fel ei gilydd. Maent yn darparu mynediad heb ei ail i gefn gwlad ac yn cynnig dulliau cynaliadwy o deithio trwy alluogi defnydd diogel o ddulliau teithio amgen i gerbydau modur.

Mae Tabl 3 yn rhoi manylion am nifer a hyd y llwybrau a gofnodwyd yn Sir Gaerfyrddin, sef y trydydd rhwydwaith awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

Tabl 3: Llwybrau a Hyd y Rhwydwaith (Mawrth 2018)

Math o Lwybr	Nifer y Llwybrau	Hyd (km)
Llwybr troed	2,951	2,198.0
Llwybr ceffylau	136	164.8
Cilffordd sy'n Agored i Bob Traffig	88	77.9
Cilffordd Gyfyngedig	1	1.6
Cyfanswm	316	2442.4

Mae cyfrifoldebau statudol Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn cynnwys y canlynol:

- Darparu arwyddion a chyfeirbwyntiau ar gyfer llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd;
- Diweddarau'r map a'r datganiad diffiniol, sef cofnod cyfreithiol hawliau tramwy cyhoeddus;
- Cynnal arwyneb hawliau tramwy cyhoeddus i safon sy'n briodol at y diben y'i defnyddir ar ei gyfer;
- Cynnal pontydd dros gyrsiau afonydd naturiol;

- Cadw'r hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael drwy sicrhau bod partneriaid eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae cyfleoedd mynediad i gefn gwlad a gynigir gan y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn cyfrannu at fentrau iechyd a llesiant a gwella ansawdd bywyd i drigolion. Gan eu bod yn rhydd i gael mynediad iddynt a'u mwynhau, gallant hefyd hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r rhwydwaith hefyd yn chwarae rhan yn natblygiad economaidd Sir Gaerfyrddin trwy wariant uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y sir. Mae gwariant ar wasanaethau twristiaeth, offer, lletygarwch, teithio, parcio, ac unrhyw nifer o wasanaethau cymorth eraill i gyd yn cyfrannu at yr economi leol.

Yn ogystal â'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, mae cyfleoedd gwerthfawr eraill i gael mynediad i gefn gwlad megis:

- Tir Mynediad Agored a ddynodwyd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, sy'n cynnwys cefn gwlad agored megis mynyddoedd a rhostir a 'thir comin cofrestredig'. Mae tua 7,600 hectar (ha.) o Dir Mynediad Agored lle mae gan y cyhoedd yr hawl i grwydro ar droed. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd o 'dir mynediad agored pwrpasol' lle mae tîffeddiannwyr yn caniatáu mynediad agored am ddim. Un enghraifft yw Llywodraeth Cymru sy'n caniatáu mynediad agored am ddim i'w hystâd goetir ac, yn ogystal, yn cynnig cyfleoedd mynediad caniatol ar gyfer beicio mynydd, marchogaeth a gyrru car a cheffyl;
- Rhwydwaith Ffyrdd Diddosbarth o ryw 170 o Ffyrdd Diddosbarth (a elwir yn aml yn "Lonydd Gwyrdd") gyda hawliau cerbydol, sy'n gwneud cyfanswm o ryw 150 cilomedr o lwybrau heb wyneb i raddau helaeth, sy'n chwarae rhan arwyddocaol yn y ddarpariaeth o lwybrau adloniant, ar gyfer pob defnyddiwr;
- Datblygodd llwybrau beicio mewn ymateb i'r farchnad feicio sy'n prysur dyfu yng Nghymru. Mae Sir Gaerfyrddin wedi gwneud datblygiadau sylweddol o ran gwella'r cyfleoedd i feicwyr gyda'r uchelgais i ddod yn 'ganolbwynt beicio Cymru'. Mae creu nifer o lwybrau beicio yn y Sir sy'n cynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Llwybrau Diogel yn y Gymuned hefyd wedi creu cyfleoedd i ddefnyddwyr eraill megis cerddwyr, defnyddwyr llai abl ac anabl ac weithiau marchogion. O dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i nodi a gwella llwybrau ar gyfer beicwyr a cherddwyr i wneud teithio llesol yr opsiwn mwyaf deniadol ar gyfer teithiau byrrach ac i gysylltu safleoedd a chymunedau allweddol;
- Safleoedd Cyngor Sir Gaerfyrddin sy'n eiddo i'r Awdurdod yn bennaf ac yn cael eu rheoli gan yr Awdurdod sy'n darparu mynediad adloniadol gwerthfawr, yn aml i grwpiau defnyddwyr â darpariaeth waeth yng nghefn gwlad ehangach, er enghraifft pobl ag anableddau corfforol a marchogion;
- Mynediad Arfordirol i'r blaendraeth lle mae hawliau mynediad cyhoeddus yn bodoli. Mae traethau fel Pen-bre, Marros a Phentywyn yn hygyrch ar gyfer cerdded ac yn boblogaidd iawn gan farchogion. Llwybr Arfordir Cymru a gydnabyddir yn genedlaethol, llwybr llinellol o amgylch arfordir Cymru a sefydlwyd rhwng 2007 a 2012 sy'n darparu mynediad heb ei ail i arfordir Sir Gaerfyrddin ar droed, drwy amrywiaeth o gynefinoedd a thirweddau arfordirol;
- Mynediad Caniatol a ddarperir mewn sawl ffordd, megis trwy Gynlluniau Amaeth-amgylcheddol a ariennir gan Glastir, yn breifat gan dirfeddiannwyr unigol neu dros eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn bennaf ar gyfer cerddwyr;

- Llwybrau Coll yw'r llwybrau sy'n cario hawliau cyhoeddus drostynt a oedd yn bodoli cyn 1949 ond nad ydynt wedi'u cofnodi ar hyn o bryd ar y map a'r datganiad diffiniol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

3.3. Arolwg Cenedlaethol Cymru (Hamdden Awyr Agored)

Gan ddisodli Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, mae adran Hamdden Awyr Agored Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu gwybodaeth am gyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau awyr agored, o ddringo i gynnal picnic, a gynhelir ym mhob ardal, boed yn barc lleol, y mynyddoedd neu'r môr. Mae nifer o ganlyniadau wedi'u tynnu isod o'r [Gwylwr Canlyniadau](#) a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2022. Nid yw'r rhain yn gyfyngedig i'r holl ganlyniadau hynny mewn perthynas â chwaraeon a hamdden awyr agored.

O ran hamdden awyr agored, mae Tabl 4 yn dangos bod y rhan fwyaf o blant yn treulio amser yn yr awyr agored sawl gwaith yr wythnos. Fodd bynnag, canfuwyd nad oedd 11% wedi treulio amser yn yr awyr agored yn ystod y mis diwethaf.

Tabl 4: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 Maint sampl 2,500.

Pa mor aml mae'r plentyn wedi treulio amser mewn man gwyrdd neu ardd yn ystod y pedair wythnos diwethaf	%
Mwy nag unwaith y dydd	19
Pob dydd	23
Sawl gwaith yr wythnos	31
Unwaith yr wythnos	10
Unwaith neu ddwywaith yn ystod y pedair wythnos diwethaf	6
Dim o gwbl	11

Ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored cyffredinol (o bob oed), mae Tabl 5 yn dangos bod y rhai sy'n ymgymryd â gweithgareddau awyr agored yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ymweld ag ystod eang o ardaloedd.

Tabl 5: 'Pa un o'r canlynol, os o gwbl, sy'n disgrifio orau'r prif fath o le y gwnaethoch ymweld ag ef ar eich ymweliad diweddaraf â'r awyr agored?' Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi gwneud gweithgareddau awyr agored o leiaf unwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 Maint sampl 4,150.

Lle ymwelwyd	%
Parc lleol neu fan lleol arall	25
Traeth, môr neu arfordir	19
Coetir neu goedwig	17
Palmant / trac ymyl ffordd	14
Bryniau, mynyddoedd neu weundir	7

Afon, llyn neu gamlas	6
Tir amaeth	5
Arall (nodwch)	4
Dim o'r rhain	1

Yn genedlaethol, ymddengys mai anabledd corfforol yw'r prif reswm pam nad yw rhywun wedi ymweld â'r awyr agored yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni allai 5% o bobl wneud hynny oherwydd rhesymau ariannol (Tabl 6).

Tabl 6: Cwestiwn: 'Am ba resymau, os o gwbl, nad ydych wedi ymweld â'r awyr agored o gwbl yn ystod y 12 mis diwethaf?'. Opsiynau heb unrhyw ymatebion wedi'u heithrio. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19. Maint sampl 1,150.

Pam nad ydych wedi ymweld â'r awyr agored yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?	%
Anabledd corfforol	31
Rheswm iechyd arall	25
Bob amser yn rhy brysur / diffyg amser	24
Henaint	20
Tywydd gwael	6
Dim digon o arian / methu ei fforddio	5
Neb i fynd gyda nhw	2

3.4. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'n ystadegyn cenedlaethol a gynhyrchwyd gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn gosod ardaloedd o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Nid yw'n darparu mesur o lefel yr amddifadedd mewn ardal, ond yn hytrach a yw ardal yn ddifreintiedig o gymharu â holl ardaloedd eraill Cymru. Mae [Canllawiau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#) yn darparu mwy o wybodaeth am ddefnydd a dehongliad o'r canlyniadau.

Ar hyn o bryd mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys wyth parth amddifadedd gwahanol. Mae'r rhai isod yn ystyried yr amgylchedd ffisegol sy'n mesur

ffactorau a allai effeithio ar lesiant neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw mewn ardal benodol gan gynnwys agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch³².

Yn 2019, mae awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yn cynnwys 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Isel (5.9% o gyfanswm 1909 yng Nghymru). O'r 20% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Isel mwyaf difreintiedig yng Nghymru o fewn y parth Amgylchedd Ffisegol, mae 24 yn Sir Gaerfyrddin sy'n cyfrif am 21.4% o'r rhai yn yr awdurdod lleol ac 1.3% o'r rhai yng Nghymru (Ffigur 3).



Ffigur 3. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Isel Amddifadedd yn Sir Gaerfyrddin fel y'u haseswyd yn erbyn dangosyddion o fewn yr amgylchedd ffisegol. Mae Hengoed 2 (01001925), Llanismel 2 (W01000723), Llandybïe 1 (W01000680), a Llandybïe 2 (W01000681) wedi'u rhestru'n ddilyniannol fel y rhai mwyaf difreintiedig yn yr awdurdod lleol.

3.5. Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Rhoddir y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar yr Awdurdod Lleol gan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010³³. Cyflwynir mewn dwy ran...

- mae'r rhan 1^{af} yn dweud bod rhaid i awdurdodau lleol asesu p'un a yw eu hardal leol yn cynnig digon o gyfleoedd i blant chwarae; ac
- mae'r 2^{il} ran yn dweud bod rhaid i awdurdodau lleol sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae yn eu hardal, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ac yn ymarferol.

Ceir y canlynol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae³⁴ a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.

³² Nid yw'r asesiad yn cynnwys mynwentydd a chyrsiau golff. Ni roddwyd unrhyw arwydd i awgrymu bod mynediad cyfyngedig (rhwystrau ariannol) hefyd yn cael eu hystyried [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(Malc\) 2019: adroddiad technegol \(llyw.cymru\)](#).

³³ Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (legislation.gov.uk).

³⁴ Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin (llyw.cymru).

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc sy'n byw yn y Sir yn cael mynediad i brofiadau chwarae cyffrous, ysgogol a chreadigol y mae arnynt eu hangen a'u heisiau. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid i ddarparu ystod o ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth sy'n herio plant a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod bod cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel, sy'n hygyrch i bawb, yn cynorthwyo cydraddoldeb ac yn helpu i liniaru effeithiau negyddol tlodi a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod.

Mae chwarae yn rhan hanfodol o fywydau plant a phobl ifanc; mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod dewis yn rhan sylfaenol o chwarae. Dylai plant a phobl ifanc allu dewis sut i chwarae a pham eu bod eisiau chwarae. Rydym yn deall bod chwarae'n rhan annatod o iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol plant, a'i fod o fudd i'n holl blant, teuluoedd, a chymunedau.

Mae chwarae'n rhoi cyfle i blant archwilio eu byd, pwy ydyn nhw a'u perthnasoedd. Mae chwarae yn galluogi plant i ddatblygu sgiliau gan gynnwys cymdeithasu, datrys problemau, datblygiad iaith, creadigrwydd, cyfathrebu, trafod a gwrando. Mae'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi mai amgylchedd chwarae cyfoethog yw un lle mae gan blant a phobl ifanc y dewis ynghylch sut i chwarae, a'r dewis i ddyfeisio ac ymestyn chwarae. Gellir darparu'r cyfle i chwarae bron yn unrhyw le ar unrhyw adeg bron. Gall plant chwarae dan do neu yn yr awyr agored, mewn parciau, mannau chwarae, mannau gwyrdd, canolfannau teulu, mannau chwarae meddal neu glybiau ieuenctid. Gall plant Sir Gaerfyrddin chwarae yn eu cartrefi, lleoliadau gofal plant neu ysgolion. Mae cyfoeth o fannau diogel iddyn nhw chwarae ynddynt.

Mae darpariaeth chwarae o safon yn darparu amgylchedd cyfoethog ac ysgogol i blant a phobl ifanc sy'n ddiogel ond yn llawn her, lle gallant gael hwyl, archwilio a dysgu. Mae plant a phobl ifanc o wahanol oeddrannau, galluoedd a chyfnodau datblygiad eisiau ac angen gwahanol fathau o chwarae. Mae darparu cyfleoedd chwarae priodol yn golygu ystyried ystod eang o anghenion a datblygu ystod eang o ddarpariaeth chwarae cynhwysol.

Mae proses yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gyfle i Gyngor Sir Caerfyrddin dathlu a chydabod pwysigrwydd chwarae. Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae sefydledig yn parhau i gyfarfod bob tymor i gyflawni'r camau gweithredu a pharhau i sicrhau bod chwarae plant a phobl ifanc yn cael ei flaenoriaethu.

Fel rhan o'r asesiad, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ymhlith nifer o randdeiliaid gan gynnwys rhieni/gofalwyr, a chynghorau tref a chymuned. Cwblhawyd yr arolwg ar gyfer plant ysgolion cynradd gan 294 o blant o bob rhan o Sir Gaerfyrddin. Dywedodd 60% o'r plant a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn mynd allan i chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau bron bob dydd. Gyda 59% yn dweud mai prin iawn yw'r amser sydd ganddyn nhw i chwarae, mae 20% yn dweud bod ganddyn nhw lawer o amser. Y lle mwyaf poblogaidd i chwarae yw 'yn fy nhŷ neu dŷ ffrind' (72%) ac yna 'mewn man chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer arall i chwarae arny'n nhw' (46%) ac 'yn fy ngardd neu yng ngardd ffrind' (28%). Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Dywed 29% o blant na allant chwarae yn yr holl fannau y maent yn dymuno chwarae ynddynt, a'r rhwystrau mwyaf yw 'nid yw'n ddiogel' (51%) a 'nid yw fy rhiant / gofalwr yn gadael i mi' (43%). Fodd bynnag, dywed 45% o blant eu bod bob amser yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae neu gymdeithasu gyda ffrindiau.
- Pan ofynnwyd iddynt 'sut mae oedolion pan fyddwch yn chwarae neu'n cymdeithasu', dywedodd 58% fod 'y rhan fwyaf o oedolion yn wych ac yn hapus gyda phlant yn chwarae allan'. Dim ond 3% a ddywedodd fod 'y rhan fwyaf o oedolion yn flin ac yn casáu plant yn chwarae allan.'
- Roedd yn rhaniad hanner a hanner, bron â bod, gyda 49% o blant yn dweud eu bod yn cael chwarae allan ar eu pen eu hunain. Mae 81% yn cael chwarae allan gyda'u ffrindiau. Mae 60% o blant yn dibynnu ar oedolyn â char i fynd â nhw i chwarae, ac mae 81% o blant yn dibynnu ar oedolyn â char i'w hebrwng i'r ysgol.
- Dywedodd 46% fod cyfleoedd chwarae cyffredinol yn eu cymuned 'yn wych ac na ellid eu gwella'n fawr' gyda dim ond 4% yn dweud 'mae'n dda i ddim.'
- Mae 97% o'r rhai sy'n mynd i'r ysgol yn chwarae ar iard yr ysgol, gydag 84% yn dweud mai tywydd gwael yw'r peth sy'n eu hatal fwyaf rhag chwarae yn yr ysgol ac yna gormod o waith ysgol (31%).
- Buom hefyd yn siarad â 23 o blant yn yr ysgol, yn ystod digwyddiadau chwarae *People Speak Up* ac yn ystod sesiwn i blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant hyn nad oedd digon iddynt ei wneud yn eu hardal leol a dywedasant y byddai'n well ganddynt chwarae gartref neu gyda ffrindiau. Yr eithriad i hyn yw plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn rheolaidd. Roedd rhwystrau i chwarae yn cynnwys pryderon rhieni am ddiogelwch a'r angen i riant/gofalwr fod gyda nhw i gael mynediad i chwarae. Mynegwyd pryder ganddynt hefyd am deimlo'n ddiogel mewn mannau o ganlyniad i ymddygiad oedolion (yfed mewn parciau a mannau chwarae) a/neu blant hŷn, er enghraifft pobl ifanc yn eu harddegau yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus mewn mannau chwarae.

Fel rhan o'r un ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd arolwg ar wahân ymhlith plant ysgolion uwchradd. Cwblhawyd yr arolwg gan 270 o bobl ifanc (rhwng 12 a 18 oed). Mae eu hymatebion yn dangos bod yr amser y mae plant yn ei dreulio yn chwarae neu'n cymdeithasu gyda ffrindiau yn lleihau dros amser, gan fod 44% o bobl ifanc yn treulio amser gyda ffrindiau bron bob dydd o gymharu â 60% o blant. Ar gyfer y grŵp oedran hwn y gweithgaredd mwyaf poblogaidd yw 'sgwrsio a bod gyda ffrindiau' (64%), yna 'mynd i'r sinema' (38%) a 'chrwydo' (34%). Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd 86% o'r grŵp hwn eu bod yn teimlo'n 'hapus' wrth dreulio amser gyda ffrindiau, ac yna 'yn llawn cyffro' (43%), 'yn rhydd' (42%) ac 'yn actif' (40%). Y lle mwyaf poblogaidd i'r grŵp oedran hwn gymdeithasu yw 'ardal laswelltog leol neu gae' (37%) ac yna 'rhywle arall' (33%). Dewisodd y rhan fwyaf o bobl yn y grŵp hwn eu cartref eu hunain a'r 'traeth / ar lan y môr' (29%). Wrth sôn am eu cymuned, dywedodd 21% 'Ni allaf, neu prin iawn dwi'n gallu gwneud yr hyn yr wyf am ei wneud.'
- Dywedodd 84% o bobl ifanc wrthym eu bod yn cymdeithasu â ffrindiau ar iard yr ysgol. Tywydd gwael (59%) yw'r rhwystr mwyaf i dreulio amser gyda ffrindiau yn yr

ysgol ac yna 'gormod o waith ysgol' (32%) a 'does dim lle i ni chwarae / cymdeithasu' (22%).

- Dywed 57% o bobl ifanc nad oes lleoedd y mae arnynt eu hangen ac y maent yn dymuno eu cael i gymdeithasu â ffrindiau yn eu cymuned. Roedd tri rhwystr yn gyfartal fel y rhwystrau mwyaf arwyddocaol i gymdeithasu; 'does dim byd i'w wneud yno' (38%), 'dydw i ddim yn mynd allan i chwarae nac i gymdeithasu gan ei bod hi'n rhy dywyll' (38%) a 'pandemig COVID-19' (38%). Dywedodd 54% o bobl ifanc fod COVID-19 wedi effeithio ar sut maen nhw'n chwarae a chymdeithasu.
- Mae 62% eisiau cymdeithasu mwy, ac i wneud hyn mae pobl ifanc eisiau 'trafnidiaeth i'w helpu i gyrraedd yno' (59%), 'gofyn i berchnogion cŵn godi baw eu cŵn' (22%) a 'helpu fy rhieni i ddeall ei bod hi'n iawn cymdeithasu.'

Yn dilyn y broses asesu, nododd Adroddiad Digonolrwydd Chwarae 2022 sawl bwlch yn y ddarpariaeth. Ceir crynodeb llawn ar dudalen 88 yn yr Adroddiad, ond mae'r diffygion hynny a bennwyd o ran cwrpas daearyddol isod:

- Nid yw ardaloedd gwledig yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, yn rhannol oherwydd bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd ag angen fel y'i diffinnir gan boblogaeth ac amddifadedd.
- Nid oes gan naw ward unrhyw fannau chwarae awyr agored dynodedig: Gogledd Tref Caerfyrddin, De Tref Caerfyrddin, Cynwyl Gaeo, Hengoed, Llanboidy, Llanfihangel Aberbythych, Llangeler, Maenordeilo a Salem a Thre-lech.
- Nid oes gan 25 o wardiau unrhyw ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth: Abergwili, Bigyn, Bynea, Cil-y-cwm, Cynwyl Elfed, Cynwyl Gaeo, Dafen, Elli, Gors-las, Hengoed, Lacharn, Llanboidy, Llanddarog, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanfihangel Aberbythych, Llangadog, Llangyndeyrn, Llan-non, Llansteffan, Pontaman, Saron, Llanismel, Trimsaran a Hendy-gwyn ar Daf. Sylwch fod yr wybodaeth hon yn seiliedig ar y ddarpariaeth chwarae a restrir ar Dewis.
- Nid oes gan 16 o wardiau unrhyw ddarpariaeth chwarae ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc (darpariaeth dan do neu awyr agored ar gyfer unigolion dros 12 oed) Bigyn, Gogledd Tref Caerfyrddin, Cynwyl Gaeo, Dafen, Glyn, Hengoed, Lacharn, Llanboidy, Llandeilo, Llanfihangel Aberbythych, Llangadog, Maenordeilo a Salem, Pontyberem, Llanismel, Tre-lech a Thrimsaran. Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2021, mae 4,496 o blant a phobl ifanc rhwng 12 a 19 oed yn byw yn y wardiau hyn, sef 30% o'r grŵp oedran hwnnw.

DS: Mae'n bwysig nodi y gall y gwahaniaethau methodolegol rhwng yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Asesiad Mannau Agored presennol arwain at amrywiadau bach mewn canlyniadau.

3.6. Tyfu Bwyd

Mae Cymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd a Garddwyr Hamdden yn dangos y manteision niferus y gall tyfu cymunedol eu darparu³⁵, yn gwyno:

- “Cyfalaf Cymdeithasol – ... Mae'r cyswllt cymdeithasol a gynigir gan arddio mewn amgylchedd rhandiroedd yn helpu i frwydro yn erbyn y diffyg cyfalaf cymdeithasol a ymgorfforir gan unigrwydd, sydd â'r un risg i iechyd ag ysmegu 15 sigarét y dydd ac sydd ddwywaith mor niweidiol â gordewdra”.
- “Llesiant meddyliol – Mae ymwybyddiaeth gynyddol o rôl garddio o ran atal a lleddfu salwch meddwl. Bydd llawer o arddwyr rhandir yn dweud wrthyh fod ysbaid ar y llain yn meithrin planhigion ac yn ystyried natur yn gwneud iddynt deimlo'n dawelach ac yn fwy gobeithiol, a chafwyd astudiaethau yn ddiweddar sydd wedi mesur y budd hwn.”
- “Gweithgaredd iach – Mae manteision corfforol ysbeidiau rheolaidd o arddio yn helpu deiliaid lleiniau i gadw'n heini hyd yn oed os oes ganddynt swyddi eisteddog, ac mae'r ymarfer corff hefyd yn cyfrannu at eu lles meddyliol. Gall garddio hefyd helpu i gynnal cerddeddiad a chydbwysedd da mewn garddwyr hŷn a helpu gyda dirywiad gwybyddol”.
- “Cysylltiad â natur – Mae gweithio ar lain drwy gydol y flwyddyn yn golygu bod deiliaid rhandiroedd yn profi'r tymhorau, yn gweld ymddygiad adar, pryfed ac anifeiliaid eraill ac yn dod i ddeall yr ecosystem. Mae gan y gwerthfawrogiad hwn o fyd natur y potensial hefyd i ysbrydoli ymddygiad mwy ymwybodol o'r amgylchedd ganddyn nhw eu hunain a'u plant”.

Ymgynghorwyd â'r boblogaeth gyffredinol a phartïon eraill â diddordeb, drwy arolwg a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac adborth gan aelodau Rhwydwaith Bwyd Sir Gaerfyrddin³⁶.

Mae'r Sir yn gartref i Bwyd Sir Gâr Food, partneriaeth sy'n dod â rhanddeiliaid strategol allweddol ynghyd o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac mae'n rhan o'r rhwydwaith [Lleoedd Bwyd Cynaliadwy](#). Ymhlith y sefydliadau sy'n aelodau mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, CNC, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, a Synnwyr Bwyd Cymru ac eraill. Nod y bartneriaeth yw datblygu system fwyd leol, gynaliadwy, cynhwysol a gwydn ar gyfer y Sir sy'n adlewyrchu synthesis o'r nodau strategol a rennir gan y sefydliadau sy'n aelodau.

3.7. Asesiad Mannau Gwyrdd

Mae tystiolaeth sy'n nodedig yn lleol yn llywio polisïau'r cynllun mewn perthynas â mannau agored. Mae Asesiad Mannau Gwyrdd Sir Gaerfyrddin yn darparu archwiliad o'r ddarpariaeth wedi'i lywio gan safonau a chanllawiau cenedlaethol yn ogystal â gwybodaeth leol am ddarpariaeth o bwys lleol a gafwyd gan y gymuned leol a/neu swyddogion yr

³⁵ [Benefits of allotment gardening – The National Allotment Society \(nsalg.org.uk\)](https://nsalg.org.uk/)

³⁶ [Arolwg Bwyd ar gyfer Sir Gâr - CGGSC~CAVS](#)

awdurdod lleol. Mae'r astudiaeth yn rhoi gwerthfawrogiad gofodol o ble mae diffygion a gwargedion posib yn y ddarpariaeth ar draws y Sir. Dylid nodi y cynhelir adolygiad o'r Asesiad Mannau Gwyrdd fel rhan o'r gofyniad cyffredinol i fonitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Bydd adolygiad o'r fath yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes ac yn ceisio adlewyrchu newidiadau yn y ddarpariaeth a hygyrchedd cyfleusterau.

3.8. Canllawiau Cynllunio Atodol: Hamdden a mannau agored

Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer darparu hamdden a mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd ym mis Medi 2016. Cynhyrchwyd y CCA yn dilyn mabwysiadu'r CDLI cyfredol ac mae'n ystyried y Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Prif amcan y CCA hyn oedd datblygu dealltwriaeth o'r diffiniadau amrywiol o fannau agored yng nghydestun Sir Gaerfyrddin yn ogystal ag egluro disgwyliadau'r Cyngor mewn perthynas â rhwymedigaethau cynllunio.

Noder: Bydd y CCA hyn yn cael eu hadolygu wedyn yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

3.9. Demograffeg

Datgelodd data o Gyfrifiad 2021 fod gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth gynyddol o 187,897 o bobl, sef tua 91,182 o aelwydydd (gan ddefnyddio data diweddaraf y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol). Darperir demograffeg pob ward etholiadol yn Nhabl 7. Defnyddir y ffigurau hyn yn ddiweddarach i gyfrifo'r 'Gofyniad Safonol' ar gyfer pob ward etholiadol.

Tabl 7. Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd fesul ward etholiadol o fewn y Sir a gafwyd o ddata Cyfrifiad 2021. SYG Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 30 Ionawr 2023]. * = Rhennir y wardiau hyn â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. ** = Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio nifer yr aelwydydd a phoblogaethau fesul ward (nid yw hyn yn ystyried effaith preswylfeydd cymunedol). Cyfartaledd deiliadaeth aelwydydd ar draws yr holl wardiau yw 2.31.

Wardiau Etholiadol (2022)	Poblogaeth	Aelwydydd	Deiliadaeth Aelwyd**
Abergwili	2,331	963	2.42
Rhydaman	5,439	2,464	2.21
Y Betws	2,398	987	2.43
Bigyn	6,587	2,779	2.37
Porth Tywyn	4,037	1,934	2.09
Bynea	4,519	1,886	2.40
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	9,111	4,317	2.11
Gorllewin Tref Caerfyrddin	5,521	2,283	2.42
Cenarth a Llangeler	5,550	2,468	2.25
Cil-y-cwm	2,547	1,126	2.26
Cwarter Bach*	2,853	1,249	2.28
Cynwyl Elfed	2,273	931	2.44

Dafen a Felinfoel	5,195	2,207	2.35
Elli	1,988	867	2.29
Y Garnant*	2,049	886	2.31
Glanaman*	2,506	1,105	2.27
Glan-y-môr	6,409	2,903	2.21
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	2,163	939	2.30
Gors-las	5,082	2,153	2.36
Hendy	3,205	1,378	2.33
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	4,308	1,914	2.25
Cydweli a Llanismel	5,053	2,248	2.25
Lacharn*	2,588	1,150	2.25
Llanboidy*	2,097	855	2.45
Llanddarog	2,070	857	2.42
Llandeilo*	2,959	1,372	2.16
Llanymddyfri*	2,591	1,119	2.32
Llandybïe*	4,390	1,842	2.38
Llanegwad	2,444	1,061	2.30
Llanfihangel Aberbythych	1,749	766	2.28
Llanfihangel-ar-arth	2,780	1,218	2.28
Llangadog*	1,941	820	2.37
Llangennech	5,437	2,275	2.39
Llangynnwr	2,628	1,174	2.24
Llangyndeyrn	5,239	2,230	2.35
Llan-non	5,368	2,231	2.41
Llanybydder	2,787	1,196	2.33
Lliedi	5,336	2,338	2.28
Llwynhendy	4,390	1,874	2.34
Maenordeilo a Salem	2,625	1,123	2.34
Pen-bre	4,175	1,780	2.35
Pen-y-groes	3,052	1,317	2.32
Pontyberem	2,864	1,214	2.36
Saron	4,263	1,832	2.33
Sanclêr a Llansteffan	5,189	2,259	2.30
Cwm Lliedi	2,471	1,101	2.24
Tre-lech	2,731	1,133	2.41
Trimsaran	2,500	1,063	2.35
Tŷ-croes	2,683	1,171	2.29
Tyisha	5,041	2,336	2.16

Hendy-gwyn ar Daf	2,381	1,067	2.23
-------------------	-------	-------	------

O gymharu nifer yr ystafelloedd gwely y mae ar aelwyd eu hangen yn erbyn nifer yr ystafelloedd gwely sydd ar gael, canfyddir bod 81% o anheddau yn cael eu tanfeddiannu, gyda'r modd yn cynnwys dwy neu ragor o ystafelloedd gwely sbâr (Tabl 8).

Tabl 8. Sgôr defnydd ar gyfer ystafelloedd gwely yn Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a gafwyd o ddata Cyfrifiad 2021. SYG Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 26 Mehefin 2023]. * = Mae sero yn awgrymu bod gan lety aelwyd nifer delfrydol o ystafelloedd gwely.

Graddfa deiliadaeth ar gyfer ystafelloedd gwely	Mesuriad
+2 neu ragor	38,471
+1	27,511
0 *	14,415
-1	1,217
-2 neu lai	145

4. Archwilio'r Ddarpariaeth Bresennol

Darperir crynodebau sy'n cyfeirio at y ddarpariaeth gyffredinol yn y Sir a phob categori o fannau agored o dan yr adrannau a ganlyn.

Gellir dod o hyd i fap yn dangos yr holl ddarpariaethau a archwiliwyd o dan yr haen *Mannau Adloniant/Mannau Agored* ar lwyfan mapio cynigion y CDLI diwygiedig³⁷.

4.1. Y Ddarpariaeth Gyffredinol yn Sir Gaerfyrddin

Mae mwyafrif y darpariaethau Mannau Agored yn Sir Gaerfyrddin ar gael i'r cyhoedd (Tabl 9). Mae Mannau Agored Cyhoeddus yn cynrychioli tua 14% o arwynebedd y Sir, fodd bynnag, wrth eithrio Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch (e.e. ardaloedd mawr o dir ffermio comin yn bennaf), dim ond 0.51% yw'r categorïau sy'n weddill gyda'i gilydd.

Tabl 9: Darpariaeth Mannau Agored o fewn y Sir. Mae mynediad i bedair Darpariaeth Chwaraeon Awyr Agored (cyfanswm o 4.13 ha) yn parhau i fod yn anhysbys ar adeg ysgrifennu.

Categori	Mannau Agored Cyhoeddus		Mannau Adloniant Eraill (Mynediad Cyfyngedig)	
	Nifer y safleoedd	Arwynebedd (Ha)	Nifer y safleoedd	Arwynebedd (Ha)
Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch	324	29831.28	Ddim yn berthnasol	
Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored	151	316.18	108	147.19
Man Chwarae	214	25.97	Ddim yn berthnasol	
Man Amwynder Ffurfiol (Rhandiroedd)	390 (15)	773.31 (9.28)	18	750.01
Cyfanswm	1,079	30,946.74	126	897.2

4.2. Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch

Nid oes unrhyw ddarpariaethau o fannau gwyrdd naturiol hygyrch penodedig mewn 11 o wardiau (Tabl 10).

Tabl 10. Cyfuno Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch o fewn y Sir fesul ward etholiadol. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Noder: Mae ffigur cyfunol nifer y safleoedd yn fwy na'r ddarpariaeth gyffredinol oherwydd y safleoedd hynny a oedd yn croesi ffiniau wardiau etholiadol.

Wardiau Etholiadol (2022)	Cyfanswm Arwynebedd (Ha)	Nifer y safleoedd
Abergwili	1,171.76	13

³⁷ [Cyngor Sir Caerfyrddin – Cynllun Lleol: 2il Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin Diwygiedig Adneuo 2018-2033 – Map Cynigion \(opus4.c.uk\)](#)

Rhydaman	0	0
Y Betws	162.06	14
Bigyn	0	0
Porth Tywyn	3.77	1
Bynea	12.80	1
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	21.02	1
Gorllewin Tref Caerfyrddin	33.30	2
Cenarth a Llangeler	130.06	21
Cil-y-cwm	6,192.52	30
Cwarter Bach*	2,642.10	6
Cynwyl Elfed	185.40	7
Dafen a Felinfoel	0	0
Elli	0	0
Y Garnant*	783.67	3
Glanaman*	621.25	4
Glan-y-môr	6.24	1
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	0	0
Gors-las	60.58	4
Hendy	0	0
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	8.20	2
Cydweli a Llanismel	15.17	3
Lacharn*	77.09	5
Llanboidy*	32.47	5
Llanddarog	176.30	10
Llandeilo*	632.84	15
Llanymddyfri*	2876.46	32
Llandybïe*	56.66	4
Llanegwad	3113.90	26
Llanfihangel Aberbythych	324.90	10
Llanfihangel-ar-arth	1,532.12	8
Llangadog*	6305.12	38
Llangennech	0.13	2
Llangynnwr	4.24	3
Llangyndeyrn	161.53	9
Llan-non	12.69	2
Llanybydder	1,023.81	16
Lliedi	0	0
Llwynhendy	0	0

Maenordeilo a Salem	1,206.31	20
Pen-bre	81.96	4
Pen-y-groes	19.38	9
Pontyberem	0	0
Saron	32.83	12
Sanclêr a Llansteffan	36.14	11
Cwm Lliedi	0	0
Tre-lech	52.54	14
Trimsaran	3.62	1
Tŷ-croes	17.95	5
Tyisha	0	0
Hendy-gwyn ar Daf	0.38	1

4.3. Man Chwarae

Mae 214 o fannau chwarae yn gorchuddio arwynebedd o 25.97 ha (Tabl 11). Nid oes unrhyw ddarpariaethau chwarae pwrpasol yn Elli.

Tabl 11. Mannau Chwarae Cyfunol o fewn y Sir fesul ward etholiadol. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Noder: Mae ffigur cyfunol nifer y safleoedd yn fwy na'r ddarpariaeth gyffredinol oherwydd y safleoedd hynny a oedd yn croesi ffiniau wardiau etholiadol.

Wardiau Etholiadol (2022)	Cyfanswm Arwynebedd (Ha)	Nifer y safleoedd
Abergwili	0.23	2
Rhydaman	1.20	9
Y Betws	0.48	3
Bigyn	1.63	6
Porth Tywyn	0.66	7
Bynea	0.48	4
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	0.50	5
Gorllewin Tref Caerfyrddin	0.37	4
Cenarth a Llangeler	0.61	7
Cil-y-cwm	0.16	6
Cwarter Bach*	2.02	11
Cynwyl Elfed	0.52	3
Dafen a Felinfoel	0.36	5
Elli	0.00	0
Y Garnant*	0.35	6
Glanaman*	0.73	5
Glan-y-môr	0.85	4

Glyn (Sir Gaerfyrddin)	0.35	5
Gors-las	0.61	6
Hendy	0.78	3
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	0.23	2
Cydweli a Llanismel	0.56	7
Lacharn*	0.68	5
Llanboidy*	0.34	3
Llanddarog	0.19	4
Llandeilo*	0.44	3
Llanymddyfri*	0.74	5
Llandybie*	0.45	3
Llanegwad	0.23	2
Llanfihangel Aberbythych	0.09	2
Llanfihangel-ar-arth	0.36	4
Llangadog*	0.11	1
Llangennech	0.68	6
Llangynnwyr	0.03	2
Llangyndeyrn	1.00	7
Llan-non	0.72	6
Llanybydder	0.22	3
Lliedi	0.43	3
Llwynhendy	0.94	2
Maenordeilo a Salem	0.23	1
Pen-bre	0.73	5
Pen-y-groes	0.55	5
Pontyberem	0.32	2
Saron	0.34	5
Sanclêr a Llansteffan	0.48	8
Cwm Lliedi	0.08	1
Tre-lech	0.45	3
Trimsaran	0.49	3
Tŷ-croes	0.28	5
Tyisha	0.22	2
Hendy-gwyn ar Daf	0.50	3

4.4. Chwaraeon Awyr Agored

Mae 254 o ddarpariaethau chwaraeon awyr agored, sef cyfanswm o arwynebedd o 449.45 ha (Tabl 12). Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn Elli. Roedd naw safle ar y gronfa ddata wedi'u lleoli y tu allan i'r Sir ac nid ydynt wedi'u cynnwys isod.

Tabl 12. Man Amwynder Ffurfiol Cyfunol o fewn y Sir fesul ward etholiadol. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Noder: Mae ffigur cyfunol nifer y safleoedd yn fwy na'r ddarpariaeth gyffredinol oherwydd y rhai a oedd yn croesi ffiniau wardiau etholiadol.

Wardiau Etholiadol (2022)	Cyfanswm Arwynebedd (Ha)	Nifer y safleoedd
Abergwili	7.216136	4
Rhydaman	24.486586	12
Y Betws	3.009872	4
Bigyn	11.691309	5
Porth Tywyn	7.705906	3
Bynea	5.578551	4
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	24.702128	16
Gorllewin Tref Caerfyrddin	1.846624	2
Cenarth a Llangeler	11.314705	9
Cil-y-cwm	1.385779	3
Cwarter Bach	8.003276	6
Cynwyl Elfed	4.721812	5
Dafen a Felinfoel	22.441666	11
Elli	0	0
Garnant	4.235446	2
Glanaman	2.25713	2
Glan-y-môr	9.837239	4
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	4.155884	4
Gors-las	15.801546	8
Hendy	5.133139	4
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	19.397767	5
Cydweli a Llanismel	15.381605	6
Lacharn	6.23096	2
Llanboidy	3.400904	4
Llanddarog	2.785774	4
Llandeilo	20.639929	6
Llanymddyfri	19.221857	8
Llandybïe	9.628895	7
Llanegwad	3.258294	3
Llanfihangel Aberbythych	0.181158	1
Llanfihangel-ar-arth	2.181568	4

Llangadog	3.644351	2
Llangennech	9.673208	7
Llangynnwyr	3.566167	2
Llangyndeyrn	14.898821	7
Llan-non	16.051938	9
Llanybydder	6.374089	7
Lliedi	12.416039	7
Llwynhendy	8.421425	5
Maenordeilo a Salem	3.025765	3
Pen-bre	20.817892	7
Pen-y-groes	10.232518	6
Pontyberem	9.636363	4
Saron	6.747001	6
Sanclêr a Llansteffan	10.695712	7
Cwm Lliedi	0.751243	1
Tre-lech	3.539128	4
Trimsaran	8.203503	1
Tŷ-croes	5.545776	5
Tyisha	3.145923	1
Hendy-gwyn ar Daf	14.234424	5

4.5. Amwynder Ffurfiol

Mae cyfanswm o 1523.32 ha o amwynderau ffurfiol wedi'i rannu dros 408 o safleoedd (Tabl 13). Nid oes unrhyw ddarpariaethau yng Nghwm Lliedi. Mae tua 315 o'r safleoedd hyn yn rhai crefyddol (e.e. mynwentydd eglwys, mynwentydd).

Tabl 13. Man Amwynder Ffurfiol Cyfunol o fewn y Sir fesul ward etholiadol. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Noder: Mae ffigur cyfunol nifer y safleoedd yn fwy na'r ddarpariaeth gyffredinol oherwydd y rhai a oedd yn croesi ffiniau wardiau etholiadol.

Wardiau Etholiadol (2022)	Cyfanswm Arwynebedd (Ha)	Nifer y safleoedd
Abergwili	12.418412	9
Rhydaman	3.347887	9
Y Betws	3.195206	7
Bigyn	5.322033	5
Porth Tywyn	85.938966	11
Bynea	7.923995	3
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	13.474192	17
Gorllewin Tref Caerfyrddin	2.44769	4

Cenarth a Llangeler	9.5773	24
Cil-y-cwm	23.546602	11
Cwarter Bach	17.645264	6
Cynwyl Elfed	1.85065	12
Dafen a Felinfoel	2.642018	5
Elli	0.702327	6
Garnant	5.554029	3
Glanaman	1.721575	4
Glan-y-môr	24.368675	8
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	2.029053	7
Gors-las	75.113358	6
Hendy	4.371416	5
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	151.438771	9
Cydweli a Llanismel	2.59621	11
Lacharn	8.621186	10
Llanboidy	1.679184	5
Llanddarog	211.994874	8
Llandeilo	208.818255	9
Llanymddyfri	13.110062	7
Llandybïe	35.27748	6
Llanegwad	13.264667	14
Llanfihangel Aberbythych	99.417679	11
Llanfihangel-ar-arth	8.336408	9
Llangadog	70.359336	3
Llangennech	2.465761	8
Llangynnwr	0.32244	3
Llangyndeyrn	6.25196	15
Llan-non	67.117817	12
Llanybydder	2.324718	7
Lliedi	25.849878	7
Llwynhendy	0.839801	3
Maenordeilo a Salem	40.179379	15
Pen-bre	220.509312	6
Pen-y-groes	1.460511	8
Pontyberem	2.88604	8
Saron	3.092066	7
Sanclêr a Llansteffan	3.550037	12
Cwm Lliedi	0	0

Ail Fersiwn Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Tre-lech	4.010166	8
Trimsaran	0.877315	4
Tŷ-croes	2.359607	8
Tyisha	9.990779	7
Hendy-gwyn ar Daf	1.132598	6

4.6. Ansawdd

Rhwng 2022 a 2023, roedd gan Barc yr Esgob (sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Porth Tywi), Parc Gwledig Llyn Llech Owain, a Pharc Gwledig Pen-bre (y ddau yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin) ddyfarniadau llawn. Roedd gan Brosiect Gardd Synhwyrdd Gymunedol Cydweli, Gardd Liwrau Amgueddfa Wlân Cymru, a Pharc Pontyberem ddyfarniadau cymunedol. Ystyrir pob un yn fannau agored cyhoeddus. Yn gyffredinol, mae'r Sir yn yr ugeinfed safle ar gyfer ennill dyfarniadau o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, fel y rhagfynegwyd gan ddwysedd y dyfarniadau (Tabl 14). Yn ogystal, dim ond un traeth sydd gan y Sir wedi'i ddynodi â Baner Las (Cefn Sidan – y cyntaf o'i fath yng Nghymru).

Tabl 14. Y Faner Werdd a dyfarniadau cymunedol o fewn awdurdodau lleol Cymru yn 2022-2023, wedi'u rhestru yn ôl dwysedd y dyfarniadau. Mae arwynebedd yr awdurdod lleol yn fras, ac mae'r Sir yn cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Safle	Awdurdod Lleol	Nifer y Dyfarniadau	Arwynebedd yr ALI (km ²)	Dwysedd y Dyfarniadau (km ²)
1af	Caerdydd	35	140	4.0
2il	Merthyr	16	111	6.9
3ydd	Caerffili	25	278	11.1
4ydd	Bro Morgannwg	28	335	12.0
5ed	Abertawe	22	378	17.2
6ed	Torfaen	7	126	18.0
7fed	Blaenau Gwent	5	109	21.8
8fed	Casnewydd	6	190	31.7
9fed	Pen-y-bont ar Ogwr	7	246	35.1
10fed	Rhondda Cynon Taf	11	424	38.5
11eg	Castell-nedd Port Talbot	11	442	40.2
12fed	Sir Fynwy	16	850	53.1
13eg	Conwy	20	1,126	56.3
14eg	Wrecsam	8	498	62.3
15fed	Sir Ddinbych	10	844	84.4
16eg	Sir y Fflint	3	438	146.0
17eg	Ynys Môn	5	771	154.2
18fed	Sir Benfro	7	1,590	227.1
19eg	Ceredigion	5	1,795	359.0
20fed	Sir Gaerfyrddin	6	2,370	395.0
21ain	Gwynedd	6	2,535	422.5
22ain	Powys	6	5,180	863.3

5. Safonau Meincnodi

Mae'r safonau ar gyfer darparu mannau agored wedi'u datblygu'n flaenorol gan nifer o bartïon sydd wedi buddsoddi ynddynt. Fel yr amlinellwyd yn TAN16, mae datblygu a phrofi safonau wedi hynny yn galluogi nodi gwargedion a diffygion mewn meintiau o fannau agored, chwaraeon ac adloniant, ochr yn ochr ag unrhyw ddiffygion o ran hygyrchedd ac ansawdd. Lle dangosir diffygion, gellir defnyddio gwybodaeth o'r fath i helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Er eglurder, prif ffocws yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus hwn oedd ystyried yn feintiol maint a hygyrchedd presennol y ddarpariaeth mannau agored. Serch hynny, ystyriwyd agweddau ar ansawdd hefyd er na ddarparwyd unrhyw safonau ar gyfer ansawdd yn benodol (gweler Adran 4.6).

Roedd Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig 2006–2021 y Sir³⁸ wedi pennu safon maint yn benodol ar gyfer darpariaeth mannau agored cyffredinol (fel yr amlinellwyd yn ddiweddarach yn Adran 7.1, REC2).

Ceir trosolwg o'r safonau a brofwyd yn yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus hwn yn Adran 5.6. Mae adrannau cyfryngol yn adolygu safonau meincnod yn ychwanegol at y rhai a amlinellir yn Atodiad C TAN16.

NODER: Cynigir y safonau a argymhellir ar gyfer gweithredu ymlaen yn Adran 7.3 (Tabl 22).

5.1. Siarter ar gyfer Mannau Agored yng Nghymru

Ym mis Gorffennaf 2020, datblygodd y Gymdeithas Mannau Agored³⁹ siarter wedi'i thargedu at Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chymunedau lleol i helpu i ddiogelu mannau agored a mynediad i fyd natur. Mae'n argymhell gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau mannau agored o ansawdd da, sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n ddiogel o fewn 300 m i'w cartrefi.

5.2. Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch

Mannau agored sy'n '*naturiol yn bennaf*' o ran cymeriad yw mannau gwyrdd naturiol hygyrch. Mae manteision lleoedd o'r fath wedi'u trafod yn eang. Gan gydnabod bod mannau gwyrdd naturiol hygyrch yn gwneud cyfraniad pwysig at ansawdd yr amgylchedd a bywyd mewn ardaloedd trefol a gwledig, mae pecyn cymorth a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn diffinio safonau darpariaeth ac yn cynnig ffyrdd o fesur y safonau hyn. Er mwyn osgoi dyblygu, er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o gysyniadau mannau gwyrdd a'r fethodoleg a ddefnyddir i ddiffinio man gwyrdd naturiol hygyrch, argymhellir y dylid cyfeirio at Becyn Cymorth CNC. Mae safonau CNC ar gyfer man gwyrdd naturiol hygyrch fel a ganlyn:

³⁸ [Cyngor Sir Gaerfyrddin – Cynllun Datblygu Lleol 2006-2011](#)

³⁹ [Siarter ar gyfer Mannau Agored yng Nghymru – Y Gymdeithas Mannau Agored \(oss.org.uk\)](#)

- Ni ddylai unrhyw unigolyn fyw ymhellach na 300m⁴⁰ o'i ardal agosaf o fan gwyrdd naturiol hygrych⁴¹;
- Dylai fod o leiaf un man gwyrdd naturiol hygrych o 20 ha neu ragor o fewn 2 km i bob cartref;
- Dylai fod o leiaf un man gwyrdd naturiol hygrych o 100 ha neu ragor, o fewn 5 km i bob cartref;
- Dylai fod o leiaf un man gwyrdd naturiol hygrych o 500 ha neu ragor, o fewn 10 km i bob cartref.

Mae CNC yn argymhell safon ofynnol o 0.25 ha o ddarpariaeth man gwyrdd naturiol hygrych i bob 1,000 o'r boblogaeth.

Yn ogystal, mae Coed Cadw yn casglu data ar goetiroedd hygrych ar draws y DU ac yn arwain datblygiad y Safonau Mynediad i Goetiroedd sydd bellach wedi'u mabwysiadu'n eang mewn polisïau coedwigaeth. Mae'n argymhell y dylai pawb gael mynediad at goedwig sydd o leiaf:

- 2 ha o fewn 500 m i bob cartref;
- 20 ha o fewn 4 km i bob cartref.

5.3. Man Chwarae

Cydnabuwyd ers tro bod cyfleoedd awyr agored ar gyfer chwarae, chwaraeon, a gweithgarwch corfforol cyffredinol yn hanfodol ar gyfer datblygiad iach plant, oedolion ifanc, a llesiant yr holl ddefnyddwyr waeth beth fo'u hoedran. Mae Meysydd Chwarae Cymru (FIT) wedi paratoi safonau meincnodi ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored a Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (y cyfeirir atynt, yn yr asesiad hwn, gyda'i gilydd fel 'Man Chwarae'). Mae defnyddio safonau FIT yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon awyr agored, chwarae a mannau agored anffurfiol o faint digonol i alluogi defnydd effeithiol; mewn lleoliad hygrych ac yn agos at anheddau; ac o ansawdd i gynnal hirhoedledd ac i annog ei ddefnydd parhaus. Amlygir eu defnydd yn TAN16 (paragraff 2.26).

Mae safonau meincnodi FIT⁴² ar gyfer Man Chwarae (MCh) yn cynnwys y canlynol:

- Dylai fod o leiaf 1.2 ha o gaeau chwarae⁴³ i bob 1,000 o'r boblogaeth;

⁴⁰ Mae'r Pecyn Cymorth yn nodi 400 m os mai dadansoddiad 'clustogfa' a ddefnyddir. Mae tudalen 28 yn nodi "*mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr angen i'r cerddwr ddilyn y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau troed i gael mynediad i fannau gwyrdd, croesi strydoedd a mynd rownd corneli ac ati.*"

⁴¹ Mae 300 m hefyd yn ddangosydd a ddefnyddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

⁴² Mae safonau FIT yn nodi 300 m os mai dadansoddiad 'clustogfa' a ddefnyddir, fel sy'n wir yn yr astudiaeth hon.

⁴³ Fel y'i diffinnir o fewn [Rheoliadau Caeau Chwarae \(Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu\) \(Cymru\) 2015](#). Serch hynny, mae hyn hefyd yn cynnwys 'meysydd chwarae' fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.5.5 Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11.

- Dylai fod o leiaf 1.6 ha⁴⁴ o gyfleusterau chwaraeon awyr agored i bob 1,000 o'r boblogaeth;
- Dylai pawb fyw o fewn 1,200 m i gae chwarae/cyfleuster chwaraeon awyr agored.

Roedd y Cyngor yn cydnabod yn flaenorol y tri chategori o fannau chwarae a ddiffinnir yn 'Safon Meincnod' FIT –lle chwarae lleol (LAP), lle lleol â chyfarpar ar gyfer chwarae (LEAP), a lle mewn cymdogaeth â chyfarpar ar gyfer chwarae (NEAP)⁴⁵. Mae FIT wedi cynhyrchu isafswm meintiau, dimensiynau, a chlustogfeydd ar gyfer ardaloedd o'r fath. Yn gonfensiynol, maent wedi'u categorioeddio, yn rhannol, yn ôl nifer y profiadau chwarae y maent yn eu darparu (e.e. argymhellir cael lle lleol â chyfarpar ar gyfer chwarae i gael o leiaf chwe phrofiad chwarae). Mae'r rhain hefyd yn cael eu defnyddio'n gyffredin wrth benderfynu ar y ddarpariaeth o fannau chwarae a argymhellir yn erbyn graddfa'r datblygiad arfaethedig⁴⁶. Er ei bod yn mynd y tu hwnt i gwmpas yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus presennol i adolygu digonolrwydd chwarae yn unig⁴⁷, mabwysiadwyd y safonau canlynol yn flaenorol gan y Cyngor ac maent wedi'u haddasu o'r rhai a hyrwyddwyd gan FIT⁴⁸ i gynnwys y canlynol:

- Dylai fod o leiaf 0.8 ha⁴⁹ o ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc i bob 1,000 o'r boblogaeth;
- Dylai pawb fyw o fewn 400 m i'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc⁵⁰.
- Dylai fod cyfanswm o 2.15 ha⁵¹ o fan chwarae hygyrch i bob 1,000 o'r boblogaeth;

⁴⁴ Mae'r safon hon yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y [CCA \(2016\)](#), ac fel y mabwysiadwyd yn flaenorol gan y Cyngor.

⁴⁵ Gellir dod o hyd i ddiffiniadau a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor o fewn [Gofynion Hamdden a Mannau Agored i Ddatblygiadau Newydd a fabwysiadwyd ym mis Medi 2016](#). Mae'r dimensiynau lleiaf i'w gweld yn Nhabl 4 (tudalen 9) o fewn dogfen FIT [Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored: Y tu Hwnt i'r Safon Chwe Erw \(Cymru\)](#).

⁴⁶ Fel y dangosir yn Nhabl 2 (tudalen 7) o'r ddogfen uchod.

⁴⁷ Mae [Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae](#) (Mawrth 2022) pwrpasol a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol wedi datblygu methodoleg penodol ar wahân.

⁴⁸ Mae FIT yn argymhell o leiaf "0.25 ha o fannau chwarae â chyfarpar/dynodedig" a "0.3 ha o ddarpariaeth awyr agored arall (e.e. ardaloedd chwaraeon amldefnydd a pharciau sgrialu) i bob 1,000 o'r boblogaeth".

⁴⁹ Fel y nodwyd yn y CCA (2016), rhennir y safon hon yn 0.6 ha o fannau chwarae anffurfiol a 0.2 ha o fannau chwarae â chyfarpar.

⁵⁰ Mae hyn i adlewyrchu taith gerdded o bum munud, a safonau FIT ar gyfer lleoedd lleol â chyfarpar ar gyfer chwarae. Serch hynny, ni ddylai unrhyw blentyn fod yn byw ymhellach na 100 metr o faes chwarae bach fel lleoedd chwarae lleol sydd eu hunain yn parhau i fod yn gymeradwy o fewn y [CCA \(2016\)](#). Gallai darpariaethau lleoedd chwarae lleol ddod o dan fannau amwynder eraill.

⁵¹ Fel y cafwyd gan [wefan](#) FIT: "I gyfrifo cyfanswm darpariaeth ar gyfer ein safonau ffurfiol, dylid adio'r ffigurau ar gyfer 'Pob chwaraeon awyr agored' (sy'n cynnwys ffigur 'Meysydd chwarae'), 'Lleoedd chwarae â chyfarpar/dynodedig' a 'Darpariaeth awyr agored arall' at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi ffigur o 2.15 hectar fesul 1,000 o bobl".

5.4. Man Amwynder Ffurfiol

Mae gan amwynder ffurfiol sawl mantais i iechyd a llesiant y boblogaeth leol. Mae yna gategoriâu o amwynder ffurfiol nad ydynt yn dod o dan man gwyrdd naturiol hygrych na mannau chwarae ond sy'n dal yn bwysig i ansawdd bywyd pobl. At ddiben yr asesiad hwn, mae amwynder ffurfiol yn cynnwys 'Man Gwyrdd Amwynder' a ddiffinnir fel mannau adloniant anffurfiol ynghanol tai neu o'u hamgylch megis meysydd pentrefi a mynwentydd, yn ychwanegol at 'Barciau a Gerddi' sy'n cynnwys parciau trefol, parciau gwledig a gerddi ffurfiol sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cyd-fynd â safonau FIT.

Mae gan FIT hefyd safonau meincnod ar gyfer mannau agored cyhoeddus, gan gydnabod gwerth y mannau hyn wrth iddynt ategu darpariaeth mannau awyr agored mwy ffurfiol. Mae'r safonau hyn wedi'u hargymell gan ystyried Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad Awyr Agored CNC 2015 – 2020, sy'n cefnogi cyflawni'r nodau troswaol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Unwaith eto, amlygir eu defnydd yn TAN16 (paragraff 2.26).

Mae safonau meincnod FIT ar gyfer amwynder ffurfiol yn awgrymu'r canlynol:

- Dylai fod o leiaf 0.8 ha o barciau a gerddi i bob 1,000 o'r boblogaeth;
- Dylai fod o leiaf 0.6 ha o fan gwyrdd amwynder i bob 1,000 o'r boblogaeth;
- Dylai pob annedd fod o fewn 710 m i barc neu ardd;
- Dylai pob annedd fod o fewn 480 m i fan gwyrdd amwynder.

5.5. Rhandiroedd

Rhoddir dyletswydd statudol ar rai cynghorau i ddarparu rhandiroedd os oes galw. Fel y nodwyd yn *Neddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908*⁵², os yw chwe phreswilydd yn dymuno cael rhandir ac nad oes un ar gael, gallant ofyn i'r cyngor perthnasol ddarparu tir iddynt sy'n addas ar gyfer rhandir. Yn ogystal, mae arweiniad diweddar gan Lywodraeth Cymru⁵³ yn datgan: "*Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu bod rhwymedigaeth glir ar gyrff cyhoeddus i alluogi newid cadarnhaol sy'n arwain at Gymru fwy cydnerth, cadarn ac iach. Drwy amddiffyn a rheoli'r rhandiroedd a'r mannau tyfu a ddarperir ar hyn o bryd, a chefnogi datblygiad rhandiroedd a phrosiectau tyfu cymunedol newydd yn ôl y galw, gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru ein galluogi i greu poblogaeth iachach a hapusach a chyflenwad mwy cynaliadwy a sicr o fwyd.*"

Mae manteision garddio i unigolion yn cynnwys llesiant corfforol a meddyliol cynyddol, mynediad at ffrwythau a llysiau ffres, ac mae mannau cyhoeddus sy'n cael eu defnyddio'n dda ac sy'n derbyn gofal yn sgil-gynhyrchion naturiol o dyfu mewn rhandiroedd. Mae gan y mannau hyn a rennir y fantais ychwanegol o greu cysylltiadau agosach o fewn y gymuned

⁵² Gweler Rhan 2 ynghylch darparu Rhandiroedd. [Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

⁵³ [Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned \(llyw.cymru\)](#)

a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol a gydnabyddir fel ffactor allweddol o ran canfod ansawdd bywyd gwell.

Mae'r Gymdeithas Randiroedd yn argymhell y dylai awdurdodau ddarparu 0.5 hectar (sy'n cyfateb yn fras i 20 llain) fesul 1,000 o aelwydydd⁵⁴.

5.6. Profi Safonau Mannau Agored

I adlewyrchu'r diffiniad o fan agored a ddefnyddir yn yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus hwn, ar y cyd â'r adolygiad o'r safonau a argymhellir a'r safonau mabwysiedig presennol, mae'r safonau canlynol wedi'u llunio ar y cyd â gweithdy amlddisgyblaethol i weddu i gyddestun presennol y Sir, gan gynrychioli anghenion ei gymunedau, a'r uchelgeisiau yn unol â blaenoriaethau awdurdodau lleol.

Darperir testun esboniadol sy'n egluro sut y gwnaed y penderfyniad hwn yn uniongyrchol o dan bob un o'r safonau a gynhyrchwyd. Er eglurder, ni fydd mannau mynediad cyfyngedig yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar ymlyniad safonol.

Rhoddir crynodeb o'r safonau hynny a ddefnyddir isod (Tabl 15).

Tabl 15. Crynodeb o'r safonau a brofwyd. Ffigur * = fesul 1,000 o aelwydydd (nid y boblogaeth). ** = 400 m a ddefnyddir i gyfrif am y dull dadansoddi.

Categori	Nifer (hectarau fesul 1,000 o'r boblogaeth)	Hygyrchedd (pawb o fewn)
Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch	0.25	5 munud ar droed**
Man Chwarae	0.8	5 munud ar droed**
Chwaraeon Awyr Agored	1.6	Meysydd Chwarae: 15 munud ar droed (1,200 m)
Rhandiroedd	0.2*	-
Cyfanswm Darpariaeth Mannau Agored Cyhoeddus		2.45

⁵⁴ [Y Gymdeithas Randiroedd \(nsalg.org.uk\)](http://Y.Gymdeithas.Randiroedd.org.uk)

Maint y ddarpariaeth

1. Rhaid cael 2.45 ha o fan agored cyhoeddus hygyrch fesul 1,000 o bobl. Yn hyn o beth:

Mae hyn yn cyfateb i 24.5 metr sgwâr fesul unigolyn⁵⁵ ac mae'n cyd-fynd yn fras â'r safon chwe erw a argymhellir gan Meysydd Chwarae Cymru. Mae'n cynnwys mannau chwarae, chwaraeon awyr agored, mannau gwyrdd hygyrch, a mannau tyfu cymunedol y bernir eu bod yn hygyrch i'r cyhoedd (fel y nodir ymhellach isod). Er bod y ffigur hwn yn is na'r isafswm o [5.35 hectar o fannau agored a argymhellir gan FIT](#), mae'n bosibl y gallai gynrychioli mwy o fannau agored hygyrch gan nad yw safonau FIT yn amlinellu rhwng mannau mynediad cyfyngedig.

Rhaid ystyried y ffigur cyffredinol hwn yn gyfannol gyda'r safonau hygyrchedd a brofwyd.

a. Rhaid i 0.8 ha fod yn fan chwarae;

Mae'r ffigur hwn wedi'i fabwysiadu'n flaenorol gan y Cyngor ac mae'n sylweddol uwch na'r isafswm canllaw a argymhellir gan FIT. Fodd bynnag, o ystyried y ffocws cynyddol ar amlswyddogaetholdeb mannau agored a phryderon a nodwyd ynghylch cynaliadwyedd cyffredinol mannau chwarae â chyfarpar traddodiadol, nid yw'r rhaniad rhwng lleoedd â chyfarpar a lleoedd heb gyfarpar yn cael ei ystyried mwyach.

b. Rhaid i 1.6 ha fod yn fan chwaraeon awyr agored;

Mae hyn yn unol â'r argymhellion hynny a wnaed gan FIT, ac mae hefyd wedi'i fabwysiadu'n flaenorol gan y Cyngor. Mae hyn er mwyn eithrio lleoedd mynediad cyfyngedig (h.y. y cyfleusterau chwaraeon awyr agored a'r meysydd chwarae preifat hynny nad ydynt yn hygyrch iawn) i adlewyrchu'r rhwystrau ariannol posibl i fynediad. Bydd cyfleusterau'n cael eu hadolygu'n unigol ac, os bernir eu bod yn hygyrch (yn rhannol neu'n llawn), yna cânt eu cynnwys. Mae mannau mynediad cyfyngedig yn dal i gael eu cydnabod i ddarparu budd adloniant, yn enwedig ar gyfer chwaraeon tîm/clwb.

c. Rhaid i 0.25 ha fod yn fan gwyrdd naturiol hygyrch; ac

Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion lleiaf CNC. Nid oes unrhyw amlinelliad yn cael ei wneud ynglŷn â choetiroedd ac, felly, nid yw'n cefnogi safonau Coed Cadw. Gwnaed y penderfyniad hwn drwy ystyried y mosaig o'r mathau o ecosystemau sydd i'w cael ar draws y Sir. Serch hynny, mae gwaith diweddar a wnaed o fewn Strategaeth Coed a Choetiroedd Cyngor Sir Caerfyrddin⁵⁶ yn awgrymu bod y Sir yn sylweddol ddiffygiol o ran gorchudd canopi coed – bydd yr asesiad o'r seilwaith gwyrdd a glas yn ymdrin â'r agwedd hon yn agosach.

⁵⁵ I roi hyn mewn persbectif, mae hyn yn cynrychioli dim ond 0.21% o'r Sir. Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 – byddai 187,897 o bobl angen cyfanswm cyfunol o 460.3 ha o fannau agored. Cyfrifir y Sir yn 214,725 ha.

⁵⁶ Heb ei gyhoeddi'n allanol eto ar adeg ysgrifennu.

d. Rhaid i 0.2 ha fod yn rhandiroedd.

Mae hwn wedi'i lunio ar sail yr argymhellion a wnaed gan y Gymdeithas Randiroedd.

Hygyrchedd Darpariaeth

2. Dylai pawb fyw o fewn taith gerdded pum munud o⁵⁷...

a. Man Gwyrdd Hygyrch; a

Mae hyn yn unol â Siarter y Gymdeithas Mannau Agored. Er bod 300 m yn ddangosydd a ddefnyddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae CNC yn datgan, os defnyddir dull dadansoddi rhwydwaith, bod y glustogfa argymell 300 m yn ymestyn i 400 m. Mae hyn yn ystyried yr angen i'r cerddwr ddilyn y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau troed i gael mynediad i fannau gwyrdd, croesi strydoedd a mynd rownd corneli ac ati.

b. Man Chwarae.

Wrth adlewyrchu safonau hygyrchedd FIT ar gyfer lleoedd lleol â chyfarpar ar gyfer chwarae, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd gwneud amlinelliad pellach rhwng y mathau o fannau chwarae oherwydd diffyg tystiolaeth yn yr archwiliad. Fel y nodir o fewn y [CCA \(2016\)](#), ni ddylai unrhyw blentyn fyw ymhellach na 100 metr o le chwarae bach (h.y. man chwarae ar garreg y drws a lle chwarae lleol).

3. Dylai pawb sy'n byw mewn ardal breswyl fawr fod o fewn taith gerdded 15 munud⁵⁸ o gae chwarae.

Mae hyn yn debyg i'r 1.2 km a argymhellir yn TAN16. Yma mae 'ardal breswyl fawr' yn cyfeirio at yr aneddiadau hynny sydd â therfynau datblygu fel y'u diffinnir yn y CDLI diwygiedig (h.y. aneddiadau haen 1, 2, a 3).

4. Dylai pawb fyw o fewn...

- a. 2 km o fan gwyrdd naturiol hygyrch >20 ha**
- b. 5 km o fan gwyrdd naturiol hygyrch >100 ha**
- c. 10 km o fan gwyrdd naturiol hygyrch >500 ha**

Bydd y safonau hyn yn cael eu hasesu fel yr argymhellir gan CNC.

⁵⁷ Yn y cyd-destun hwn, ystyrir taith gerdded pum munud yn 400 m.

⁵⁸ 1,200 m

6. Canlyniadau

Er mai'r set ddata a ddefnyddiwyd oedd y gorau a oedd ar gael ar adeg cynnal yr asesiad hwn, mae'r dehongliad o'r canlyniadau canlynol yn dibynnu ar y cyfyngiadau hynny a amlinellwyd o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd (Adran 2.7) yn ogystal â natur newidiol darpariaethau mannau agored.

6.1. Safon 1

a. Man Chwarae

Mae Tabl 16 yn amlinellu canlyniadau'r asesiad o ddarpariaeth mannau chwarae fesul ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r safonau meincnod a amlinellir yn Adran 5.6. Nid oedd yr un ward yn bodloni'r safonau mabwysiedig presennol ar gyfer darparu mannau chwarae. Gogledd a De Tref Caerfyrddin sydd â'r diffyg gofodol mwyaf mewn mannau chwarae.

Tabl 16. Asesu safon 1(a). Mae'r rhai mewn coch yn dangos diffyg yn erbyn y safon o 0.8 ha fesul 1,000 o bobl. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Wardiau Etholiadol (2022)	Gofyniad Safonol (Ha)	Darpariaeth Bresennol (Ha)	Digonolrwydd (+/-) (Ha)
Abergwili	1.86	0.23	-1.63
Rhydaman	4.35	1.20	-3.15
Y Betws	1.92	0.48	-1.44
Bigyn	5.27	1.63	-3.64
Porth Tywyn	3.23	0.66	-2.57
Bynea	3.62	0.48	-3.13
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	7.29	0.50	-6.78
Gorllewin Tref Caerfyrddin	4.42	0.37	-4.05
Cenarth a Llangeler	4.44	0.61	-3.83
Cil-y-cwm	2.04	0.16	-1.88
Cwarter Bach*	2.28	2.02	-0.26
Cynwyl Elfed	1.82	0.52	-1.30
Dafen a Felinfoel	4.16	0.36	-3.79
Elli	1.59	0.00	-1.59
Y Garnant*	1.64	0.35	-1.29
Glanaman*	2.00	0.73	-1.27
Glan-y-môr	5.13	0.85	-4.28
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	1.73	0.35	-1.38
Gors-las	4.07	0.61	-3.46
Hendy	2.56	0.78	-1.78
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	3.45	0.23	-3.22

Ail Fersiwn Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Cydweli a Llanismel	4.04	0.56	-3.49
Lacharn*	2.07	0.68	-1.39
Llanboidy*	1.68	0.34	-1.33
Llanddarog	1.66	0.19	-1.47
Llandeilo*	2.37	0.44	-1.93
Llanymddyfri*	2.07	0.74	-1.33
Llandybïe*	3.51	0.45	-3.06
Llanegwad	1.96	0.23	-1.73
Llanfihangel Aberbythych	1.40	0.09	-1.31
Llanfihangel-ar-arth	2.22	0.36	-1.87
Llangadog*	1.55	0.11	-1.44
Llangennech	4.35	0.68	-3.67
Llangynnwr	2.10	0.03	-2.07
Llangyndeyrn	4.19	1.00	-3.20
Llan-non	4.29	0.72	-3.58
Llanybydder	2.23	0.22	-2.01
Lliedi	4.27	0.43	-3.84
Llwynhendy	3.51	0.94	-2.58
Maenordeilo a Salem	2.10	0.23	-1.87
Pen-bre	3.34	0.73	-2.61
Pen-y-groes	2.44	0.55	-1.90
Pontyberem	2.29	0.32	-1.97
Saron	3.41	0.34	-3.07
Sanclêr a Llansteffan	4.15	0.48	-3.68
Cwm Lliedi	1.98	0.08	-1.90
Tre-lech	2.18	0.45	-1.73
Trimsaran	2.00	0.49	-1.51
Tŷ-croes	2.15	0.28	-1.87
Tyisha	4.03	0.22	-3.81
Hendy-gwyn ar Daf	1.90	0.50	-1.40

b. Chwaraeon Awyr Agored

Mae Tabl 17 yn amlinellu canlyniadau'r asesiad o ddarpariaeth chwaraeon awyr agored fesul ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r safonau meincnod a amlinellir yn Adran 5.6. Dim ond ugain o wardiau a oedd yn bodloni'r safonau mabwysiedig presennol hyn. Gorllewin Tref Caerfyrddin a Tyisha sydd â'r diffyg gofodol mwyaf mewn Chwaraeon Awyr Agored.

Tabl 17. Aseu safon 1(b). Mae'r rhai mewn coch yn dangos diffyg yn erbyn y safon o 1.6 ha fesul 1,000 o bobl. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Wardiau Etholiadol (2022)	Gofyniad Safonol (Ha)	Darpariaeth Bresennol (Ha)	Digonolrwydd (+/-) (Ha)
Abergwili	3.73	0	-3.73
Rhydaman	8.70	17.93	9.23
Y Betws	3.84	1.87	-1.96
Bigyn	10.54	9.57	-0.97
Porth Tywyn	6.46	6.13	-0.33
Bynea	7.23	2.94	-4.29
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	14.58	19.53	4.95
Gorllewin Tref Caerfyrddin	8.83	1.22	-7.62
Cenarth a Llangeler	8.88	4.33	-4.55
Cil-y-cwm	4.08	1.39	-2.69
Cwarter Bach*	4.56	6.35	1.79
Cynwyl Elfed	3.64	2.45	-1.19
Dafen a Felinfoel	8.31	20.75	12.44
Elli	3.18	0.00	-3.18
Y Garnant*	3.28	4.24	0.96
Glanaman*	4.01	2.26	-1.75
Glan-y-môr	10.25	9.04	-1.22
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	3.46	4.03	0.57
Gors-las	8.13	3.84	-4.29
Hendy	5.13	1.64	-3.49
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	6.89	17.87	10.98
Cydweli a Llanismel	8.08	13.13	5.05
Lacharn*	4.14	6.23	2.09
Llanboidy*	3.36	0.00	-3.36
Llanddarog	3.31	2.10	-1.21
Llandeilo*	4.73	14.39	9.66
Llanymddyfri*	4.15	16.82	12.68
Llandybïe*	7.02	7.29	0.26

Ail Fersiwn Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Llanegwad	3.91	0.34	-3.57
Llanfihangel Aberbythych	2.80	0.18	-2.62
Llanfihangel-ar-arth	4.45	1.13	-3.32
Llangadog*	3.11	3.64	0.54
Llangennech	8.70	4.89	-3.81
Llangynnwyr	4.20	1.81	-2.39
Llangyndeyrn	8.38	5.11	-3.27
Llan-non	8.59	10.80	2.21
Llanybydder	4.46	1.81	-2.65
Lliedi	8.54	11.40	2.86
Llwynhendy	7.02	2.27	-4.75
Maenordeilo a Salem	4.20	0.13	-4.07
Pen-bre	6.68	18.37	11.69
Pen-y-groes	4.88	8.47	3.59
Pontyberem	4.58	6.22	1.64
Saron	6.82	3.24	-3.58
Sanclêr a Llansteffan	8.30	8.02	-0.28
Cwm Lliedi	3.95	0.00	-3.95
Tre-lech	4.37	2.80	-1.57
Trimsaran	4.00	8.20	4.20
Tŷ-croes	4.29	3.52	-0.77
Tyisha	8.07	3.15	-4.92
Hendy-gwyn ar Daf	3.81	5.75	1.94

c. Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch

Mae Tabl 18 yn amlinellu canlyniadau'r asesiad o ddarpariaeth mannau gwyrdd naturiol hygyrch fesul ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r safonau meincnod a amlinellir yn Adran 5.6. Dim ond 13 o wardiau sydd â diffyg mannau gwyrdd naturiol hygyrch.

Tabl 18. Asesu safon 1(c). Mae'r rhai mewn coch yn dangos diffyg yn erbyn y safon o 0.25 ha fesul 1,000 o bobl. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Wardiau Etholiadol (2022)	Gofyniad Safonol (Ha)	Darpariaeth Bresennol (Ha)	Digonolrwydd (+/-) (Ha)
Abergwili	0.58	1,171.76	1,171.18
Rhydaman	1.36	0	-1.36
Y Betws	0.60	162.06	161.46
Bigyn	1.65	0	-1.65
Porth Tywyn	1.01	3.77	2.76
Bynea	1.13	12.8	11.67
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	2.28	21.02	18.74
Gorllewin Tref Caerfyrddin	1.38	33.3	31.92
Cenarth a Llangeler	1.39	130.06	128.67
Cil-y-cwm	0.64	6,192.52	6,191.88
Cwarter Bach*	0.71	2,642.1	2,641.39
Cynwyl Elfed	0.57	185.4	184.83
Dafen a Felinfoel	1.30	0	-1.30
Elli	0.50	0	-0.50
Y Garnant*	0.51	783.67	783.16
Glanaman*	0.63	621.25	620.62
Glan-y-môr	1.60	6.24	4.64
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	0.54	0	-0.54
Gors-las	1.27	60.58	59.31
Hendy	0.80	0	-0.80
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	1.08	8.2	7.12
Cydwelli a Llanismel	1.26	15.17	13.91
Lacharn*	0.65	77.09	76.44
Llanboidy*	0.52	32.47	31.95
Llanddarog	0.52	176.3	175.78
Llandeilo*	0.74	632.84	632.10
Llanymddyfri*	0.65	2,876.46	2,875.81
Llandybïe*	1.10	56.66	55.56
Llanegwad	0.61	3,113.9	3,113.29
Llanfihangel Aberbythych	0.44	324.9	324.46

Ail Fersiwn Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Llanfihangel-ar-arth	0.70	1,532.12	1,531.43
Llangadog*	0.49	6,305.12	6,304.63
Llangennech	1.36	0.13	-1.23
Llangynnwr	0.66	4.24	3.58
Llangyndeyrn	1.31	161.53	160.22
Llan-non	1.34	12.69	11.35
Llanybydder	0.70	1,023.81	1,023.11
Lliedi	1.33	0	-1.33
Llwynhendy	1.10	0	-1.10
Maenordeilo a Salem	0.66	1,206.31	1,205.65
Pen-bre	1.04	81.96	80.92
Pen-y-groes	0.76	19.38	18.62
Pontyberem	0.72	0	-0.72
Saron	1.07	32.83	31.76
Sanclêr a Llansteffan	1.30	36.14	34.84
Cwm Lliedi	0.62	0	-0.62
Tre-lech	0.68	52.54	51.86
Trimsaran	0.63	3.62	3.00
Tŷ-croes	0.67	17.95	17.28
Tyisha	1.26	0	-1.26
Hendy-gwyn ar Daf	0.60	0.38	-0.22

d. Rhandiroedd

Mae Tabl 19 yn amlinellu canlyniadau'r asesiad o ddarpariaeth rhandiroedd fesul ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r safonau meincnod a amlinellir yn Adran 5.6. Dim ond dwy ward sydd â digon o ddarpariaeth rhandiroedd.

Tabl 19. Asesu safon 1(ch). Mae'r rhai mewn coch yn dangos diffyg yn erbyn y safon o 0.20 ha fesul 1,000 o bobl. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Wardiau Etholiadol (2022)	Gofyniad Safonol (Ha)	Darpariaeth Bresennol (Ha)	Digonolrwydd (+/-) (Ha)
Abergwili	0.47	0.00	-0.47
Rhydaman	1.09	0.53	-0.56
Y Betws	0.48	0.00	-0.48
Bigyn	1.32	0.41	-0.91
Porth Tywyn	0.81	0.00	-0.81
Bynea	0.90	0.00	-0.90
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	1.82	3.64	1.82
Gorllewin Tref Caerfyrddin	1.10	0.00	-1.10
Cenarth a Llangeler	1.11	0.00	-1.11
Cil-y-cwm	0.51	0.00	-0.51
Cwarter Bach*	0.57	0.00	-0.57
Cynwyl Elfed	0.45	0.00	-0.45
Dafen a Felinfoel	1.04	0.00	-1.04
Elli	0.40	0.00	-0.40
Y Garnant*	0.41	0.05	-0.36
Glanaman*	0.50	0.00	-0.50
Glan-y-môr	1.28	0.16	-1.12
Glyn (Sir Gaerfyrddin)	0.43	0.00	-0.43
Gors-las	1.02	0.00	-1.02
Hendy	0.64	0.00	-0.64
Hengoed (Sir Gaerfyrddin)	0.86	0.00	-0.86
Cydweli a Llanismel	1.01	0.38	-0.64
Lacharn*	0.52	0.00	-0.52
Llanboidy*	0.42	0.00	-0.42
Llanddarog	0.41	0.00	-0.41
Llandeilo*	0.59	1.27	0.68
Llanymddyfri*	0.52	0.00	-0.52
Llandybïe*	0.88	0.00	-0.88
Llanegwad	0.49	0.00	-0.49
Llanfihangel Aberbythych	0.35	0.00	-0.35


Ail Fersiwn Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Llanfihangel-ar-arth	0.56	0.00	-0.56
Llangadog*	0.39	0.00	-0.39
Llangennech	1.09	0.00	-1.09
Llangynnwr	0.53	0.00	-0.53
Llangyndeyrn	1.05	0.00	-1.05
Llan-non	1.07	0.59	-0.48
Llanybydder	0.56	0.00	-0.56
Lliedi	1.07	0.56	-0.50
Llwynhendy	0.88	0.24	-0.63
Maenordeilo a Salem	0.53	0.00	-0.53
Pen-bre	0.84	0.53	-0.31
Pen-y-groes	0.61	0.00	-0.61
Pontyberem	0.57	0.00	-0.57
Saron	0.85	0.00	-0.85
Sanclêr a Llansteffan	1.04	0.00	-1.04
Cwm Lliedi	0.49	0.00	-0.49
Tre-lech	0.55	0.00	-0.55
Trimsaran	0.50	0.00	-0.50
Tŷ-croes	0.54	0.00	-0.54
Tyisha	1.01	0.71	-0.30
Hendy-gwyn ar Daf	0.48	0.21	-0.26

6.2. Safon 2

a. Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch


Mae Ffigur 4 yn dangos yr ardal o'r Sir sydd o fewn taith gerdded pum munud i fan gwyrdd naturiol hygyrch. Mae 10.56% o'r holl gartrefi preswyl yn yr ardal hon (sy'n cyfateb i 9,632 o anheddau).



Ffigur 4. Asesu safon 2(a). Mae gwyrdd yn cynrychioli'r pellter cerdded pum munud o fan gwyrdd naturiol hygyrch.

b. Man Chwarae


Mae Ffigur 5 yn dangos yr ardal o'r Sir sydd o fewn taith gerdded pum munud i fan chwarae. Canfuwyd bod 38,051 o anheddau o fewn yr ardal hon, sef 41.73% o'r holl gartrefi preswyl.



Ffigur 5. Asesu safon 2(b). Mae melyn yn cynrychioli pellter cerdded pum munud o fan chwarae.

6.3. Safon 3

Mae Ffigur 6 yn dangos yr ardal o'r Sir sydd o fewn taith gerdded 15 munud i gae chwarae. Mae hyn yn cyfateb i 85.78% o'r holl gartrefi preswyl (78,216 o anheddau).



Ffigur 6. Asesu safon 3. Mae oren yn cynrychioli pellter cerdded 15 munud o gae chwarae.

6.4. Safon 4

Mae Tabl 20 yn dangos yr asesiad o'r safonau a argymhellir gan CNC ar gyfer hygyrchedd man gwyrdd naturiol hygyrch, yn amrywio yn ôl maint y ddarpariaeth gyffredinol. I grynhoi, nid oedd 19 o wardiau o fewn 2 km i safle >20 ha, 20 heb fod o fewn 5 km i >100 ha, a 21 heb fod o fewn 10 km i 500 ha – gyda sawl ward yn profi diffyg yn y tair safon a brofwyd. Roedd sawl achos lle roedd safle ychydig yn is na'r trothwy asesu (h.y. Parc Dinefwr Llandeilo ar 19.83 ha) a gallai asesiad ffiniau mwy cywir fod wedi arwain at gynnwys safleoedd o'r fath. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr asesiad, mae'n bwysig nodi bod y ffigurau hyn yn debygol o fod yn wahanol pe bai safleoedd man gwyrdd naturiol hygyrch y tu allan i ardal yr awdurdod cynllunio lleol yn cael eu cynnwys (yn enwedig ar gyfer y wardiau etholiadol preswyl/rhannu hynny o fewn 10 km i ffin y Sir).

Tabl 20. Asesu safon 4 (a,b,c). Mae'r rhai mewn coch yn dynodi diffyg absoliwt. * = Ward yn cael ei rhannu gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ward Etholiadol	O fewn 2 km i fan gwyrdd >20 ha		O fewn 5 km i fan gwyrdd > 100 ha		O fewn 10 km i fan gwyrdd > 500 ha	
	Cyfran y ward (%)	Arwynebedd (Ha)	Cyfran y ward (%)	Arwynebedd (Ha)	Cyfran y ward (%)	Arwynebedd (Ha)
Abergwili	61	3,807	88	5,504	100	6,285
Rhydaman	13	41	100	312	100	312
Y Betws	92	1,028	100	1,116	100	1,116
Bigyn	0	0	0	0	0	0

Ail Fersiwn Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Porth Tywyn	3	13	0	0	0	0
Bynea	0	0	0	0	0	0
Gogledd a De Tref Caerfyrddin	17	215	0	0	55	681
Gorllewin Tref Caerfyrddin	80	691	0	0	14	119
Cenarth a Llangeler	51	5,471	38	4,020	27	2,841
Cil-y-cwm	74	18,458	90	22,530	100	24,969
Cwarter Bach	100	3,204	100	3,204	100	3,204
Cynwyl Elfed	44	4,180	87	8,182	75	7,132
Dafen a Felinfoel	0	0	0	0	0	0
Elli	0	0	0	0	0	0
Garnant	100	1,520	100	1,520	100	1,520
Glanaman	100	1,229	100	1,229	100	1,229
Glan-y-môr	0	0	0	0	0	0
Glyn	0	0	0	0	0	0
Gors-las	77	1,266	100	1,655	46	767
Hendy	0	0	0	0	82	778
Hendy	0	0	0	0	0	0
Cydweli a St. Ishmael	0	0	0	0	0	0
Lacharn	17	1,731	0	0	0	0
Llanboidy	0	0	0	0	0	0
Llanddarog	72	3,191	96	4,292	27	1,195
Llandeilo	79	3,742	89	4,235	100	4,756
Llanymddyfri	88	10,280	100	11,620	100	11,620
Llandybïe	82	2,018	100	2,469	100	2,469
Llanegwad	68	10,187	97	14,457	100	14,834
Llanfihangel Aberbythych	30	1,482	71	3,534	95	4,710
Llanfihangel-ar-arth	99	8,812	87	7,795	100	8,931
Llangadog	91	17,609	100	19,323	100	19,323
Llangennech	0	0	0	0	1	8
Llangynnwr	0	0	14	318	24	571
Llangyndeyrn	25	2,007	9	705	0	0
Llan-non	1	23	20	772	46	1,763
Llanybydder	91	6,504	88	6,257	100	7,132
Lliedi	0	0	0	0	0	0
Llwynhendy	0	0	0	0	0	0
Maenordeilo a Salem	66	8,041	71	8,589	100	12,103
Pen-bre	53	1,987	0	0	0	0
Pen-y-groes	47	337	100	711	100	711
Pontyberem	37	499	19	250	0	0
Saron	0	0	96	945	100	988
Sanclêr a Llansteffan	10	893	0	0	0	0
Cwm Lliedi	0	0	0	0	0	0
Tre-lech	16	2,387	1	113	8	1,213
Trimsaran	13	262	0	0	0	0
Tŷ-croes	0	0	42	709	100	1,692
Tyisha	0	0	0	0	0	0
Hendy-gwyn ar Daf	0	0	0	0	0	0

7. Yr Argymhellion

7.1. Polisi Mannau Agored

Mae polisiâu canlynol y CDLI (2006-2021) wedi'u darparu isod i roi'r cyd-destun, gan y bydd mabwysiadu'r CDLI diwygiedig yn disodli'r rhain i bob pwrpas.

Polisi REC1 Gwarchod Mannau Agored

Gwneir darpariaeth i warchod a, lle bynnag y bo modd, gwella mynediad i fannau agored.

Ni fydd cynigion a fydd yn arwain at golli mannau agored sy'n bodoli eisoes yn cael eu caniatáu ond:

- a. Os dangosir bod yna ddarpariaeth o werth cyfartal o leiaf ar gael yn yr anheddiad neu, lle bo'n berthnasol, y gymuned gynaliadwy, mewn man hygrych; ac
- b. Os dangosir bod yr angen am y cyfleuster wedi darford; ac
- c. Os nad yw diffyg mannau agored yn cael ei greu trwy ei golli; neu
- d. Pe bai ailddatblygu rhan fach o'r safle'n caniatáu ar gyfer cadw a gwella'r cyfleuster.

Polisi REC2 Darparu Mannau Agored a Datblygiadau Newydd

Bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl newydd o bump neu ragor o unedau ddarparu man agored ar y safle yn unol â safonau mabwysiedig y Cyngor, sef 2.4ha i bob 1000 o bobl.

Pe na bai modd bodloni'r safonau uchod ar y safle, neu os oes digon o ddarpariaeth ar gael eisoes i wasanaethu'r datblygiad, yna byddir yn gofyn am gyfraniadau ariannol oddi ar y safle fel bo'n briodol.

Polisi REC3 Mannau Agored Newydd Arfaethedig

Gwneir darpariaeth ar gyfer cynigion o ran mannau agored newydd yn y lleoliadau canlynol fel y'u dangosir ar y map cynigion:

Cyf. y. Safle Lleoliad
POS1 I'r de o Picton Terrace, Caerfyrddin
POS2 Tir y tu cefn i Ysgol Gyfun Rhydaman
POS3 Tir y tu cefn i Heol yr Orsaf, Sanclêr
POS4 Tir yn Dylan, Trallwm, Llanell

Cynigiwyd y geiriad canlynol ym mholisiâu'r CDLI diwygiedig (2018-33) (fersiwn adneuo cyntaf).

PSD7: Diogelu Mannau Agored

Bydd darpariaeth yn cael ei gwneud i ddiogelu mannau agored a, lle bo'n bosibl, i wella'u hygyrchedd.

Bydd cynigion sy'n arwain at golli mannau agored presennol yn cael eu caniatáu dim ond dan yr amgylchiadau canlynol:

- a. Os dangosir bod darpariaeth sydd o leiaf o werth cyfatebol ar gael o fewn yr anheddiad, neu leoliad sy'n ddigon hygyrch; a,
- b. Lle na fyddai'n achosi nac yn gwaethygu diffyg mannau agored; neu,
- c. Lle byddai ail-ddatblygu rhan fach o'r safle yn ei gwneud yn bosibl cadw a gwella'r rhan fwyaf o'r cyfleuster; neu,
- d. Lle mae cyfraniad ariannol boddhaol at ddarpariaeth gydbwyso yn cael ei ddarparu fel cyfleuster arall derbynol.

PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd

Bydd angen i bob datblygiad preswyl newydd â 5 neu fwy o dai gyfrannu at fannau agored yn unol â safonau mannau agored y Cyngor.

Os na ellir bodloni'r safonau ar y safle, neu os oes digon o ddarpariaeth bresennol eisoes ar gael i wasanaethu'r datblygiad, yna gwneir cais am swm cyfnewid lle y bo'n briodol.

Er eglurder, cynhaliwyd y POSA hwn yn ystod yr ymgynghoriad ar yr ail CDLI diwygiedig (ond fe'i cwblhawyd wedi hynny). Cyfeiriwch at yr OSA blaenorol a gynhaliwyd yn 2019 i gael sylwebaeth sy'n llywio fersiwn adneuo cyntaf y CDLI diwygiedig yn benodol.

Dylai polisiâu geisio diogelu mannau agored i sicrhau eu bod yn gallu parhau i roi gwerth a defnydd i'r gymuned, hyd yn oed mewn ardaloedd lle nodir bod yna ormodedd. Mewn ardaloedd o ddiffyg, mae'n bwysig bod y broses o greu mannau newydd yn cael ei hannog yn ogystal â diogelu mannau sy'n bodoli eisoes. Dylid gwneud iawn am unrhyw golledion drwy gymryd camau lliniaru mewn mannau eraill.

Gan nad yw PSD8 yn cadw at y safon pum cartref a argymhellir yn y safonau FIT ar gyfer darparu mannau chwarae, argymhellir y dylai fod angen cyfraniadau cynllunio cysylltiedig o ran mannau agored ar gyfer pump (yn lle deg) neu fwy o gartrefi⁵⁹.

⁵⁹ Mae argymhelliad polisi eisoes wedi'i gynnwys yn ail fersiwn adneuo PSD8.

Byddai eglurhad pellach drwy Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) o fudd i'r ddau bolisi hyn. Yn y testun cymorth, gellir cyfeirio hefyd at CCA perthnasol eraill, gan gynnwys Rhwymedigaethau Cynllunio, Llundio Lleoedd a Dylunio Cynaliadwy, yn ogystal â'r rheiny sy'n ymwneud â chadwraeth natur a bioamrywiaeth.

7.2. Asesu Safle (Dyraniadau'r CDLI)

Mae'r wybodaeth a nodir yn yr adran hon gyda'i gilydd wedi llywio'r asesiad o ddyraniadau safle'r CDLI (gweler cwestiwn 14 yn y Fethodoleg Asesu Safle⁶⁰).

O'r 187 dyraniad sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI adneuo, mae 40 o fewn 5 munud ar droed i fan chwarae ac mae 147 o fewn 15 munud ar droed i gae chwarae. Fodd bynnag, pan fydd darpariaethau presennol y ward yn cael eu hystyried, dim ond 73 o ddyraniadau sydd o fewn 15 munud ar droed i gae chwarae sydd â digon o le. Nid oes yr un o fewn ward sydd â digon o le chwarae (Tabl 21).

Dim ond saith dyraniad oedd o fewn 5 munud ar droed i Fannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch (ANGS) (PrC1/h12, SuV27/h1, SeC13/h1, SeC14/h1, SuV61/h1, PrC3/h26, PrC3/h24).

Ni fydd gan 34 dyraniad arfaethedig fynediad at fannau agored, heb ystyried capasiti'r ward (naill ai o fewn 5 munud ar droed i fan chwarae neu o fewn 15 munud ar droed i gae chwarae). Y dyraniadau hynny yw: SuV1/h1, PrC1/h18, SuV14/h1, SuV19/h2, SuV11/h1, SuV5/h1, SuV18/h1, SeC1/h7, SuV19/h1, SuV17/h1, SuV10/h1, PrC2/h23, SeC8/h1, SeC8/h3, PrC2/h25, SeC7/h5, PrC3/h34, SeC11/h2, SuV25/h1, PrC3/h25, SuV26/h1, SuV43/h1, SuV39/h1, SuV41/h2, SuV33/h1, SeC12/h3, SuV36/h1, SeC5/h2, SuV61/h1, SuV55/h2, SuV55/h1, SuV56/h1, SuV59/h1, SuV59/h2.

⁶⁰ Tudalen 15 o'r Fethodoleg Asesu Safle Medi 2022, "C14. A oes gan y safle fynediad at fannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden sydd o fewn pellter rhesymol?"

Tabl 21. Trosolwg o ddyraniadau, mynediad a'u heffaith ar ddarpariaeth mannau agored presennol. Y= Oes, N=Nacoës.

			Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
Clwstwr 1								
PrC1/h3	113 Heol Y Prior	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SuV10/h2	Aberdeuddwr / Pantyfedwen	Peniel	N	-	Y	Y	N	Y
PrC1/h15	Gerllaw Tyle Teg, Heol Llysonnen	Caerfyrddin	N	-	Y	Y	N	Y
PrC1/h14	Heol Bronwydd (De)	Caerfyrddin	N	-	Y	Y	N	Y
PrC1/h10	Brynhyfryd	Caerfyrddin	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC1/h12	Heol Castell Pigyn, Abergwili	Caerfyrddin	N	-	Y	Y	N	Y
SuV1/h2	Tir gerllaw Lleine	Cynwyl Elfed	N	-	Y	Y	N	Y
PrC1/h19	Tir gerllaw Ty Gwynfa	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SeC1/h3	Tir cyfagos Capel Tabernacle	Pontyates	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SuV3/h1	Tir y tu cefn i Maesgriffith	Llansteffan	Y	N	Y	Y	N	Y
SeC1/h1	Lime Grove	Pontyates	Y	N	Y	Y	N	Y
SuV16/h1	Heol Llwynddewi	Capel Dewi	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
PrC1/h7	Fferm Penybont, Heol Llysonnen	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
PrC1/h11	Rhiw Babell	Caerfyrddin	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC1/h17	Stryd y Cei	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC1/h20	5-8 Heol Spilman	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV1/h1	Gerllaw Fron Heulog	Cynwyl Elfed	N	-	Y	N	-	Y
SuV12/h1	Gerllaw Gwyn Villa	Llanpumsaint	Y	N	Y	N	-	Y
SeC1/h4	Cae Canfas, Heol Llanelli	Pontyates	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
Sec2/h1	Llys Caradog	Ferryside	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC1/h18	Castell Howell	Caerfyrddin	N	-	Y	N	-	Y
SuV14/h1	Fferm Cefn	Rhydargaeau	N	-	Y	N	-	Y
PrC1/h21	Clos Tawelan	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC1/h5	Dwyrain o Rhodfa Deveraux	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y

			Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
SuV19/h2	Tir gerllaw a ti cefn i Haulfan	Llanddarog	N	-	Y	N	-	Y
SuV20/h1	Tir gerllaw Fferm Llwynhenry	Porthyrhyd	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC1/h5	Tir yn 8 Heol Llanelli	Pontyates	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV11/h1	Tir ar Ysgol Alltwalis	Alltwalis	N	-	Y	N	-	Y
SuV5/h1	Tir ym Maesglasnant	Cwmmffrwd	N	-	Y	N	-	Y
SuV4/h1	Tir yn Fferm Troed Rhiw	Bronwydd	Y	N	Y	N	-	Y
SuV18/h1	Tir gerllaw A40, Pontargothi	Pontargothi	N	-	Y	N	-	Y
SeC1/h7	Tir cyfagos Heol Glyndwr	Pontyates	N	-	Y	N	-	Y
SeC1/h6	Tir yn Heol Llanelli	Pontyates	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC1/h4	Tir gerllaw Parc y Delyn	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV19/h1	Tir gyferbyn a Neuadd y Pentref	Llanddarog	N	-	Y	N	-	Y
Sec2/h2	Tir y tu cefn i Parc y Ffynnon	Ferryside	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV15/h1	Ysgol Llanarthne	Llanarthne	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV12/h2	Llandre	Llanpumsaint	Y	N	Y	N	-	Y
PrC1/h8	Heol Llansteffan	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC1/h9	Mounthill	Caerfyrddin	Y	N	Y	N	-	Y
SuV17/h1	Y Tu ol i hen saerniaeth, Ffordd yr Orsaf	Nantgaredig	N	-	Y	N	-	Y
PrC1/h11	Estyniad Rhiw Babell	Caerfyrddin	Y	N	Y	N	-	Y
SuV8/h1	De o Dol Y Dderwen	Llangain	Y	N	Y	N	-	Y
SuV10/h1	De o Pentre	Peniel	N	-	Y	N	-	Y
PrC1/h2	Heol Springfield	Caerfyrddin	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
Clwstwr 2								
SeC8/h2	Cae Linda	Trimsaran	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SeC3/h4	Cyn Iard Dinas	Kidwelly	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
PrC2/h2	Cyn-labordy Lon Pen-y-fai	Llanelli (Furnace)	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
PrC2/h19	Genwen, Bryn	Llanelli (Bryn)	Y	N	Y	Y	N	Y
SeC6/h1	Llwyngwern	Hendy	Y	N	Y	Y	N	Y

Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
			Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
PrC2/h4	Doc y Gogledd	Llanelli	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC2/h16	Ynys Las, Cefncaeau	Llanelli (Llwynhendy)	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC2/h6	107 Heol yr Orsaf	Llanelli	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h7	13-15 Heol yr Orsaf	Llanelli	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h9	3-5 Heol Goring	Llanelli	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC2/h27	42 Heol Stepney	Llanelli	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC5/h2	Awel y Mynydd	Pembrey	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC2/h1	Beech Grove, Pwll	Llanelli (Pwll)	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC7/h1	Fferm Bocs	Llangennech	Y	N	Y	N	-	Y
SeC4/h2	Ochr yr Harbwr, Porth Tywyn	Burry Port	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h24	Clos Ffordd Fach	Llanelli (Llwynhendy)	Y	N	Y	N	-	Y
SuV23/h1	Clos y Parc	Five Roads	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC6/h3	Coed y Bronallt	Hendy	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h22	Cwm y Nant, Dafen	Llanelli (Dafen)	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h23	Porth Dwyrain Dafen	Llanelli (Dafen)	N	-	Y	N	-	Y
PrC2/h18	Dylan, Trallwm	Llanelli (Trallwm)	Y	N	Y	N	-	Y
SeC8/h1	Ffos Las	Carway	N	-	Y	N	-	Y
SeC5/h1	Garreglwyd	Pembrey	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC4/h3	Teras Glanmor	Burry Port	Y	N	Y	N	-	Y
SeC8/h3	Golwg Gwendraeth	Carway	N	-	Y	N	-	Y
SeC7/h3	Golwg Yr Afon	Llangennech	Y	N	Y	N	-	Y
SeC4/h1	Cwrt Gwdig	Burry port	Y	N	Y	N	-	Y
SuV22/h1	Gerddi Gwenllian	Mynyddygarreg	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC2/h20	Harddfan, Bryn	Llanelli (Bryn)	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h28	Heol Y Graig, Llwynhendy	Llanelli (Llwynhendy)	Y	N	Y	N	-	Y
SuV23/h2	Tir gerllaw Little Croft	Five Roads	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC2/h10	Tir gerllaw Y Dell, Ffwrnes	Llanelli (Furnace)	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y

Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
			Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
PrC2/h26	Tir gerllaw 19 Heol Llwynhendy	Llanelli	Y	N	Y	N	-	Y
SeC6/h4	Tir gerllaw i Clos Benallt Fawr, Fforest	Fforest	Y	N	Y	N	-	Y
SuV22/h2	Tir gerllaw i Ty Newydd, Heol Meinciau	Mynyddygarreg	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC6/h2	Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Broanllt	Hendy	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h25	Tir gerllaw Clos-y-Berllan	Llanelli (Bryn)	N	-	Y	N	-	Y
PrC2/h13	Tir oddi ar Teras Frondeg	Llanelli	Y	N	Y	N	-	Y
SeC3/h2	Tir oddi ar Stryd	Kidwelly	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC3/h3	Llys Felin	Kidwelly	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC2/h12	Llys yr Hen Felin, Canol Tref	Llanelli	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h21	Maes Y Bryn, Bryn	Llanelli (Bryn)	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h15	Maesarddafen Road / Erw Las, Llwynhendy	Llanelli (Llwynhendy)	Y	N	Y	N	-	Y
SeC7/h5	Maesydderwen	Llangennech	N	-	Y	N	-	Y
SeC7/h4	Gyferbyn Parc Morlais	Llangennech	Y	N	Y	N	-	Y
PrC2/h3	Parc y Strade	Llanelli	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC2/h14	Cefn i 22c,22d a 22e Heol Llwynhendy	Llanelli (Llwynhendy)	Y	N	Y	N	-	Y
Clwstwr 3								
SeC10/h2	Gerllaw Rhif 13 Heol Y Coroni	Garnant	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SuV30/h1	Gerllaw Pant y Brwyn	Ystradowen	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SuV22/h2	Tir gerllaw i Ty Newydd	Carmel	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC3/h6	Tir gerllaw Maes Ifan, Heol Maesquarre	Ammanford (Betws)	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC3/h31	Tir yn Fforest Fach	Tycroes	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC3/h23	Tir ar Heol Waterloo	Penygroes	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC3/h32	Tir De o Heol Ty-croes	Tycroes	Y	N	Y	Y	N	Y
PrC3/h5	Yr Hen Felin, Heol Pontamman	Ammanford	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
PrC3/h22	Tir oddi ar Pant Y Blodau	Penygroes	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV28/h1	Gerllaw Coed y Cadno	Cwmgwili	Y	N	Y	N	-	Y
PrC3/h36	Glofa Betws	Ammanford (Betws)	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y

Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
			Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
PrC3/h29	Garej Central	Tumble	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h37	Clos Felingod	Llandybie	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h35	Clos Penpont	Penygroes	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h34	Clos y Gat	Castell yr Rhingyll	N	-	Y	N	-	Y
PrC3/h11	Ffordd y Neuadd a Clos yr Eithin	Cross Hands	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h2	Cyn Orsaf Betrol, Stry-y-Gwynt	Ammanford	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC10/h1	Ysgol Garnant, Heol Ysgol Newydd	Garnant	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC9/h2	Heol Gelynen	Brynamman	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h18	Tir gerllaw Brynlluan	Gorslas	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h9	Tir gerllaw Maesyrhaf	Cross Hands	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h12	Tir cyfagos i A48 a Heol y Parc	Cross Hands	Y	N	Y	N	-	Y
PrC3/h28	Tir ar safle'r ffatri rhwng Rhif 22 & 28 Heol Bethesda	Tumble	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC11/h2	Tir yn Ffynnon Fach	Bancffosfelen	N	-	Y	N	-	Y
PrC3/h3	Tir yn Gwynfryn Fawr	Ammanford	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h13	Tir yn Heol Cae Pownd	Cross Hands	Y	N	Y	N	-	Y
PrC3/h1	Tir i'r cefn o 16-20 & 24-30 Heol Betws	Ammanford (Betws)	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h24	Tir rhwng 123 a 137 Heol Waterloo	Penygroes	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV25/h1	Tir i'r Gogledd o Clos Rebecca	Llannon	N	-	Y	N	-	Y
PrC3/h20	Tir i'r Gogledd o Maespiode	Llandybie	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h25	Tir oddi ar Heol Y Gat	Penygroes	N	-	Y	N	-	Y
PrC3/h15	Tir oddi ar Heol Caegwyn	Drefach	Y	N	Y	N	-	Y
SeC11/h1	Tir yn Heol Llannon	Pontyberem	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h8	Tir oddi ar Heol y Parc	Cefneithin	Y	N	Y	N	-	Y
PrC3/h19	Tir oddi ar Llys y Nant	Llandybie	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h27	Tir oddi ar Nant-y-Ci	Saron	Y	N	Y	N	-	Y
PrC3/h26	Tir oddi ar Parc-y-Mynydd	Saron	Y	N	Y	N	-	Y

Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
			Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
PrC3/h33	Llys Dolgader	Ammanford	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h20	Maespiode	Llandybie	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h14	Nantydderwen	Drefach	Y	N	Y	N	-	Y
SuV26/h1	Tir i'r cefn o Garreg Lwyd	Llanedi	N	-	Y	N	-	Y
PrC3/h4	Fferm Tirychen	Ammanford	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
PrC3/h16	Uwch Gwendraeth	Drefach	Y	N	Y	N	-	Y
Clwstwr 4								
SuV43/h1	Blossom Inn	New Inn	N	-	Y	Y	N	Y
SeC13/h4	Bro Einon	Llanybydder	Y	N	Y	Y	N	Y
SeC12/h2	Heol Dewi	Newcastle Emlyn	Y	N	Y	Y	N	Y
SuV37/h3	Tir gerllaw i Lleinau	Cwmann	Y	N	Y	Y	N	Y
SuV37/h2	Tir i'r De o Cae Coedmor	Cwmann	Y	N	Y	Y	N	Y
SeC13/h1	Gerllaw Y Neuadd	Llanybydder	Y	N	Y	N	-	Y
SuV39/h1	Tir gerllaw Yr Hendre	Llanfihangel ar Arth	N	-	Y	N	-	Y
SeC14/h1	Garej Blossom	Pencader	Y	N	Y	N	-	Y
SuV41/h2	Cilgwyn Bach	Pontyweli	N	-	Y	N	-	Y
SuV35/h1	Tir gerllaw Arwynfa	Saron	Y	N	Y	N	-	Y
SeC14/h2	Tir gerllaw Maescader	Pencader	Y	N	Y	N	-	Y
SuV36/h2	Tir yn Bryndulais	Llanllwni	Y	N	Y	N	-	Y
SuV33/h1	Tir gyferbyn Brogeler	Llangeler	N	-	Y	N	-	Y
SeC12/h3	Tir y tu cefn i Dolcoed	Newcastle Emlyn	N	-	Y	N	-	Y
PrC2/h21	Maes y Bryn	Capel Iwan	Y	N	Y	N	-	Y
SuV32/h1	Gerllaw Springfield	Waungilwen	Y	N	Y	N	-	Y
SeC12/h1	Trem Y Ddol	Newcastle Emlyn	Y	N	Y	N	-	Y
SuV36/h1	Cae Pensarn Helen	Llanllwni	N	-	Y	N	-	Y
Clwstwr 5								
SeC17/h3	Ger yr Ysgol	Llangadog	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y

Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
			Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
SeC17/h2	Tir ger Heol Pendref	Llangadog	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SeC5/h2	Awel Y Mynydd	Llanfynydd	N	-	Y	N	-	Y
SeC15/h2	Tir gerllaw Bryndeilog, Tywi Avenue	Llandovery	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC17/h1	Tir gyferbyn a Ysgol Gynradd Llangadog	Llangadog	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC15/h1	Tir i'r Gogledd o Dan Y Crug	Llandovery	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC16/h1	Gogledd Chwarter Llandeilo	Llandeilo	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV51/h1	Tir gyferbyn Neuadd y Pentref	Cwmifor	Y	N	Y	N	-	Y
Clwstwr 6								
SeC20/h2	Gerllaw Ysgol Gynradd Lacharn	Laugharne	Y	Y	Annhebygol	Y	N	Y
SeC18/h7	Tir gerllaw i Cae Gardde	St. Clears	Y	N	Y	Y	N	Y
SeC18/h2	Cyn Fatri Menyn	St. Clears	Y	N	Y	Y	N	Y
SuV58/h1	Tir gerllaw a y tu cefn i Lon Dewi	Meidrim	Y	N	Y	Y	N	Y
SeC18/h1	Tir gerllaw i Teras Britania	St. Clears	Y	N	Y	N	-	Y
SeC19/h3	Gerddi Lingfield	Whitland	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC18/h3	Tir gerllaw i Cefn Maes	St. Clears	Y	N	Y	N	-	Y
SeC18/h5	Tir gerllaw i Gwynfa, Heol yr Orsaf	St. Clears	Y	N	Y	N	-	Y
SeC18/h8	Tir yn Cae Glas	St. Clears	Y	N	Y	N	-	Y
SuV60/h1	Tir yn College-bach	Llangynog	N	-	Y	N	-	Y
SeC18/h4	Tir yn Heol Llaindelyn	St. Clears	Y	N	Y	N	-	Y
SuV61/h1	Tir yn Fferm Nieuport	Pendine	N	-	Y	N	-	Y
SeC19/h1	Tir yn Park View, Trevaughan	Whitland	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC19/h2	Tir yn Hufenfa Hendy-gwyn	Whitland	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV63/h1	Tir yn Woodend	Llanmiloe	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC20/h3	Tir oddi ar Stryd Clifton	Laugharne	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SuV58/h2	Tir oddi ar Heol Drefach	Meidrim	Y	N	Y	N	-	Y
SuV55/h2	Tir i'r Gogledd o Tafarn Cross Inn	Glandy Cross	N	-	Y	N	-	Y
SuV55/h1	Tir y tu cefn i Maesglas	Glandy Cross	N	-	Y	N	-	Y

			Chwaraeon Awyr Agored (Cae Chwarae)			Man Chwarae		
Cyf. Safle	Enw	Anheddiad	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?	Mynediad?	Capasiti'r Ward	Diffyg wedi'i greu/gwaethygu?
SeC18/h6	Tir y tu cefn i Heol yr Orsaf	St. Clears	Y	N	Y	N	-	Y
SuV56/h1	Tir y tu cefn i Talar-wen	Efailwen	N	-	Y	N	-	Y
SeC18/h9	Tir i'r Gorllewin o Stryd Fawr	St. Clears	Y	N	Y	N	-	Y
SuV59/h1	Maes y Llewod	Bancyfelin	N	-	Y	N	-	Y
SuV59/h2	Gogledd i Maes y Llewod	Bancyfelin	N	-	Y	N	-	Y
SeC19/h4	Parc y Dressig	Whitland	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y
SeC20/h1	Pludds Meadow	Laugharne	Y	Y	Annhebygol	N	-	Y

7.3. Lluio Safonau Mannau Agored Lleol

Gwelir bod anghyfartaledd gofodol tir comin rhwng gogledd a de'r sir yn gwyro'r asesiad o Fannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch (ANGS) yn sylweddol. Er na ddylid anghofio am ddefnyddioldeb safle o'r fath, efallai y bydd safonau o hyn ymlaen (os bwriedir eu cymhwyso ar lefel prosiect) yn dymuno ystyried categori mwy hyblyg sy'n cynnwys nodweddion gwyrdd hygyrch eraill, yn enwedig y rheiny ar raddfa lai ac mewn amgylchedd trefol. Er mai cyfran fach o'r cymysgedd safonol o fannau agored yn gyffredinol yw hyn, awgrymwyd yn bwrpasol y dylai hygyrchedd ar gyfer y rhain, "*Ile bynnag y bo modd*", annog integreiddio ochr yn ochr â darpariaethau eraill i hybu'n well fannau amlswyddogaethol sy'n gwasanaethu ystod ehangach o anghenion amwynder.

Wrth gyfeirio at yr uchod, dylid parhau i ystyried y safonau ar gyfer ANGS a argymhellir gan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a welir mewn mannau gwyrdd mwy (+20ha). Serch hynny, nid yw'r rôl y gallai'r system gynllunio (h.y. cyfraniadau datblygwyr tuag at ANGS ar raddfa fawr) ei chael wrth gynorthwyo i ddarparu'r rhain yn cael ei harfer yn dda hyd yma.

Mae'r safonau mabwysiedig presennol ar gyfer chwaraeon awyr agored a mannau chwarae yn parhau i fod yn uchelgeisiol. Nid argymhellir unrhyw newidiadau pellach i nifer y categorïau mannau agored hyn, a dylai'r rhain barhau i fod yn wrthrychol o ran cynnig darpariaeth. Serch hynny, cynigir y dylai safonau hygyrchedd o hyn ymlaen fod yn unol â safonau FIT i sicrhau amrywiaeth o ddarpariaeth chwarae sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau. Yn gyntaf, mae angen gwaith archwilio ychwanegol i wahaniaethu rhwng y mathau o fannau chwarae, er mwyn asesu maint a hygyrchedd y ddarpariaeth yn unol â'r argymhellion penodol hyn. Dylid cynnwys gofynion pellach o ran cael mynediad at gaeau chwarae hefyd, fel yr awgrymir yn TAN16.

Mae'r asesiad o randiroedd yn ymddangos yn rhy gul o ran ei gwmpas ac nid yw'r fath fanyleb yn cyd-fynd â'r egwyddor o fod yn amlswyddogaethol (thema gyffredin a hyrwyddir o fewn y CDLI diwygiedig ac egwyddorion llunio lleoedd) na swyddogaeth/defnydd gwirioneddol mannau ar lawr gwlad. Gall cynnwys asedau mannau agored eraill (yn enwedig y rhai a geir mewn amwynderau ffurfiol, fel gerddi cymunedol a pherllannau) ehangu'r mathau o fannau agored sy'n gymwys i gwrdd ag unrhyw safonau o hyn ymlaen (os cânt eu mabwysiadu). Felly, gellid ystyried ymhellach gategori mwy cynhwysol, sef '*Mannau Tyfu Cymunedol*'. Yn debyg i randiroedd, nid oes meincnod hygyrchedd safonol ar gyfer mannau o'r fath – er y byddai angen gwneud y penderfyniad hwn yn strategol, byddai o leiaf un ddarpariaeth fesul ardal breswyl fawr yn ymddangos yn fan cychwyn rhesymegol⁶¹.

Wrth hybu dull cyfannol o ran penderfynu ar ddigonolrwydd darpariaeth a meincnodi'r gofyniad o ran uchelgeisiau mannau agored yn y dyfodol, argymhellir y safonau Mannau Agored canlynol ar gyfer Sir Gaerfyrddin (Tabl 22). Dylid nodi nad yw'r safonau hyn yn gynhwysfawr o ystyried teipolegau a diffiniadau amrywiol mannau agored. Fodd bynnag, er

⁶¹ Gyda ffocws arbennig ar yr ardaloedd hynny sydd â rhestrau aros hir.

eu bod yn cynnwys y rhai yr oedd y Cyngor wedi eu mabwysiadu o'r blaen, maent wedi cael eu hehangu i gynnwys dau gategori ychwanegol o ystyried pa mor gynhwysfawr ydynt (o ran darparu buddion iechyd a llesiant a hybu datblygu cynaliadwy) a'u natur gwmpasol, sy'n sicrhau yn lleol y gellir bodloni defnyddwyr ag ystod o anghenion, galluoedd a diddordebau mewn ffordd briodol. Yn y pen draw, bydd y newidiadau a gynigir i'r safonau presennol o gymorth pellach i weithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o fewn y cyddestun cynllunio.

Tabl 22. Safonau a argymhellir o ran darpariaeth a hygyrchedd mannau agored cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin. Pan gânt eu hystyried gyda'i gilydd, mae'r safonau hyn yn helpu i asesu'r capasiti o ran darpariaethau mannau agored presennol i hwyluso chwarae, ymarfer corff, dysgu, cymdeithasu, tyfu a chysylltu yn yr awyr agored (heb unrhyw drefn hierarchaidd) ymhlith unigolion a chymunedau.

Categori Mannau Agored	Safon - Nifer		Safon - Hygyrchedd
	Fesul 1000 o bobl (ha)	Fesul person (m2)	
Mannau Gwyrdd Hygyrch	0.25	2.5	Lle bynnag y bo'n bosibl
Mannau Chwarae	0.8	8	LAP: 1½ munud ar droed (100m) LEAP: 5 munud ar droed (400m) NEAP: 12½ munud ar droed (1,000m)
Chwaraeon awyr agored	1.6	16	Meysydd chwarae: 15 munud ar droed (1,200m)
Man Tyfu Cymunedol	0.2	2	-

Er y nodir yn wahanol ym mharagraff 11.327 o destun polisi ategol PSD8 (yr ail fersiwn adneuo), cynghorir bod y safonau hyn yn cael eu mabwysiadu, yn hytrach, fel rhan o'r CDLI, drwy ganllawiau cynllunio atodol perthnasol (h.y. yn dilyn adolygiad gan y Cyngor ac ymgynghoriad cyhoeddus). Fodd bynnag, dylid parhau i gydnabod y gallai unrhyw ofyniad cymhwysol o ran darparu mannau agored ychwanegol arwain at ganlyniadau annymunol, pa un ai drwy integreiddio'r safon i ofynion cynllunio a/neu ei chyflawni drwy ddulliau eraill, fel ymateb strategol, ymateb gan randdeiliaid neu ymateb wedi'i lywio gan y gymuned. Gallai'r rhain gynnwys ymledu trefol, eiddo/gerddi preifat llai, a hyfywedd ariannol (gan gynnwys effeithiau ar dai fforddiadwy) (yn enwedig o'u cyfuno â nifer o ffactorau eraill). Felly, dylid cynnal gwaith monitro rheolaidd ac adolygu'r safonau wedi hynny. Serch hynny, rhaid peidio â thanbrizio angen pobl am gyfleoedd hamdden digonol, sef ffactor pwysig o ran sicrhau datblygu cynaliadwy.

8. Casgliad

Datgelwyd drwy archwilio fod gan Sir Gaerfyrddin gyfran uchel o fannau agored cyhoeddus. Wrth benderfynu ynghylch digonolrwydd y categorïau penodol o ddarpariaeth mannau agored, canfuwyd bod 20 ward etholiadol yn bodloni'r safonau mabwysiedig presennol ar gyfer chwaraeon awyr agored ac nad oedd unrhyw ward yn bodloni'r safonau mabwysiedig ar gyfer darpariaeth mannau chwarae. Serch hynny, canfuwyd bod tua 86% o'r holl gartrefi preswyl presennol o fewn 15 munud ar droed i gae chwarae, a bod tua 42% o fewn pum munud ar droed i fan chwarae. Mae dyraniadau arfaethedig y CDLI diwygiedig yn debygol o waethygu'r diffyg presennol o ran mannau chwarae, a byddai 114 (allan o 187) hefyd yn arwain at ddiffyg darpariaeth chwaraeon awyr agored. Dylid edrych ar y canlyniadau hyn mewn modd cyfannol a bydd angen holi ymhellach ar lefel prosiect.

Y Camau Nesaf

Mae'r awgrymiadau yngylch fersiwn o'r corff hwn o waith yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- Mae profi drwy arsylwi uniongyrchol yn well i sicrhau gwell cywirdeb a dilysrwydd o ran yr archwiliad. Dylid gwneud hyn ar y cyd â diweddariadau rheolaidd i'r gronfa ddata mannau agored;
- Asesiad manwl o ansawdd y ddarpariaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod yr asesiad o'r safonau yn ystyried darpariaethau swyddogaethol yn unig ac, yn ystod y broses o weithredu o hyn ymlaen, gallai gwybodaeth o'r fath helpu i lywio'r broses o gyflawni gwaith adferol. Yn y cyfamser, dylid parhau i fynd i'r afael â materion o ran ansawdd darpariaeth ar lefel y cais cynllunio;
- Ar ôl archwilio ansawdd y safle, dylid cynnal asesiad ychwanegol o ansawdd yn unol â safonau a berchir, a holi ymhellach ar lefel anheddiad; a
- Dylid ymgynghori â rhanddeiliaid i sicrhau bod y safonau yn bodloni'r gofynion a grëir gan gymunedau (o bosibl drwy CCA o hyn ymlaen). Gellid ymgysylltu ymhellach i ledaenu canfyddiadau asesiadau, llunio unrhyw gynlluniau gweithredu o hyn ymlaen, a hwyluso sgwrs sy'n amlygu'r manteision o ran llesiant sy'n gysylltiedig â mwynhau mannau agored.

Atodiadau

Atodiad A: Ffynonellau a Datganiadau Priodoli

Cenedlaethol: Cynllun, Polisi neu Raglen

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/7/contents>

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithio llesol a chyflwyno gwelliannau bob blwyddyn mewn llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru wneud gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ym mhob cynllun ffordd newydd a rhoi sylw i anghenion beicwyr a cherddwyr mewn ystod o swyddogaethau awdurdod lleol eraill. Fel rhan o'i ymrwymiad i'w gwneud yn haws i gerdded a beicio, mae'r Cyngor wedi paratoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau cerdded a beicio presennol. Cafodd y mapiau hyn eu creu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn ogystal â'i ymchwil ei hun yn 2015. Mae'r llwybrau a nodir ar y mapiau yn bodloni safonau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau cerdded a beicio yng Nghymru.

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

<https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents>

Mesur i wneud darpariaeth ynghylch cyfrannu at ddileu tlodi plant; i ddarparu dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant (a adwaenir fel y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae); i wneud darpariaeth ynghylch trefniadau i blant gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol a allai effeithio arnynt; i wneud darpariaeth ynghylch gwarchod plant a gofal dydd i blant; i wneud darpariaeth o ran sefydlu timau a byrddau integredig i gefnogi teuluoedd; i wneud darpariaeth ynghylch gwella safonau mewn gwaith cymdeithasol ar gyfer plant a'r bobl sy'n gofalu amdanynt; i wneud darpariaeth ynghylch asesu anghenion plant lle mae angen gwasanaethau gofal cymunedol ar y rhieni neu lle mae ganddynt gyflyrau iechyd sy'n effeithio ar anghenion y plant; ac at ddibenion cysylltiedig.

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37>

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus ar droed i rai mathau o dir, yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus, yn cynyddu'r amddiffyniad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn cryfhau'r ddeddfwriaeth sy'n gorfodi materion bywyd gwyllt. Mae hefyd yn darparu ar gyfer rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol mewn modd gwell. Mae 81 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y sir (heb gynnwys yr ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) sy'n cwmpasu 17,088 hectar,

ac maent yn amrywio o ran maint, o gaeau bach i ardaloedd mawr o ochrau mynydd ac afonydd hir. Maent yn ymestyn dros tua 7.2% o'r sir. Mewn SoDdGA y mae'r bywyd gwyllt a'r safleoedd daearegol gorau yn y wlad. Maent yn cynnwys cynefinoedd fel coetiroedd hynafol, dolydd sy'n llawn blodau, gwlyptiroedd yn ogystal â chwareli segur. Maent yn cynnal planhigion a rhywogaethau o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu gweld yn aml yn y cefn gwlad ehangach. Caiff Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu gwarchod yn statudol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am nodi, dynodi a gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod priffyrdd i gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer ei ardal.

Mae gan Sir Gaerfyrddin chwe Gwarchodfa Natur Leol (GNL). Dynodir y Gwarchodfeydd Natur Lleol gan awdurdodau lleol ac maen nhw'n lleoedd sy'n cynnal amrywiaeth cyfoethog o fywyd gwyllt neu nodweddion daearegol ac maen nhw'n bwysig i bobl leol drwy eu galluogi nhw i gysylltu â'r amgylchedd naturiol. Rheolir y Gwarchodfeydd Natur Lleol gyda chadwraeth bywyd gwyllt y flaenoriaeth uchaf. Mae'r Gwarchodfeydd hyn i'w cael yn Nhwyni Pen-bre a'r Morfa, Pwll Ashpit a Merllyn y Pwll, Twyni Doc y Gogledd, Morfa Berwig (i gyd yn ardal arfordirol Llanelli), Carreg Cennen a Glan-yr-Afon, Cydweli.

Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

<https://llyw.cymru/cymru-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040>

Cymru'r Dyfodol yw'r cynllun datblygu ar gyfer Cymru. Mae'n dylanwadu ar holl lefelau'r system gynllunio yng Nghymru ac yn llunio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a baratowyd gan gynghorau ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Mae'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwydnwch hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae yn yr Awyr Agored: Y Tu Hwnt i'r Safon Chwe Erw (Cymru) (2015)

<https://www.fieldsintrust.org/Upload/file/Guidance/Guidance-for-Outdoor-Sport-and-Play-Wales.pdf>

Mae hyn yn rhoi arweiniad ar gynllunio a dylunio chwaraeon awyr agored, chwarae a gofod anffurfiol, a luniwyd ar *'argymhelliad eang bod 6 erw (2.4 hectar) o ofod gwyrdd hygyrch fesul 1,000 pen o'r boblogaeth yn galluogi preswylwyr o bob oed i gymryd rhan'*. Cafodd y ddogfen ei diwygio i adlewyrchu newidiadau polisi gan gynnwys y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol ac mae bellach yn cynnwys argymhellion ar ddarparu amwynder a mannau gwyrdd naturiol.

Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 3) 2020

<https://llyw.cymru/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020>

Mae'r Llawlyfr yn cynnig dull mwy integredig o ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd, yn esbonio newidiadau yn ymwneud â gweithdrefnau safleoedd ymgeisio a safleoedd

amgen, yn ogystal â phroffion cadernid, ac yn ehangu'r cyngor ar adolygu a diwygio'r cynllun.

Pobl, Lleuedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru 2008 (diweddariad)

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/people-places-future-the-wales-spatial-plan-update-2008.pdf>

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn darparu cyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer cynllunio gofodol a datblygu yng Nghymru trwy sefydlu blaenoriaethau cenedlaethol trawstoriadol dros yr 20 mlynedd nesaf. Lleolir Sir Gaerfyrddin o fewn tri o'r chwe is-ardal a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

<https://llyw.cymru/adeiladu-a-chynllunio>

Nod y Ddeddf hon yw moderneiddio a gwella'r system gynllunio i hwyluso'r gwaith o ddarparu tai, swyddi a seilwaith. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio:

- atgyfnerthu rôl Llywodraeth Cymru fel stiwardiaid gweithredol y system gynllunio yng Nghymru;
- hyrwyddo newid diwylliannol ym maes cynllunio i helpu i'w wneud yn fwy cadarnhaol a chefnogi datblygiadau priodol yn fwy effeithiol; a
- hyrwyddo arferion gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Caiff yr isod hefyd eu nodi o safbwynt y goblygiadau posibl:

- Cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - materion cynllunio defnydd tir ar lefel genedlaethol, nodi lleoliadau allweddol ar gyfer datblygu seilwaith a gosod y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio.
- Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol Is-ranbarthol - gan gyfeirio'n benodol at Gaerdydd, Abertawe a choridor yr A55.
- Cadw Cynlluniau Datblygu Lleol - fodd bynnag, bydd angen i'r rhain gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyson â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a Chynlluniau Datblygu Strategol lle bo'n briodol).
- Cynyddu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru, ac mewn rhai amgylchiadau bydd yr ymgeiswyr yn gallu gwneud cais yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i'r CDLI gael ei adolygu a'i baratoi'n unol â'r Ddeddf hon yn ogystal â dogfennau deddfwriaethau sylfaenol ac is-ddeddfwriaethau.

Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 (2021)

<https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru>

Polisi Cynllunio Cymru yw'r ddogfen genedlaethol ar bolisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru. Caiff ei defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i lywio polisiâu a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer y rheiny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisiâu defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Ategir y polisi gan Nodiadau Cyngor Technegol (TAN),

cylchlythyrau, a llythyrau egluro polisi, a gyda'i gilydd maent yn darparu ein fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol.

Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)

<https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio>

Diben Nodyn Cyngor Technegol 12 yw rhoi cyngor i'r rheiny sy'n ymwneud â dylunio datblygiadau ynglŷn â 'Hyrwyddo Cynaliadwyedd trwy ddylunio da' a 'Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy' a sut y gellir hwyluso hyn trwy'r system gynllunio. Mae dylunio da yn gofyn am broses gydweithredol, greadigol, gynhwysol o ddatrys problemau ac arloesi - sydd yn cwmpasu cynaliadwyedd, pensaerniaeth, creu lle, llecynnau cyhoeddus, tirwedd, a seilwaith. Mae Nodyn Cyngor Technegol 12 yn pwysleisio bod ymagwedd gyfannol at ddylunio yn golygu bod angen i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio ganolbwyntio o'r cychwyn ar gyflawni cyfres o amcanion dylunio da. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau mynediad hwylus i bawb; hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio; sicrhau mannau cyhoeddus deniadol a diogel; cyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol; cynnal neu wella cymeriad lleol.

Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)

<https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored>

Mae Nodyn Cyngor Technegol 16 yn nodi canllawiau ynghylch cynllunio ar gyfer chwaraeon, hamdden a mannau agored fel rhan o gynigion datblygu newydd. Mae'n darparu cyngor yn ymwneud â'r maes hwn gan gynnwys paratoi Asesiadau Mannau Agored, cadw'r cyfleusterau presennol, darparu cyfleusterau newydd a chynllunio ar gyfer rhandiroedd a mannau chwarae i blant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae TAN16 yn trafod materion rheoli datblygu ynglŷn â dylunio cyfleusterau a gofodau, a sŵn a hygyrchedd, a hefyd yn ystyried sut y gall cytundebau cynllunio helpu i sicrhau darpariaeth a chynnal cyfleusterau.

Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010):

<https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy>

Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 yn darparu canllawiau at sut y gall y system gynllunio gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'n darparu cyngor ar feysydd gan gynnwys cymunedau ac economïau gwledig cynaliadwy, tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig, anheddau menter wledig, datblygiadau un blaned, gwasanaethau gwledig cynaliadwy ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'n Lles (2019)

<https://llyw.cymru/rheoli-adnoddau-naturiol-yn-gynaliadwy-canllaw>

Mae'r Canllaw hwn yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd ymagwedd ecosystem o ran rheoli adnoddau naturiol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=10103>

Prif ddibenion y Ddeddf yw:

- Gosod fframwaith o fewn yr hwn y bydd awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);
- Amlinellu nodau llesiant y mae'r awdurdodau hynny i geisio eu gwella er lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- Cyflwyno'r modd y mae'r awdurdodau hynny i fod i ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant;
- Rhoi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol ar sail statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio'r gofynion presennol gyda golwg ar gynllunio cymunedol integredig, a
- Sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru i fod yn eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol, a fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

Mae'n rhaid i'r CDLI roi sylw i'r 7 nod llesiant a nodir o fewn y Ddeddf:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Rhanbarthol: Cynllun, Polisi neu Raglen

Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (2020)

<https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy>

Cynhyrchwyd fel ymateb cydweithredol i'r Polisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal honno, cyfleoedd i ymateb i'r heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Y themâu ar gyfer De-orllewin Cymru yw lleihau anghydraddoldebau iechyd; sicrhau dulliau cynaliadwy o reoli tir gan wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'i gwella; ac (thema drawsbynciol) addasu i newid yn yr hinsawdd a'i leihau. Tra bod y themâu ar gyfer datganiad yr ardal forol yn

adeiladu gwytnwch ecosystemau morol; atebion ac addasu ar sail natur ar yr arfordir; a gwneud y gorau o gynllunio morol.

Lleol: Cynllun, Polisi neu Raglen

Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022 - 2027 (Cyngor Sir Caerfyrddin)

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-chynlluniau/datganiad-gweledigaeth-y-cabinet-2022-2027/>

Yn ogystal â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a thlodi, mae datganiad gweledigaeth y Cabinet yn cynnwys cryfhau'r economi a chynyddu llewyrch, a buddsoddi mewn tai, addysg, diwylliant, seilwaith a'r amgylchedd i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Cyngor Sir Caerfyrddin: Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1231822/corporate-strategy-2022-27.pdf>

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn pennu blaenoriaethau strategol a dyheadau'r Cyngor ac yn amlinellu'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf. Wrth wraidd y dull hwn y mae integreiddio a chydweithio ar draws y Cyngor ac â'n rhanddeiliaid, a byddwn yn canolbwyntio yn y dyfodol ar *Ddatblygu Sir Gaerfyrddin, Gyda'n gilydd; Un Cyngor; Un Weledigaeth; Un Llais*.

Cynllun Cyflawni ac Adfer Economaidd Sir Gaerfyrddin (2021)

<https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/documents/s51856/Report.pdf>

Mae'r Cynllun Adfer Economaidd hwn yn nodi rhyw 30 o gamau gweithredu i gefnogi adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd y pandemig COVID-19 a Brexit. Mae'n pennu blaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer cefnogi Busnes, Pobl a Lle. Gyda'r cymorth hwn gall economi Sir Gaerfyrddin adfer cyn gynted ag sy'n bosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, ac sydd â chymunedau mwy cynaliadwy.

Strategaeth Cymorth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin 2018-2023

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1220764/2018-23-carmarthenshire-family-support-strategy-eng.pdf>

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn datblygu ac yn darparu gwasanaethau ymyriadau cynnar i gefnogi plant, teuluoedd a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin ar unrhyw adeg ym mywyd plentyn, o'r blynyddoedd cynnar ac ymlaen i'r ardegau.

Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006-2021 (Mabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014):

http://www.cartogold.co.uk/CarmarthenshireLDP/english/text/00_Content.htm

Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin yn gosod y fframwaith ar gyfer holl ddatblygiadau'r dyfodol o fewn y Sir hyd at 2021 (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Mae'r CDLI yn llunio cyfleoedd buddsoddi'r dyfodol a rhaglenni gwella seilwaith ac yn tywys y gwaith o benderfynu ar unrhyw gynigion neu geisiadau cynllunio, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Cyflwynir Arfarniad Cynaliadwyedd law yn llaw â'r CDLI, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Yn ogystal, datblygwyd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i ymhelaethu ar bolisïau a darpariaethau'r Cynllun a'u hatgyfnerthu; sef:

1. Tai Fforddiadwy;
2. Rhwymedigaethau Cynllunio;
3. Caeau'r Mynydd Mawr;
4. Cyfarwyddyd Cynllunio a Datblygu – De Llanelli;
5. Cyfarwyddyd Cynllunio a Datblygu – Pibwr-lwyd;
6. Addasu ac ailddefnyddio adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl;
7. Yr Iaith Gymraeg;
8. Hamdden a Mannau Agored - gofynion ar gyfer datblygiadau newydd;
9. Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth;
10. Archaeoleg a datblygu;
11. Briff Cynllunio a Datblygu Gorllewin Sir Gaerfyrddin; a
12. Cyfarwyddyd Cynllunio a Datblygu Ardal Gogledd Llandeilo.

Ar 10 Ionawr 2018, penderfynodd y Cyngor baratoi CDLI diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd y CDLI arfaethedig yn disodli'r CDLI Mabwysiedig.

Cynllun Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin 2018-2023 – Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

<https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/documents/s32300/PSB%20Annual%20Report%202019.pdf>

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol ledled Sir Gaerfyrddin i weithredu ar y cyd a sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2016 a'i dasg yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin. Rhaid iddo wneud hynny trwy gynnal asesiad o lesiant yn y Sir ac wedyn paratoi Cynllun Llesiant sirol i amlinellu ei amcanion lleol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn eu gwireddu a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin 2020-2030

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1222448/carms-nature-recovery-plan-pt-3.pdf?v=202005071000000000>

Mae'r Cynllun Adfer Natur a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin yn rhestru'r rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7 sydd i'w cael yn y sir ac, fel y cyfryw, yn llywio polisi cynllunio lleol. Mae'n adlewyrchu'r amcanion cenedlaethol ar lefel leol ac yn ystyried sut yr eir i'r afael â'r amcanion hyn yn Sir Gaerfyrddin, yr heriau, a'r cyfleoedd wrth gyflawni'r amcanion hyn, ac yn llywio gwaith y partneriaid sydd â diddordeb cyffredin mewn gwarchod a gwella ein hamgylchedd naturiol yn y dyfodol.

Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin (fel sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Gaerfyrddin 2018-2023)

Yn dilyn ymgynghoriad, aeth y Cyngor ati i baratoi set o Amcanion Llesiant / Gwella. Mae'r Amcanion hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r Nodau Llesiant Cenedlaethol ac yn cydnabod bod modd gwneud mwy ar lefel llywodraeth leol. Mae cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer pob un o'r 13 amcan (o dan bum thema allweddol), sef:

Dechrau'n Dda

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd.
2. Helpu plant i fyw bywydau iachus

Byw'n Dda

3. Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr
4. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi
5. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir
6. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael
7. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)
8. Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a diogelwch

Heneiddio'n Dda

9. Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny

Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

10. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol
11. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth
12. Hyrwyddo'r laith Gymraeg a Diwylliant Cymru

Llywodraethu Corfforaethol

13. Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf (2018)

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1212982/moving-forward.pdf>

Mae'r Cyngor wedi nodi 98 o brosiectau, cynlluniau neu wasanaethau â blaenoriaeth y mae am eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r "lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef". Bydd y Cyngor yn buddsoddi mewn meysydd allweddol wrth geisio gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y sir.

Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen (2019) (Cyngor Sir Gaerfyrddin)

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1219667/moving-rural-carms-forward-report-final.pdf>

Datblygwyd y strategaeth eang hon i helpu i nodi a chanolbwyntio ar adfywio o fewn cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin.

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-2029 (Cyngor Sir Gaerfyrddin)

<https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1222043/rowip-english.pdf>

Wedi'i ddatblygu yn unol ag Adran 60(3) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) (2000), mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) yn ddogfen dengmlwyddol sy'n manylu ar gynllun yr Awdurdod ar gyfer rheoli strategol, datblygu, a gwella rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Sir (PRoW). Mae'n hanfodol wrth ddarlunio cyfeiriad a graddfa'r gwaith a gyflawnir yn y dyfodol ar fynediad i gefn gwlad, ac mae'n rhoi golwg hirdymor ar bolisiau a chymau gweithredu. Roedd hwn yn ddiweddariad ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy blaenorol a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2008.

Atodiad B: Ffynonellau a Datganiadau Priodoli

Set ddata (dyddiad creu)	Dyddiad caffael	Ffynhonnell	Datganiad Priodoli	Nodiadau
OS Open Greenspace	05/06/2023	https://beta.ordnancesurvey.co.uk/products/os-open-greenspace	Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron [a hawl cronfa ddata] (2023)	Defnyddiwyd y set ddata hon i bennu unrhyw wahaniaethau rhwng ein setiau data presennol. Adolygwyd y nodweddion gwahanol hynny (cyfanswm o 57) yn unigol ac, os ystyriwyd yn briodol, fe'u hymgorfforwyd yn y categori perthnasol.
Mynediad Agored CNC – Coedwigoedd Penodedig (26 Gorffennaf 2016)		https://mapdata.llyw.cymru/ayers/inspire-nrw:NRW_PUBLIC_FOREST_2014	Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.	
Mynediad Agored CNC – Tir Agored (21 Gorffennaf 2016)	01/06/2023	https://mapdata.llyw.cymru/ayers/inspire-nrw:NRW_OPEN_COUNTRY_2014	Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.	Defnyddir i hysbysu
Mynediad Agored CNC – Tir Mynediad Statudol Arall (26 Gorffennaf 2016)		https://mapdata.llyw.cymru/ayers/inspire-nrw:NRW_OTHER_STATUTORY LAND_2014	Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.	
Mynediad Agored CNC – Tir Comin Cofrestredig (21 Ebrill 2017)		https://mapdata.llyw.cymru/ayers/inspire-nrw:NRW_COMMON LAND_2014	Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.	

Daliadau Eiddo Cyngor Sir Caerfyrddin		Mewnol	Ddim yn berthnasol	Defnyddir i bennu hygrychedd mannau agored.
Awdurdodau Lleol – Marc Penllanw	05/06/2023	https://mapdata.llyw.cymru/ayers/groups/inspire-wg:LocalAuthorities/metadata_detail	Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron [a hawl cronfa ddata] (2023)	
Parciau Cenedlaethol		https://mapdata.llyw.cymru/ayers/inspire-nrw:NRW_NATIONAL_PARK/metadata_detail	Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans 100019741. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.	
Wardiau Etholiadol Cymru Mai 2022		https://mapdata.llyw.cymru/ayers/geonode:electoral_wards_wales_may_2022	Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata 2022.	
Data Agored yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Tir – Ar agor bob amser (4 Gorffennaf 2022)	0	https://open-data-national-trust.hub.arcgis.com/datasets/3511d41489ae442c877db40698b3b0c9_0/explore?location=52.065021%2C-4.571398%2C13.80		Mae'r haen hon yn dangos tua 114,000 hectar o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y mae gan y cyhoedd fynediad iddo ar droed yn unig (diweddarwyd ddiwethaf: Mai 2017) – naill ai drwy hawl (yn achos 'Tir Mynediad' dynodedig o dan Ddeddf Cefn Gwlad (Hawliau Tramwy) 2000) neu drwy ganiatâd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae hawliau dros Dir Mynediad wedi'u cyfyngu gan y Ddeddf Cefn Gwlad (Hawliau Tramwy) a gellir eu cyfyngu neu eu heithrio ymhellach oherwydd rhesymau rheoli tir penodol.
Data Agored yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Tir – Mynediad Cyfyngedig (4 Gorffennaf 2022)		https://open-data-national-trust.hub.arcgis.com/datasets/bb6f7e22e2e74c70b350		Mae'r haen hon yn dangos tua 19,300 hectar o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle mae gan y cyhoedd

		eb0b2135ed08_0/explore?location=51.886220%2C-4.009765%2C14.57		fynediad cyfyngedig (diweddarwyd diwethaf: Mai 2017). Mae'r data hwn yn dangos meysydd lle mae mynediad wedi'i gyfyngu am o leiaf un o'r rhesymau canlynol: 1. Mae'r tir wedi'i amgáu fel rhan o Ystad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. 2. Cyfyngir mynediad i rwydwaith llwybrau dwys. 3. Mae rhesymau penodol nad yw'r tir bob amser yn agored e.e. Pryderon diogelwch
EuroGlobalMap (Chwefror 2023)		https://www.mapsforeurope.org/access-data	Data Arolwg Ordnans: © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] Mae OS OpenData ar gael i'w ddefnyddio am ddim o dan y Drwydded Llywodraeth Agored	Mae'r set ddata hon yn cynnwys eiddo deallusol o awdurdodau mapio cenedlaethol a stentaidd Ewropeaidd ac y mae wedi'i thrwyddedu ar ran y rhain gan EuroGeographics. Mae'r set ddata wreiddiol ar gael am ddim yn https://www.mapsforeurope.org . Mae telerau'r drwydded ar gael yn https://www.mapsforeurope.org/licence . Gellir dod o hyd i'r holl ddatganiadau priodoli yn https://www.mapsforeurope.org/attributions .